# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan J. Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO | | PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD MERCHER,<br>13 MAWRTH, 2024 am 2.00 o'r gloch yp | | WEDNESDAY,<br>13 MAWRTH, 2024 at 2.00 pm |
| CYFARFOD HYBRID – YN YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM | | HYBRID MEETING – IN COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI AND VIRTUALLY THORUGH ZOOM |
| Swyddog Pwyllgor | Mrs. Mairwen Hughes<br>01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Y Grwp Annibynnol / The Independent Group**

Gwilym O Jones **(Is-gadeirydd/Vice-Chair)**

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

Non Dafydd, Euryn Morris, John I Jones, Dylan Rees **(Cadeirydd/Chair),** Margaret M Roberts, Ken Taylor, Sonia Williams

**Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents**

Paul Ellis, Jeff Evans, Derek Owen

**Llafur Cymru/Welsh Labour**

Pip O'Neill

**Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters)**

**Mrs Wenda Owen- (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Gillian Thompson (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector) Sedd Wag/Vacant Seat -(Rhiant Llywodraethwyr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor – Secondary Schools Sector and ALN) Mr John Tierney (Yr Eglwys Babyddol and Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)**

**Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)**
Mr. Dafydd Gruffydd ( Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Menter Môn)

# R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno, i'w gadarnhau, gofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 6 Chwefror, 2024.

3 **CYNLLUN STRATEGOL TACLO TLODI 2024-2029** (Tudalennau 7 - 26)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

4 **DIWEDDARIAD DIOGELU CORFFORAETHOL STRATEGOL** (Tudalennau 27 - 50)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

5 **CRONFA FFYNIANT BRO - CAERGYBI** (Tudalennau 51 - 62)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio ac Datblygu Economaidd.

6 **ADRODDIAD BLYNYDDOL AR GYDRADDOLDEB - 2022/2023** (Tudalennau 63 - 104)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog 151.

7 **BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR - 2023/2024** (Tudalennau 105 - 112)

Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Sgriwtini.

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 6 Chwefror 2024

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Gwilym O Jones (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Non Dafydd, Jeff M Evans, John Ifan Jones, Euryn Morris, Derek Owen, Ken Taylor, Sonia Williams.<br><br>**Aelodau Cyfetholedig:**<br><br>Mrs Gillian Thompson (Rhiant Lywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd)<br>Mrs Wenda Owen (Yr Eglwys yng Nghymru)<br><br>**Aelodau Portffolio**<br><br>Arweinydd y Cyngor – Cynghorydd Llinos Medi (ar gyfer eitem 4) |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Pennaeth Democratiaeth (DS),<br>Uwch Reolwr (Ysgolion Uwchradd) (AE),<br>Rheolwr Polisi a’r Gymraeg (FO),<br>Rheolwr Sgriwtini (AD),<br>Swyddog Sgriwtini (EA),<br>Swyddog Pwyllgorau (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorwyr Pip O'Neill a Margaret Murley Roberts<br><br>Cynghorydd Alun Roberts – Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | **Aelodau Portffolio**<br><br>Cynghorydd Carwyn Jones – Aelod Portffolio Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer;<br>Cynghorydd Gary Pritchard – Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Gwasanaethau Plant, Ieuenctid a Thai;<br>Cynghorydd Dafydd Roberts – Aelod Portffolio Addysg a’r Gymraeg;<br>Cynghorydd Dafydd R Thomas – Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo. |

---

## 1 YMDDIHEURIADAU

Fel y nodwyd uchod.

## 2 DATGAN BUDDIANT

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o fuddiant.

## 3 COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Ionawr, 2024 yn gywir.

## 4 PANEL SGRIWTINI ADDYSG – ADRODDIAD CYNNYDD

Cyflwynwyd – adroddiad cynnydd gan Gadeirydd y Panel Sgriwtini Addysg.

Dywedodd Cadeirydd y Panel Sgriwtini Addysg, y Cynghorydd Gwilym O Jones, bod Addysg yn un o'r chwe amcan strategol yng Nghynllun y Cyngor a bod gan Aelodau Etholedig rôl hanfodol i'w chwarae o ran gwireddu'r amcan hon drwy graffu a galw i gyfrif, ac mae gwaith y Panel Sgriwtini Addysg yn cyfrannu at yr amcan hwn. Fe nododd mai dyma drydydd adroddiad cynnydd y Panel a'i fod yn cwmpasu'r cyfnod Medi 2023 - Ionawr 2024. Mae'r Panel wedi cwrdd ar 4 achlysur yn ystod y cyfnod hwn ac mae wedi ystyried y materion a ganlyn:-

- Y Model Cydweithio Integredig;
- Llesiant/Iechyd Meddwl/Diogelu;
- Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiant;
- Ysgolion mewn Categori, Dilyniant Estyn neu'n derbyn Cymorth Ychwanegol;
- Rhaglen waith y panel Sgriwtini ar gyfer y cyfnod Mai 2023 – Ebrill 2024.

Wrth ystyried yr adroddiad holwyd sut y caiff iechyd a diogelwch disgyblion ei fonitro. Dywedodd yr Uwch Reolwr (Ysgolion Uwchradd) bod arferion da yn gysylltiedig ag iechyd a diogelwch ar Ynys Môn a bod ysgolion yn rhannu arferion da. Holwyd hefyd a oedd y Panel wedi ystyried, fel rhan o'u blaen raglen waith, yr effaith y gall yr arbedion ariannol ei gael ar gynnydd ysgolion a p'un ai a oedd gan y Panel strategaeth er mwyn monitro'r effaith hwnnw. Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr y bydd y Gwasanaeth Dysgu'n monitro effaith yr arbedion ariannol yn barhaus ac y bydd y Panel yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd. Nododd y bydd aelodau'r Panel yn cael cyfle i ymweld ag ysgolion ac y bydd cynrychiolwyr o'r ysgolion yn cael eu gwahodd i gyfarfodydd o'r Panel. Dywedodd y Prif Weithredwr y bydd y Panel Sgriwtini Cyllid a'r Panel Sgriwtini Addysg yn cael cyfle i ddod at ei gilydd ddiwedd y mis i ystyried effaith bosib yr arbedion effeithlonrwydd ar y ddarpariaeth addysg. Dywedodd hefyd bod ansicrwydd o ran yr arian grant i ysgolion ac y bydd yr effaith y gall hynny ei gael o'r flwyddyn ariannol nesaf ymlaen yn cael ei drafod yn ystod y cyfarfod o'r ddau Banel.

Cyfeiriwyd at yr awgrymiadau sydd gan y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio er mwyn atgyfnerthu gwaith y Panel Sgriwtini Addysg. Dywedodd y

Cadeirydd y byddai'n fanteisiol pe byddai'r Panel yn derbyn awgrymiadau ynglŷn â meysydd yn ymwneud â'r Gwasanaeth Dysgu gan yr Aelodau o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio sydd ddim yn aelodau o'r Panel. Holwyd a yw 'llais y disgybl' a 'llais rheini/gwarcheidwaid' yn cael ei ystyried fel rhan o'r broses graffu. Dywedodd y Rheolwr Sgriwtini y bydd y Panel yn edrych ar 'lais y dysgwr' wrth graffu ar ei flaen raglen waith. Holwyd ynglŷn â'r meysydd penodol eraill y dylai'r Panel eu craffu. Dywedodd y Cadeirydd bod y Panel yn cwrdd yn rheolaidd ac yn trafod yr hyn y mae'n dymuno craffu arno gyda Swyddogion perthnasol o'r Gwasanaeth Dysgu. Nododd bod y Gwasanaeth Dysgu wedi darparu adroddiadau i'r Panel Sgriwtini Addysg ar wahanol feysydd gwaith ar gais y Panel. Pwysleisiodd bod y cyfarfodydd yn gyfrinachol gan fod ysgolion unigol yn cael eu trafod. Nododd yr Uwch Reolwr (Ysgolion Uwchradd) y bydd y Canllawiau Gwella Ysgolion yn dod yn statudol ym mis Medi 2024 ac y bydd y Panel Sgriwtini Addysg yn cael cyfle i drafod a chraffu ar y trefniadau.

Cyfeiriwyd at yr effaith y mae gwefannau a bwlio ar y cyfryngau cymdeithasol yn ei gael ar y maes amddiffyn plant. Holwyd a yw materion diogelwch y we yn cael eu hystyried. Dywedodd yr Uwch Reolwr (Ysgolion Uwchradd) bod materion yn ymwneud â diogelu yn bwysig, yn cynnwys diogelwch ar y we mewn ysgolion a bod gan y Gwasanaeth Dysgu Swyddog Diogelu Data a Swyddog Diogelu sydd ar gael i gefnogi ysgolion. Dywedodd bod polisïau, canllawiau a phrosesau ar gael i gefnogi diogelwch ar y we.

Soniwyd am y cyfeiriad yn yr adroddiad cynnydd at y data diweddaraf ar bresenoldeb, gwaharddiadau a dadgofrestru yn ystodion yr Awdurdod Lleol. Holwyd a oedd unrhyw bryder ynglŷn â'r data. Dywedodd yr Uwch Reolwr (Ysgolion Uwchradd) bod presenoldeb yn is na'r cyfnod cyn-covid ac er bod hyn yn peri pryder yr un yw'r patrwm ledled Cymru ers y pandemig. Nododd ei bod hi'n bwysig gweithio gydag ysgolion a llywodraethwyr i wella presenoldeb a monitro gwaharddiadau yn ein hysgolion. Codwyd cwestiynau pellach ynglŷn â'r patrwm o ran absenoldebau. Dywedodd yr Uwch Reolwr (Ysgolion Uwchradd) nad yw'r Gwasanaeth Dysgu wedi dod o hyd i unrhyw batrymau penodol, ond mae'r Gwasanaeth Dysgu yn defnyddio swyddogion dynodedig i gysylltu â theuluoedd i fynd i'r afael â'r broblem.

Holwyd a yw'r rhaglen 'Ynys sy'n ystyriol o Drawma' wedi cael effaith gadarnhaol yn ein hysgolion. Dywedodd yr Uwch Reolwr (Ysgolion Uwchradd) bod llawer iawn o waith wedi cael ei gyflawni mewn perthynas â'r maes hwn a bod pob ysgol wedi ymrwymo i'r gwaith. Dywedodd ei bod hi'n rhy gynnar i adrodd ar effaith y rhaglen ac y bydd yn cymryd blynyddoedd i weld pa effaith y mae wedi'i chael ar ein hysgolion.

Codwyd cwestiynau pellach ynglŷn â sut y gall y Gwasanaeth Dysgu fonitro'r gwahaniaeth rhwng cyrhaeddiad disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a'r rhaid sydd ddim gan fod pob disgybl cynradd yng Nghymru yn gymwys i ginio ysgol am ddim erbyn hyn. Dywedodd yr Uwch Reolwr (Ysgolion Uwchradd) bod y canllawiau, sydd ddim yn statudol ar hyn o bryd, yn nodi bod rhaid i gyrff llywodraethol, gyda chefnogaeth y Gwasanaeth Dysgu, sicrhau bod blaenoriaethu'r ysgol yn adlewyrchu'r angen i sicrhau cydraddoldeb ar gyfer pob disgybl. Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr bod y 'Mesur Cinio Ysgol Am Ddim' wedi cael

ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ac y bydd pob disgybl ysgol gynradd yn cael cinio ysgol am ddim erbyn diwedd 2024. Aeth ymlaen i ddweud bod y trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â heriau'r Mesur yn parhau.

Codwyd cwestiynau ynglŷn â Strategaeth hirdymor y Gwasanaeth Dysgu ar gyfer y dyfodol. Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr er bod ein hysgolion yn wynebu heriau ariannol bydd rhaid i'r cyrff llywodraethol a'r Gwasanaeth Dysgu werthuso strategaethau tymor byr a hwy'r ysgolion. Dywedodd bod gan bob ysgol Gynllun Datblygu Ysgol sy'n gwerthuso rhaglenni tymor byr a hwy a dywedodd bod gweithio gyda GwE yn bwysig i lwyddiant ysgolion. Aeth ymlaen i ddweud ei bod hi'n bwysig cydweithio gydag ysgolion a bod rhannu arferion da yn bwysig er mwyn gwella. Holwyd a oedd pryder ynglŷn â chwtogi'r cymorth gan GwE. Dywedodd y Prif Weithredwr y bydd gostyngiad mewn grantiau ac adolygiad o'r ddarpariaeth haen ganol gan GwE. Rydym yn aros am fanylion ynglŷn â'r newidiadau i'r gefnogaeth gan y consortia addysgol. Fe nododd y bydd newidiadau sylweddol o ran cyfrifoldebau GwE gyda'r chwe awdurdod lleol y maent yn eu cefnogi. Dywedodd y Prif Weithredwr bod trafodaethau wedi cael eu cynnal rhwng y chwe awdurdod lleol i amddiffyn y ddarpariaeth bwysig gan GwE. Aeth ymlaen i ddweud bod newidiadau sylweddol y bydd rhaid mynd i'r afael â hwy yn y dyfodol mewn perthynas â'r newidiadau a fydd yn effeithio ar yr ysgolion a bydd y Panel Sgriwtini Addysg yn cael gwybod am y newidiadau y bydd rhaid mynd i'r afael â hwy er mwyn sicrhau'r ddarpariaeth orau ar gyfer y disgyblion.

Cyfeiriwyd at y prinder Seicolegwyr Addysg. Holwyd faint sy'n rhaid i ddisgyblion aros cyn cael asesiad. Dywedodd yr Uwch Reolwr (Ysgolion Uwchradd) bod prinder Seicolegwyr Addysg, yn enwedig rhai dwyieithog, a bod rhaid i blant aros i gael eu hasesu. Dywedodd Cadeirydd y Panel Sgriwtini Addysg bod y Panel wedi trafod y prinder hwn a'i fod yn broblem ledled Cymru.

**PENDERFYNWYD nodi'r cynnydd dros y cyfnod diwethaf gyda gwaith y Panel Sgriwtini Addysg.**

**CAMAU GWEITHREDU : Fel y nodir uchod.**

## 5 CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL : 2024-2028

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor bod y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn gyhoeddiad allweddol bwysig sy'n cyd-fynd â Chynllun y Cyngor ac y bydd yn cyfrannu at gyflawni ei amcanion strategol a'i weledigaeth. Dywedodd bod y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn gynllun uchelgeisiol er mwyn creu cymdeithas decach i bobl Ynys Môn. Er mwyn creu ynys lle gall pob ffynnu rhaid i ni gydnabod bod anghydraddoldeb yn bodoli ac y byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a sicrhau fod pawb yn cael ei drin yn gyfartal. Dywedodd y bydd Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor maes o law.

Wrth ystyried yr adroddiad cyfeiriwyd at yr wyth amdan yn y cynllun. Holwyd a oedd hyn yn rhy uchelgeisiol o ystyried yr hinsawdd ariannol bresennol. Dywedodd Arweinydd y Cyngor ei bod hi'n bwysig bod pobl Ynys Môn yn ganolog i'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor. Dywedodd y bydd yn heriol cwrdd â'r amcanion yn y Cynllun, fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gryfhau cydraddoldeb ac mae enghreifftiau wedi cael eu rhannu yn yr eitem flaenorol mewn perthynas ag addysg. Holwyd sut y bydd yr amcanion yn y Cynllun yn cael eu mesur.  Ymatebodd y Pennaeth Democratiaeth y bydd Grŵp Llywio mewnol yn cael ei sefydlu a fydd yn gyfrifol am fonitro'r Cynllun Gweithredu Blynyddol ac mai prif dasg y Grŵp fydd datblygu dangosyddion perfformiad. Dywedodd na fydd aelodaeth y Grŵp yn cael ei gytuno hyd nes y bydd y Cynllun Cydraddoldeb yn cael ei gymeradwyo.  Dywedodd Arweinydd y Cyngor y bydd y Grŵp Llywio yn cadarnhau pwy sydd gan gyfrifoldeb corfforaethol dros bob amcan strategol i sicrhau bod pob adran yn chwarae ei ran er mwyn datblygu'r amcanion.

Codwyd cwestiynau ynglŷn â'r bwriad ar gyfer y pedair blynedd nesaf o ran codi ymwybyddiaeth a chynyddu dealltwriaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth o fewn y Cyngor.  Dywedodd y Rheolwr Polisi a'r Gymraeg mai'r gobaith yw canolbwyntio mwy ar gydraddoldeb o fewn y Cyngor ac y bydd negeseuon rheolaidd yn cael eu hanfon at staff ac aelodau etholedig, yn debyg i'r hyn sydd eisoes yn digwydd gyda'r Gymraeg. Nododd bod cynnydd wedi'i wneud o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth a'i fod wedi'i gynnwys fel egwyddor gyffredinol yng Nghynllun y Cyngor sy'n amlygu'r disgwyliadau gan eu bod yn berthnasol i'r Cyngor cyfan. Bydd y Grŵp Llywio yn sefydlu cyfeiriad strategol ar gyfer cydraddoldeb o fewn y Cyngor. Dywedodd ei bod hi'n bwysig bod aelodau staff newydd yn ymwybodol o'r disgwyliadau o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth a bod gan reolwyr rôl ganolog i'w chwarae o ran hyrwyddo'r disgwyliadau hynny.

Cyfeiriwyd at Amcan 3: Gofal Cymdeithasol a Llesiant yn y Cynllun Cydraddoldeb. Codwyd cwestiynau ynglŷn â'r heriau y bydd yr Awdurdod yn eu hwynebu  wrth geisio cyflawni'r amcan hon yn sgil yr argyfwng costau byw er mwyn i'r Cyngor allu cyflawni ei ddyhead i wneud yn siŵr bod gan bawb rywle i'w alw'n gartref a bod trigolion yn gallu datblygu a ffynnu. Dywedodd yr Arweinydd bod y Cyngor yn dymuno dangos mai ei weledigaeth yw gwella bywydau trigolion Ynys Môn. Dywedodd yr Is-gadeirydd ei bod hi'n bwysig bod y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cyfeirio at yr amcanion ar gyfer pobl hŷn yn ein cymdeithas.  Cyfeiriodd at bwysigrwydd Fforwm Pobl Hŷn y Cyngor a Chymuned Pobl Hŷn Sefydliad Iechyd y Byd y mae'r Cyngor yn rhan ohono. Dywedodd ei bod hi'n bwysig bod pobl yn cael cyfle i ymateb i brosesau ymgynghori  gan nad ydi pawb ar-lein ac felly mae'n bwysig bod copïau papur ar gael. Dywedodd Arweinydd y Cyngor bod copïau o ddogfennau ymgynghori h.y., yr ymgynghoriad ar y gyllideb, ar gael yn ein llyfrgelloedd a'i bod hi'n bwysig bod pawb yn cael cyfle i ymateb.

Cyfeiriwyd at Amcan 3 yn y Cynllun mewn perthynas â safonau byw. Rhoddwyd enghraifft o ddatblygiadau sy'n rhan o'r broses gynllunio. Dywedwyd bod angen gwella'r cyfathrebu rhwng pobl leol a datblygwyr gan y gall datblygiadau mawr gael effaith andwyol ar bentrefi bach. Roedd y sylwadau'n cynnwys pwysigrwydd sicrhau tai fforddiadwy ar gyfer pobl ifanc. Rhaid iddynt barhau i fod yn fforddiadwy os cânt eu codi wrth ardaloedd drutach ar yr Ynys. Dywedodd yr Arweinydd ei bod hi'n bwysig cydymffurfio â pholisïau cyfreithiol mewn perthynas â'r broses gynllunio.

Dywedodd ei bod hi'n bwysig bod trigolion lleol yn cael cyfle i ddweud eu dweud fel rhan o'r broses gynllunio. Dywedodd y Prif Weithredwr ei bod hi'n bwysig bod perchnogion tir a datblygwyr yn cysylltu'n effeithiol â chymunedau gwledig pan fyddant yn cyflwyno ceisiadau cynllunio. Holwyd ynglŷn â'r sefyllfa o ran tai cymdeithasol gwag ar yr Ynys gan fod cymaint o angen am gartrefi. Dywedodd yr Arweinydd bod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol wedi codi'r mater wrth edrych ar y Cerdyn Sgorio Corfforaethol a bod Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi cael ei sefydlu i wella'r broses fel y gellir gosod eiddo gwag yn gynt.

Cyfeiriwyd at Amcan 2: Gwaith o fewn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Holwyd ynglŷn â'r camau a fydd yn cael eu cymryd i sicrhau cyfle cyfartal a lleihau'r bwlch tâl. Rhoddodd Arweinydd y Cyngor enghraifft gan sôn am y statws Porthladd Rhydd a'r rheswm pam bod yr Awdurdod wedi oedi cyn mynegi diddordeb ar ddechrau'r broses yn Lloegr. Dywedodd nad oedd hawliau gweithwyr wedi'u diogelu ar ddechrau'r broses a'n bod fel Awdurdod wedi sicrhau bod hawliau gweithwyr yn greiddiol i'r broses wrth ymgynghori â datblygwyr. Dywedodd y Prif Weithredwr bod y Cynllun Cydraddoldeb yn cyfeirio at y camau i sicrhau bod y Cyngor yn gyflogwr cyfle cyfartal ac i leihau'r bwlch tâl a bod hyn yn gallu digwydd o ganlyniad i ddylanwad anuniongyrchol gan bobl eraill fel y soniodd yr arweinydd wrth gyfeirio at y broses Porthladd Rhydd. Nododd y gallai'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen drafod y mater yn fanwl dros y 18 mis nesaf i sicrhau bod gweithwyr yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu am eu gwaith.

**PENDERFYNWYD argymell bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol drafft ar gyfer 2024-28.**

**CAMAU GWEITHREDU : Ystyried y priodoldeb o addasu teitl Amcan Cydraddoldeb 2 (Gwaith) er mwyn cynnig clirdeb ynghylch rôl y Cyngor fel cyflogwr.**

## 6 BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR - 2023/2024

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Sgriwtini a oedd yn nodi Blaen Raglen Waith Ddangosol y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 2023/24 i'w ystyried.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Cytuno ar y fersiwn ddiweddaraf o'r blaen raglen waith ar gyfer 2023/2024;**
- **Nodi'r cynnydd hyd yma o ran gweithredu'r blaen raglen waith.**

Daeth y cyfarfod i ben am 3.30 pm

**CYNGHORYDD DYLAN REES**
**CADEIRYDD**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 13 Mawrth 2024 |
| **Pwnc:** | Cynllun Strategol Taclo Tlodi 2024 - 2029 |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | Cyflwyno'r cynllun drafft ar gyfer sylwadau cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn i'w gymeradwyo |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Y Cynghorydd Dylan Rees |
| **Aelod Portffolio:** | Y Cynghorydd Llinos Medi |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Fôn Roberts – Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Ffôn:**<br>**E-bost:** | Alun T Roberts, Rheolwr Rhaglen Corfforaethol<br>01248 752 814<br>AlunRoberts@ynysmon.llyw.cymru<br>Antony W Jones, Rheolwr Prosiect<br>01248 752 972<br>antonyjones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Aelodau Lleol:** | Mae'n berthnasol i bob Aelod Lleol |

| **1 – Argymhelliad/argymhellion** |
|---|
| Gwahoddir y Pwyllgor i wneud sylwadau ar y Cynllun Strategol Taclo Tlodi 2024-2029 cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn i'w gymeradwyo. |

**2 – Cyswllt â Chynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill**

Mae'r Cynllun Strategol Taclo Tlodi yn gyhoeddiad allweddol sy'n alinio â Chynllun y Cyngor a bydd yn cyfrannu at gyflawni ei amcanion strategol a'i weledigaeth. Mae ein blaenoriaethau drafft yn berthnasol iawn gan eu bod yn alinio ag amcanion strategol Cynllun y Cyngor ar gyfer 2023 – 2028:

- Addysg: Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol
- Gofal cymdeithasol a llesiant: Darparu'r cymorth cywir ar yr amser cywir
- Tai: Sicrhau fod gan bawb yr hawl i alw rhywle'n gartref
- Economi: Hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu economi'r ynys

**3 – Egwyddorion fel Canllaw ar gyfer Aelodau Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo'r aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effaith bosib y penderfyniad ar:

- grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- cyfle i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

## 4 – Cwestiynau Sgriwtini Allweddol

1. Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori wrth baratoi'r Cynllun Strategol Taclo Tlodi?

2. Mae'r cynllun drafft yn cynnwys chwe blaenoriaeth. Yn wyneb yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, i ba raddau y mae hyn yn rhy uchelgeisiol?

3. Sut fydd gweithredoedd o fewn y chwe amcan yn cael eu monitro a'u llywodraethu?

4. Sut fydd y data'n cael ei gasglu i sefydlu a chynyddu gwybodaeth y Cyngor am feysydd tlodi ar Ynys Môn?

## 5 – Cefndir / Cyd-destun

Mae'r angen am y Cynllun Strategol Taclo Tlodi wedi cael ei adnabod fel blaenoriaeth ac mae'n cael ei yrru gan Gynllun y Cyngor 2023-28.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r Cynllun Strategol Taclo Tlodi drafft ar gyfer 2024-2029. Mae'r Cynllun yn darparu cyfeiriad clir ac mae'n nodi weledigaeth a meysydd blaenoriaeth allweddol ar gyfer taclo tlodi yn ystod y bum mlynedd nesaf, ynghyd â'r camau y bwriada'r Cyngor eu cymryd gyda'n partneriaid allanol i sicrhau fod darparu ein gwasanaethau'n parhau i fod yn gynaliadwy ac yn effeithiol o ran taclo tlodi.

Wrth ddatblygu'r Cynllun Strategol, rydym wedi ystyried sefyllfa ariannol bresennol y Cyngor, lle mae cyllid craidd ac arian grant yn gostwng yn barhaus, ynghyd â'r galw cynyddol am wasanaethau. Mae'n rhaid i ni gyflawni mwy gyda llai o adnoddau felly a dyma pam fod angen y Cynllun Strategol. Bydd y dangosfwrdd costau byw a lansiwyd yn ddiweddar yn hwyluso'r cynllun; gan ddarparu set o ddata a gwybodaeth gref, integredig a

| |
|---|
| seiliedig ar dystiolaeth. Bydd y wybodaeth yn gywir ac yn cael ei diweddaru gan ganiatáu i'r Cyngor wneud penderfyniadau cywir a gwybodus wrth daclo tlodi ar Ynys Môn.<br><br>Mae'r Cyngor wedi ymgysylltu â swyddogion mewnol ar bob lefel a gwahanol randdeiliaid wrth baratoi'r cynllun strategol hwn, a chroesawyd eu sylwadau. Mae angen eu cefnogaeth barhaus a gwaith partneriaeth i wireddu llawer o'r cynnwys.<br><br>Byddwn yn defnyddio ein Grŵp Ymyrraeth Gynnar ac Atal fel cyfrwng i ymgysylltu â phartneriaid perthnasol, yn enwedig y trydydd sector, gan sicrhau fod pawb yn rhoi sylw i faterion perthnasol a cheisio darparu'r gefnogaeth orau bosib i drigolion Ynys Môn. |

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** **[gan gynnwys effeithiau ar y Gymraeg]** |
|---|
| **6.1 Effeithiau posib ar grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| Nod y Cynllun Strategol Taclo Tlodi yw cryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb i bobl Ynys Môn a'n staff.<br><br>Byddwn yn hyrwyddo egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer pobl o bob cefndir ac amgylchiadau ym mhob agwedd o'n gwaith. |
| **6.2 Effeithiau posib ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| Bydd y Cynllun Strategol Taclo Tlodi yn cynorthwyo i wella anghydraddoldeb mewn canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. |
| **6.3 Effeithiau posib ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| Dim effaith – Bydd yr holl wasanaethau a gynigir i drigolion Ynys Môn yn ddwyieithog. |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Amherthnasol |

| **8 – Atodiadau:** |
|---|
| Cynllun Strategol Taclo Tlodi 2024-2029 (Drafft) |

| **9 – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| |

Ynys Môn
THE ISLE OF
Anglesey



# Cynllun Strategol Taclo Tlodi 2024-2029

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

www.ynysmon.llyw.cymru

# Rhagair





Cyng. Llinos Medi

Arweinydd y Cyngor ac Aelod Portffolio yr Agenda Tlodi

Dylan J Williams

Prif Weithredwr

Mae’r Cyngor yn wynebu heriau sylweddol; cynnydd yn y galw am wasanaethau, disgwyliadau uwch gan y cyhoedd a chyllid craidd a grant sy’n prinhau. Mae hyn yn golygu bod rhaid i’r Cyngor wneud penderfyniadau anodd iawn. Mae’r rhagolygon ariannol yn llwm ac er bod y cyllid yr ydym ni’n ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru yn annhebygol o gynyddu, mae disgwyl i’r galw a’r costau yr ydym ni’n eu hwynebu barhau i gynyddu.

Mae’n rhaid i’r Cyngor felly barhau i gefnogi pobl i ddod yn fwy gwydn i sicrhau’r canlyniadau y maent yn dymuno’u gweld yn eu bywydau bob dydd, er mwyn lleihau’r galw ar wasanaethau.

Mae cynhyrchu strategaeth i fynd i’r afael â thlodi yn flaenoriaeth sy’n cael ei gyrru gan Gynllun y Cyngor 2023-2028. Mae’r strategaeth hon yn amlinellu blaenoriaethau allweddol y Cyngor dros y pum mlynedd nesaf, a’r camau yr ydym ni’n bwriadu eu cymryd i sicrhau bod y gwasanaethau yr ydym ni’n eu darparu yn dal i fod yn gynaliadwy ac effeithiol er mwyn mynd i’r afael â thlodi.

Rydym yn cydnabod nad oes gan un person neu un sefydliad yr holl bŵer i fynd i’r afael â thlodi. Mae’n bwysicach nawr fwy nag erioed ein bod ni’n cydweithio i gymryd camau pendant i daclo tlodi. Mae gennym gyfrifoldeb ar y cyd i sicrhau nad oes neb yn cael ei amddifadu.

# Beth yw tlodi a beth yw ei effaith?



SEFYDLIAD bevan FOUNDATION

Nid oes un diffiniad o beth yw tlodi. Gall gwahanol bobl ei ddioddef mewn gwahanol ffyrdd, ac fe all effeithio ar bob agwedd ar eu bywydau. Gall ddibynnu ar amgylchiadau unigol; o beidio â bod â digon o arian i dalu am bethau sylfaenol fel bwyd, dillad, cartref, gwres, i ddiffyg ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael.

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r diffiniad a ganlyn:

***"Mae tlodi'n golygu bod heb ddigon o adnoddau a chyfleoedd i gwrdd ag anghenion sylfaenol, yn cynnwys anghenion yn gysylltiedig â bod yn rhan o gymdeithas"***

Fe all tlodi effeithio ar drigolion mewn nifer o wahanol ffyrdd, yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r isod:

- **Iechyd meddwl gwael** – yn benodol straen, pryder ac iselder o ganlyniad o boeni am arian a sut i dalu am y pethau sylfaenol.
- **Iechyd corfforol gwael** - problemau iechyd yn gysylltiedig â diffyg maeth, byw mewn cartref oer neu damp, methu gwneud ymarfer corff neu gymryd rhan mewn gweithgareddau yn rheolaidd. Iechyd gwael yn gyffredinol a disgwyliad oes is.
- **Cyrhaeddiad addysgol is** – mae plant a phobl ifanc sy'n dioddef tlodi yn debygol o golli tir o'u cymharu â'u cyfoedion. Mae'r bwlch yn lledu po hwyaf y mae'r plentyn neu'r person ifanc yn byw mewn tlodi.

# Tlodi ar Ynys Môn

Mae'r Cyngor wedi datblygu Dangosfwrdd Costau Byw, lle mae data allanol a mewnol yn cael ei gasglu, a lle mae dangosyddion perfformiad allweddol yn cael eu cyflwyno. Mae'r dangosfwrdd yn galluogi'r Cyngor i wneud penderfyniadau ynseiliedig ar ddata a gwybodaeth gadarn ac integredig. Mae'r dangosfwrdd yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd yn fyw ar y system ac felly mae'r data'n gywir a diweddar.



- Oedran canolrifol y boblogaeth yw 48 oed. Mae hyn wedi cynyddu o 45 oed yn 2011, ac mae'n uwch o lawer na'r oedran cyfartalog ar gyfer Cymru, sef 42 oed. Felly, mae'r gyfran o'r boblogaeth sydd ddim o oedran gweithio yn mynd yn fwy.
- Dim ond 76% o boblogaeth oedran gweithio Ynys Môn sy'n economaidd weithredol.
- Enillion wythnosol gros cyfartalog gweithwyr llawn amser: £589 yr wythnos (sy'n is na'r ffigwr cyfartalog ar gyfer Cymru, sef £603 yr wythnos)
- Dosbarthwyd 51,134 kg o fwyd gan Fanc Bwyd Ynys Môn yng Nghaergybi yn 2023, a dosbarthwyd 9,088 kg gan Fanc Bwyd Amlwch. Mae'r ffigwr hwn 4.8% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol.
- Roedd nifer y bobl sy'n hawlio Credyd Cynhwysol yn Ynys Môn fel ar Rhagfyr 2023 yn 6,267 sydd gyfwerth â 9% o'r boblogaeth. Ymysg yr hawlwyr, nid oedd 62% (3,910) mewn cyflogaeth, tra roedd 38% (2,359) yn cael eu cyflogi.
- Cyrhaeddodd nifer yr aelwydydd a oedd yn cyflwyno eu hunain yn ddigartref yn 2022-23 ffigwr o 876 gan adlewyrchu cynnydd sylweddol o 30% o'i gymharu â'r ffigwr o 672 yn 2021-22.

<Gweler Atodiad 1 "Demograffeg yr Ynys" am ragor o wybodaeth>

**INFOGRAPHIC YN YR FERSIWN TERFYNOL**

# Cynllun y Cyngor 2023-2028

Mae Cynllun y Cyngor yn ddogfen allweddol a fydd yn bwynt canolog i benderfyniadau a fydd yn cael eu gwneud ar bob lefel; bydd yn darparu fframwaith i gynllunio a gyrru blaenoriaethau yn eu blaen; llunio gwariant blynyddol; monitro perfformiad a chynnydd.

Yn ei hanfod mae a wnelo'r cynllun â'n dymuniad i weithio gyda thrigolion Ynys Môn, cymunedau a phartneriaid a sicrhau ein bod ni'n darparu'r gwasanaethau gorau posib, gwella ansawdd bywyd i bawb a chreu cyfleoedd ar gyfer y genhedlaeth nesaf.

Mae ei chwe phrif amcan yn adlewyrchu'r meysydd allweddol y dylai'r Cyngor fod yn canolbwyntio arnynt.

**Gweledigaeth Cynllun y Cyngor yw:**

Tudalen 14

'Creu Ynys Môn fydd yn iach a llewyrchus lle gall bobl ffynnu.'

Cyllun y Cyngor 2023-2028

## Ein chwe amcan strategol

**Yr Iaith Gymraeg**

Cynyddu cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith.

**Gofal Cymdeithasol a Llesiant**

Rhoi'r cymorth cywir ar yr adeg cywir.

**Addysg**

Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol.

**Tai**

Sicrhau fod gan pawb yr hawl i alw rhywle yn gartref.

**Economi**

Hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu economi'r Ynys.

**Newid Hinsawdd**

Ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael a newid gweithio tuag at fod yn sefydliad sero net erbyn 2030.

# Y Gwerthoedd yng Nghynllun y Cyngor 2023-2028

Mae Cynllun y Cyngor 2023-28 yn seiliedig ar werthoedd craidd y sefydliad, sy'n cael eu defnyddio i ddatblygu ac arwain y weledigaeth, cynlluniau strategol a gwasanaethau.



Cynllun y Cyngor 2023-2028

## Gwerthoedd

### Parch
Rydym yn barchus ac yn ystyriol tuag at eraill er gwaethaf ein gwahaniaethau.

### Cydweithio
Rydym yn gweithio fel tîm, gyda'n cymunedau a'n partneriaid, i gyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer pobl Ynys Môn.

### Gonestrwydd
Rydym yn ymrwymedig i safonau uchel o ran ymddygiad ac uniondeb.


### Hyrwyddo'r Cyngor a'r Ynys
Rydym yn creu ymdeimlad o falchder mewn gweithio i'r Cyngor ac yn cyflwyno delwedd gadarnhaol o'r Ynys.

# Y Cylch Strategol



Cyflawni'r weledigaeth sydd, ynghyd â'n hegwyddorion cyffredinol a meysydd blaenoriaeth allweddol, yn gosod mandad clir ac uchelgeisiol.

Rydym am sicrhau bod technoleg digidol yn rhan annatod o waith y Cyngor ac yn gwella profiad ein cwsmeriaid fel dull o gael mynediad at wasanaethau.



# Amcanion Llesiant



Mae'r cynllun strategol yn nodi'r cyfeiriad uchelgeisiol yr ydym ni'n dymuno'i gymryd sy'n seiliedig ar yr hyn yr ydym ni wedi'i wneud yn barod gan gydnabod bod gan bawb rôl i'w chwarae fel rhan o'r agenda ataliol hon.

Mae'n bwysig nodi bod y cynllun strategol hwn yn cyd-fynd â'n hamcanion llesiant, sydd wedi'u nodi yng Nghynllun y Cyngor 2023-2028 :

- Bod pobl Ynys Môn yn cael eu haddysgu i gyrraedd a chyflawni eu potensial yn y tymor hir
- Bod pobl Ynys Môn yn ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib.
- Bod pobl Ynys Môn a'i chymunedau yn mwynhau, yn gwarchod ac yn gwella eu hamgylchedd adeiledig a naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r cynllun strategol hefyd yn cydnabod y deddfwriaethau a ganlyn:

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn (2023-28)

# Blaenoriaethau allweddol

1. Sicrhau mynediad at gymorth ar reoli gwariant a dyledion
2. Sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cyflawni hyd orau eu gallu
3. Cydweithio i wneud yn siŵr bod cyfleoedd cyflogaeth ar gael yn lleol fel y gall bobl gymryd mantais ohonynt
4. Gwneud yn siŵr bod y boblogaeth yn iach, diogel ac annibynnol
5. Cefnogi ein cymunedau i fod yn oed gyfeillgar
6. Gweithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau darpariaeth cartrefi o safon sy'n fforddiadwy ac yn hygyrch.

# Sicrhau mynediad at gymorth ar reoli gwariant a dyledion

## Pam bod hyn yn bwysig?

•Mae cyllid y Cyngor yn prinhau, ond mae nifer y bobl sydd angen cymorth yn cynyddu.

•Fe ddylai trigolion Ynys Môn allu cael mynediad at adnoddau digonol i ymorol am eu hanghenion sylfaenol, megis bwyd, llety, gwres a golau.



## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Codi ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael ledled Ynys Môn, yn cynnwys sgiliau rheoli arian a chynilo, i sicrhau bod trigolion yn gwybod pa gymorth sydd ar gael.

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

• Hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'r digwyddiadau costau byw a gynhelir gan y Cyngor, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allanol.
• Sicrhau bod trigolion yn ymwybodol eu bod yn gallu hawlio budd-daliadau; drwy wasanaeth "Help i Hawlio" a "Hawliwch yr Hyn sy'n Ddyledus i Chi" y Ganolfan Gynghori, y Tîm Cynhwysiant Ariannol a'r Uned Hawliau Lles.
• Hyrwyddo sgiliau coginio a sut i dyfu bwyd mewn partneriaeth â rhanddeiliaid, er mwyn i'n trigolion wneud dewisiadau doethach, iachach a gwneud y defnydd mwy effeithlon o'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael iddynt.
• Codi ymwybyddiaeth o'r risg o fynd i ddyled er mwyn prynu pethau sylfaenol fel bwyd, a mynd i'r afael â'r stigma'n gysylltiedig â gofyn am help i gael bwyd, i osgoi'r angen am gymorth pellach yn nes ymlaen.
• Coladu a mapio data i ddarparu gwybodaeth ystyrlon er mwyn deall lle mae'r angen mwyaf, a thargedu'r ardaloedd hynny.

# Sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cyflawni hyd orau eu gallu

## Pam bod hyn yn bwysig?

- "Mae'n cymryd cymuned i fagu plentyn".
- Mae astudiaethau'n dangos bod Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs) yn gallu effeithio ar bobl am weddill eu hoes.

Tudalen 20

## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Datblygu model cyflawni a chynllun gweithredu ar gyfer y rhaglen "Ynys sy'n Wybodus o Drawma".
- Creu amgylchedd dysgu sydd mor ddiogel â phosib fel y gall pobl ddysgu'n effeithiol.
- Cefnogi llesiant teuluoedd a gwneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn ymwybodol o'u hawliau.
- Gwneud yn siŵr bod pob plentyn, pobl ifanc a theuluoedd yn cael eu trin ag urddas a pharch.
- Defnyddio'r Grŵp Gweithredol Ymyrraeth Cynnar ac Atal i gysylltu â phartneriaid perthnasol, yn enwedig y 3ydd sector, drwy wneud yn siŵr bod materion perthnasol ar agenda pawb.

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Codi ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael i blant a theuluoedd, megis y Tîm o Amgylch y Teulu a'r rhaglen Dechrau'n Deg, i wneud yn siŵr bod plant yn cyflawni hyd orau eu gallu mor gynnar â phosib, er mwyn lleihau'r cymorth sydd ei angen arnynt yn nes ymlaen.
- Cynnig yr hyfforddiant ystyriol o drawma ar gyfer gweithwyr proffesiynol i bartneriaid allweddol a chymunedau  er mwyn sicrhau cysondeb o ran y dull a'r iaith y ydym ni'n ei defnyddio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd.
- Darparu gwasanaethau a chymorth i ofalwyr ifanc, fel y gallant gymryd mantais o brofiadau cadarnhaol yn ogystal â datblygu rhwydwaith leol o ofalwyr i'w helpu i gymdeithasu yn ystod digwyddiadau cymunedol.
- Cefnogi'r strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg.
- Cynyddu cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg.
- Er mwyn i anghenion plant ag anabledd gael eu diwallu.
- Moderneiddio ein hysgolion a datblygu ein darpariaeth er mwyn hyrwyddo cyfleodd dysgu cadarnhaol mewn amgylchedd cynorthwyol, cadarnhaol a goddefgar, yn cynnwys darparu seilwaith digidol ac adnoddau o'r radd flaenaf i hwyluso addysg effeithlon.
- Darparu gwasanaethau i'n cymunedau drwy Ysgolion sy'n Canolbwyntio ar y Gymuned
- Darparu clybiau brecwast ar hyd a lled y sir er mwyn cynnig brecwast maethlon i bawb sydd ei angen.
- Cynnig pob math o gymorth i ddisgyblion sy'n cael trafferth ymdopi yn yr ysgol uwchradd yn cynnwys gwasanaeth cwnsela a chlybiau amser cinio ac ar ôl ysgol mewn amgylchedd cefnogol, cadarnhaol a diogel.

# Cydweithio i wneud yn siŵr bod cyfleoedd cyflogaeth ar gael yn lleol fel y gall bobl gymryd mantais ohonynt

## Pam bod hyn yn bwysig?

- Mae hanner poblogaeth Ynys Môn o oedran gweithio ac rydym yn cydnabod bod angen gwella cyfleoedd gwaith ar yr ynys. Mae trigolion yn awyddus i weld mwy o gyfleoedd cyfrifiadureg a thechnoleg, ynni, cynhyrchu, twristiaeth a'r sectorau iechyd.

Tudalen 21

## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Hyrwyddo cyfleodd i ddatblygu economi'r ynys. Cefnogi busnesau, denu buddsoddiadau newydd, cynyddu nifer y busnesau newydd a sicrhau bod yr ynys yn parhau i fod â'r cyfraddau cau isaf ledled Cymru.

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Cydweithio â rhanddeiliaid allweddol a phartneriaid i atgyfnerthu rôl Caergybi a'r porthladd fel 'porth' rhyngwladol allweddol.
- Datblygu a chyflawni er mwyn creu swyddi, sicrhau ffyniant a chefnogi cymunedau bywiog a gwydn.
- Ysgogi pobl ifanc 16–24 oed ar Ynys Môn i ddatblygu eu sgiliau a magu hyder er mwyn eu cefnogi i oresgyn y rhwystrau y maent yn eu hwynebu fel y gallant ddod yn aelodau llawn o gymdeithas.
- Mentora, uwch-sgilio a chynnig cyngor a chyfarwyddyd drwy wasanaethau mewnol y cyngor ac ar y cyd â sefydliadau 3ydd sector sy'n arbenigo mewn darparu'r math yma o gymorth.
- Darparu cymorth i drigolion sy'n dymuno dechrau eu busnes eu hun a dod yn hunangyflogedig.
- Parhau i weithio mewn partneriaeth drwy Fwrdd Uchelgais Gogledd Cymru i greu cyfleodd newydd yn lleol a rhanbarthol.

# Gwneud yn siŵr bod y boblogaeth yn iach, diogel ac annibynnol

## Pam bod hyn yn bwysig?

- Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn mynnu bod y Cyngor yn mynd ati'n rhagweithiol i gynyddu cyfleodd i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden, yn ogystal â gwella iechyd meddwl a chorfforol trigolion.
- Er mwyn annog a chefnogi pobl i ddod yn fwy annibynnol fel y gallant gefnogi eu hunain, yn hytrach na dibynnu ar wasanaethau cymorth statudol ac eraill.



## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Cynnal, gwella a darparu cyfleusterau hyblyg, hygyrch a fforddiadwy i gwrdd ag anghenion Ynys Môn nawr ac yn y dyfodol.

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Cefnogi Cynllun Strategol Môn Actif y Cyngor drwy gynnal a gwella cyfleusterau hamdden, sy'n gwneud cyfraniad uniongyrchol a sylweddol tuag at les y gymuned.
- Darparu'r cyfleusterau a gweithgareddau o'r radd flaenaf i bobl o bob oed a gallu fel y gallant fyw bywydau iach.
- Sicrhau bod cysylltiadau trafnidiaeth cyhoeddus a llesol ar gael ledled Ynys Môn, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, fel y gall trigolion deithio'n annibynnol i ddefnyddio gwasanaethau cymorth, neu at ddibenion cymdeithasol, cyflogaeth ac addysgol.
- Hyrwyddo a sicrhau amgylchedd byw a gwaith diogel, teg ac iach i drigolion a busnesau'r Ynys.
- Parhau i gefnogi plant a phobl ifanc i fyw gartref yn ddiogel, drwy gynnig cymorth dwys drwy ddarparu pob math o ymyraethau, yn hytrach na dod â phlant i ofal e.e. cefnogi gofalwyr ifanc, lles emosiynol, camdriniaeth domestig ayb.

# Cefnogi ein cymunedau i fod yn oed gyfeillgar

## Pam bod hyn yn bwysig?

- Mae'n bwysig deall y problemau y mae pobl hŷn yn eu hwynebu, y cymorth sydd ei angen arnynt i'w galluogi i fyw bywyd llawn, a datblygu'r sgiliau sydd eu hangen i heneiddio'n dda.
- Rhaid teilwra'r gefnogaeth i bobl hŷn o ran mynd i'r fael â thlodi, e.e. mae cynhwysiant digidol yn bwysig, ond ni fydd y grŵp oedran yma'n elwa cymaint ag eraill.

Tudalen 23

## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Cael gwell dealltwriaeth o'r problemau y mae pobl hŷn yn eu hwynebu.
- Sicrhau bod hybiau cymunedol yn hygyrch ar gyfer y grŵp oedran yma, a sicrhau annibyniaeth, lleihau unigrwydd a gwella iechyd a lles pobl.

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Cefnogi Strategaeth Heneiddio'n Dda Ynys Môn.
- Creu cyfleodd i bobl hŷn ddefnyddio adnoddau cymdeithasol, amgylcheddol ac ariannol i'w galluogi i heneiddio'n dda, er enghraifft hybiau cymunedol/meddygfeydd a thrafnidiaeth gymunedol; a chynyddu eu gallu a'u hyder i ofyn am gymorth.
- Gwneud yn siŵr bod y cenedlaethau nesaf o bobl hŷn wedi paratoi ar gyfer y dyfodol drwy eu hannog i gydnabod y newidiadau ac anghenion y bydd rhaid iddynt, o bosib, eu hwynebu a chynnig hyfforddiant.
- Cynyddu cyfleoedd mewn cymunedau i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n pontio'r cenedlaethau; er mwyn i bobl anabl a phobol hŷn rannu gwybodaeth a dysgu, creu rhwydweithiau cymorth a mynd i'r afael ag unigrwydd drwy gynyddu'r cyfleoedd yn lleol i ddod â'r gwahanol genedlaethau at ei gilydd.

# Gweithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau darpariaeth cartrefi o safon sy'n fforddiadwy ac yn hygyrch.

## Pam bod hyn yn bwysig?

- "Er mwyn sicrhau bod gan bobl Ynys Môn rywle i'w alw'n gartref".



## Beth fyddwn ni'n ei wneud?


- Ymrwymo o hyd i weithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid, megis cymdeithasau tai cofrestredig, i ymateb i'r her tai yn lleol, a chydweithio i nodi anghenion tai'r ynys fel y gallwn gyfarch yr angen yn unol â'r tenantiaethau sydd eu hangen.

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Ychwanegu at ein stoc dai a gwella'r stoc dai bresennol i sicrhau eu bod yn addas i'r diben.
- Cynnig mwy o gartrefi gofal ychwanegol fel y gall pobl barhau i fyw'n annibynnol mewn cymunedau diogel a chroesawgar, gyda gwasanaethau gofal a chymorth ar y safle.
- Cynllunio a rheoli adnoddau yn effeithiol ar gyfer y dyfodol, h.y. y Strategaeth Tai Gwag, a'r grantiau sydd ar gael, er mwyn defnyddio stoc dai'r ynys yn y ffordd fwyaf effeithlon.
- Trwy ddarparu cartrefi i bobl ag anabledd dysgu neu gorfforol
- Sicrhau bod ein darpariaeth atal digartrefedd yn parhau i gael ei defnyddio yn gyflym er mwyn diogelu ein dinasyddion bregus.
- Defnyddio premiwm y Dreth Gyngor i ddarparu cymorth ariannol i brynwyr tro cyntaf nad ydynt yn gallu fforddio prynu cartref ar y farchnad agored.

# Llywodraethiant ac atebolrwydd

Mae trefniadau cadarn wedi cael eu sefydlu i sicrhau bod y Cynllun Strategol hwn yn cael ei wireddu. Mae'r strwythur yn sicrhau eglurder, atebolrwydd a chydlyniant er mwyn monitro cynnydd yn effeithiol. Mae'r dangosfwrdd costau byw yn darparu gwybodaeth a data byw a chywir o bob rhan o'r Cyngor er mwyn hwyluso'r gwaith hwn.




Mae'r Grŵp Llywio yn atebol i'r Bwrdd Rhaglen Datblygiadau Cyfredol.
Mae'r Bwrdd yn gwneud penderfyniadau gweithredol i oresgyn anawsterau ac i weithredu a chydymffurfio mewn da bryd.

Mae'r Grŵp yn gwneud penderfyniadau strategol ar waith o fewn y maes.

Mae'r Grŵp yn cwblhau ffrydiau gwaith ar gyfer y gwaith cysylltiedig mewn ffordd gydlynol.

# Atodiad 1: Demograffeg yr ynys
## (Cyfrifiad 2021)

Tudalen 26

35,200
Menywod

68,900
2021


33,700
Gwrywod

**26.5%**
65 oed a hŷn

**20.1%**
rhwng 0 a 17 oed

Oedran canolrifol
45
2011

Oedran canolrifol
48
2021




Ffynhonell – ONS.gov.uk

| CYNGOR SIR YNYS MÔN<br>Templed Adroddiad Sgriwtini | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **13 Mawrth 2024** |
| **Pwnc:** | **Diweddariad Diogelu Corfforaethol Strategol** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Diweddaru'r Pwyllgor ar y gwaith diogelu corfforaethol yn ystod y 12 mis diwethaf.** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Y Cyng. Dylan Rees** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cyng. Gary Pritchard, Dirprwy Arweinydd a Deilydd Portffolio Gwasanaethau Plant, Ieuenctid a Thai.<br>Y Cyng. Alun Roberts, Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion a Diogelwch Cymunedol** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Fôn Roberts, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth Gwasanaeth Plant a Theuluoedd** |
| **Awdur yr Adroddiad:<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost:** | **Emma Edwards, Rheolwr Busnes<br>01248 751887<br>emmaedwards@anglesey.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor:<br><br>**A1 - Archwilio'r wybodaeth a rennir, mae adolygu'r datblygiadau dros y 12 mis diwethaf yn rhoi sicrwydd bod y Cyngor yn cyflawni ei rwymedigaethau diogelu.** |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Yn gysylltiedig â Chwe Amcan Strategol y Cyngor, mae Atal a Diogelu wedi'u rhestru yn y Cynllun Corfforaethol 2023-28 fel un o Egwyddorion Cyffredinol allweddol y Cyngor – "Mae diogelu yn gyfrifoldeb i bawb. Mae gan holl wasanaethau a gweithwyr y Cyngor, beth bynnag fo'u rôl neu deitl, gyfrifoldeb i ddiogelu pobl. Mae'r Cyngor yn credu bod gan bob plentyn ac oedolyn yr hawl i fod yn ddiogel rhag niwed". |

| **3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini** |
|---|
| **Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**<br><br>**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**<br><br>**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**<br><br>**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]** |

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:
- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

1. Pa fesurau sydd ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth lawn â gofynion hyfforddiant diogelu corfforaethol? Sut mae hyn yn cael ei fonitro?
2. Mae Atodiad 1 yn amlygu cynnydd nodedig mewn achosion cam-drin domestig ar Ynys Môn. I ba raddau y mae'r Awdurdod yn gwbl gymwys ar hyn o bryd i ymdrin â hyn?
3. Mae Amcan 2 Cynllun Gweithredu Diogelu Corfforaethol 2022/24 yn trafod gweithlu sydd â'r gallu i gyflawni eu dyletswyddau diogelu yn effeithiol ar lefel sy'n ddigonol gyda'u rolau a'u cyfrifoldebau. Pa sicrwydd y gellir ei roi bod trefniadau ar waith i gyflawni'r Amcan hwn yn llawn?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

Gwelwch ynghlwm Adroddiad Diogelu 23-24 am fwy o wybodaeth:

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| Dim yn berthnasol. |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| Dim yn berthnasol. |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| Dim yn berthnasol. |
| |

| 7 – Goblygiadau Ariannol |
|---|
| Dim yn berthnasol. |

| 8 – Atodiadau |
|---|
| **ATODIAD 1 - Adroddiad 2023-24**<br><br>**ATODIAD 2 - Cynllun gwaith 2022/24**<br><br>**ATODIAD 3 - NSW Schedule** |

| 9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda): |
|---|
| Dim. |

## Adroddiad Diogelu Corfforaethol 2023-24

- Mae Llinos Williams, (Adran Tai) wedi bod yn Cadeirio’r Bwrdd ers 6 mis ac mae presenoldeb da o bob maes Gwasanaeth yn y Cyngor.

- Cafwyd wythnos Ddiogelu lwyddiannus ym mis Tachwedd, gwelwch ynghlwm.

- Yn ei hanfod, canolbwyntiwyd ar y cynllun gweithredu diogelu a sicrhau bod gwasanaethau yn parhau i ganolbwyntio gyda hyfforddiant mandadol ar gyfer yr holl swyddogion Cyngor.

- Trafodwyd y cynnydd nodedig yn yr achosion o gamdriniaeth ddomestig ar Ynys Môn yn y Bwrdd Diogelu ac o ganlyniad cafwyd gweithred i uchafu materion drwy ein Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Pennaeth Tai a’n Dirprwy Brif Weithredwr ym Mhartneriaeth Diogelwch Cymunedol Ynys Môn a Gwynedd. Nid yw hon yn sefyllfa unigryw i Ynys Môn gan fod Awdurdodau Lleol eraill yn sylwi ar gynnydd hefyd. Byddwn yn parhau i weithio’n agos gyda grwpiau’r trydydd sector ar y mater yma.

- Trafodwyd y cynnydd nodedig yn yr achosion o gamdriniaeth domestig ar Ynys Môn yn y Bwrdd Diogelu ac o ganlyniad cafwyd gweithred i uchafu materion drwy ein Pennaeth Tai a’n Dirprwy Brif Weithredwr ym Mhartneriaeth Diogelwch Cymunedol Ynys Môn a Gwynedd.

- Mae’n amlwg bod amrywiaeth o arweinwyr pwnc o fewn y Cyngor lle nad ydym yn ymwybodol pwy yw’r arweinwyr hynny. Bydd gwaith yn cael ei gwblhau dros yr ychydig fisoedd nesaf i sicrhau eglurder ar nwy ydynt, er mwyn cefnogi staff ag ymholiadau wrth iddynt godi gyda ffrydiau gwaith penodol.

- Byddwn yn datblygu Strategaeth Diogelu Corfforaethol newydd dros y misoedd nesaf ynghyd â rhaglen waith i’r dyfodol.

- Byddwn hefyd yn adolygu’r Cylch Gorchwyl ar gyfer y Grwpiau Strategol a Gweithredol.

**Data hyfforddiant Corfforaethol**
Mae na cynnydd wedi bod yn y nifer o staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant corfforaethol.

| Gwasanaeth | Trais yn Erbyn Menywod % | GDPR % | Caethwasiaeth Fodern % | Ymwybyddiaeth Seibr % | Atal % | Cyfartaledd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Oedolion** | 100% | 99% | 100% | 97% | 99% | 99% |
| **Plant** | 99% | 100% | 98% | 96% | 99% | 98% |
| **Trawsnewid** | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% |
| **Busnes y Cyngor** | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** | 81% | 69% | 68% | 91% | 67% | 75% |
| **Tai** | 84% | 85% | 84% | 81% | 83% | 83% |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dysgu** | 94% | 94% | 91% | 92% | 94% | 93% |
| **Uned Darparu** | 88% | 86% | 85% | 82% | 84% | 85% |
| **Rheoleiddio A Datblygu Economaidd** | 99% | 99% | 99% | 99% | 99% | 99% |
| **Adnoddau** | 100% | 100% | 100% | 98% | 97% | 99% |
| **Ysgolion** | 67% | 56% | 59% | 47% | 46% | 55% |
| **Cyflawn** | **82%** | **76%** | **77%** | **68%** | **71%** | **75%** |

ATODIAD 2 / APPENDIX 2

CYNLLUN GWEITHREDU DIOGELU CORFFORAETHOL 2022 -2024

Mae'r Cynllun Gweithredu Diogelu Corfforaethol yn ychwanegu at yr hyn a gyflawnwyd gan y cynllun blaenorol ac yn ymgorffori'r agendâu ehangach. Mae'r cynllun hwn yn canolbwyntio ar weithredu awdurdod cyfan. Nid yw camau gweithredu unigol y gellir eu cynnwys ar lefel gwasanaeth unigol yn cael eu cynnwys yn y cynllun gweithredu hwn: gan y byddant yn cael eu hadlewyrchu yng Nghynlluniau Cyflawni'r Gwasanaethau ar gyfer y flwyddyn: a chânt eu monitro felly. Mae'r cynllun hwn yn canolbwyntio ar faterion traws-wasanaethau: a meysydd allweddol lle dylai'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol gynnal trosolwg. Yn ychwanegol at y Dyletswyddau Diogelu a gynhwysir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 mae cyfeiriad at faterion diogelu ehangach. Gellir gweld crynodeb byr o'r meysydd hynny yng nghefn y cynllun hwn.

Strwythur y Cynllun Gweithredu

Tudalen 32

Bydd y cynllun gweithredu yn cael ei gyflwyno yn erbyn 6 thema: gan gefnogi dull cydgysylltiedig o gyflawni'r camau gweithredu ar draws yr Awdurdod Lleol.

| Thema | Amcan - Rhif | Canlyniad |
|---|---|---|
| Arweinyddiaeth a Llywodraethu Corfforaethol | Amcan 1 | Cymorth, polisïau a gweithdrefnau adrodd lefel uchel o fewn y Sefydliad |
| Cyfathrebu ac Ymwybyddiaeth: Sgiliau Staff a Hyfforddiant | Amcan 2 | Gweithlu sydd â'r gallu i gyflawni ei ddyletswyddau diogelu'n effeithiol - trwy ymwybyddiaeth a hyfforddiant diogelu ar lefel sy'n gymesur â'u rolau a'u cyfrifoldebau |
| Gweithlu Diogel | Amcan 3 | Gweithlu sy'n cael ei recriwtio a'i reoli i gydymffurfio'n llawn â gofynion statudol a Pholisi Recriwtio a Dewis, Polisi DBS a Pholisi Recriwtio Mwy Diogel Cyngor Sir Ynys Môn |

| | | |
|---|---|---|
| Cefnogaeth ac ymyriadau effeithiol | Amcan 4 | Prosesau, Gweithdrefnau a Systemau Perthnasol ar waith sy'n adlewyrchu deddfwriaeth gyfredol, canllawiau a disgwyliadau statudol ac arfer gorau a dderbynnir, fel bod swyddogion yn glir beth sy'n rhaid neu y gellir ei wneud mewn amgylchiadau penodol ac yn diffinio terfynau disgresiwn proffesiynol. |

| | | |
|---|---|---|
| Partneriaid, gwirfoddolwyr a gwasanaethau a gomisiynir | Amcan 5 | Mae'r Strategaeth Gaffael a'r Strategaeth Rheoli Contractau yn cyd-fynd â Chod Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi.<br><br>Sicrhau arferion diogel mewn gwasanaethau a gomisiynir a bod pob darparwr yn arfer ei gyfrifoldebau diogelu yn effeithiol. |

**Dangosyddion Statws COMG yn cyfeirio at gynnydd Rhaglenni/Prosiectau**

| | | |
|---|---|---|
| | **COCH** | **Hwyr**<br>Oedi yn erbyn camau gweithredu / amcanion neu ffactorau llwyddiant critigol o fwy na phedair wythnos<br>Materion / risgiau sylweddol a allai atal y prosiect rhag cael ei gwblhau mewn pryd neu o fewn y gyllideb. |
| | **OREN** | **Ar ei hôl hi**<br>Oedi yn erbyn camau gweithredu / amcanion neu ffactorau llwyddiant critigol o fwy na phythefnos.<br>Penderfyniadau sy'n ofynnol gan Uwch-swyddog Cyfrifol/ Cyfarwyddwr a / neu'r Bwrdd |
| | **MELYN** | **Yn unol â'r amserlen**<br><br>Mae'r prosiect yn unol â'r amserlen ac mae disgwyl iddo gael ei gwblhau mewn pryd |
| | **GWYRDD** | **Wedi'i gwblhau**<br><br>Cam gweithredu / tasg /prosiect wedi'i gwblhau |
| | **GLAS** | **HEB DDECHRAU** |

| | Arweinyddiaeth a Llywodraethu Corfforaethol<br>Amcan 1 - Cymorth, polisïau a gweithdrefnau adrodd lefel uchel o fewn y Sefydliad | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Tasg Allweddol** | **Pwy** | **Erbyn pryd** | **Cynnydd** | **COMG** |
| 1.1 | Mae'r ddyletswydd Channel, fel swyddogaeth statudol awdurdod lleol (Adran 36 o'r CTSA), wedi'i chynnwys yng nghyfansoddiad yr awdurdod lleol. | Dirprwy Brif Weithredwr / Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol/ Swyddog Monitro (Pennaeth Busnes y Cyngor) | 31 Rhagfyr 2022 | Angen i'r Bwrdd Strategol gymryd camau i sicrhau bod y gwaith wedi'i gwblhau | |
| 1.2 | Mae'r ddyletswydd Channel (fel rhan o adroddiad Prevent) wedi'i chynnwys o fewn trefniadau llywodraethu'r awdurdod lleol:<br><br>Adroddiad rheolaidd gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol i aelodau ar drefniadau diogelu o fewn yr awdurdod a sut mae'r rhain yn gweithio, a beth sydd angen ei wella | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol | 31 Rhagfyr 2022 | Angen i'r Bwrdd Strategol gymryd camau i sicrhau bod y gwaith wedi'i gwblhau | |
| 1.3 | Cryfhau hunan arfarnu blynyddol ar gyfer gwasanaethau ac adrodd i fyrddau gweithredol a strategol -<br><br>- Rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol o fewn proses Her Gwasanaeth. | Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad | 31 Hydref 2023 | Cwblhawyd Hydref 2023 | |

Tudalen 34

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 1.4 | Pob Gwasanaeth i adrodd i'r Bwrdd Gweithredol ar gynnydd o ran gweithredu'r cynllun gweithredu hwn a'r Polisi Diogelu Corfforaethol | Aelodau o'r Bwrdd Cyflawni Diogelu Corfforaethol | Parhaus | Mae mwy o wasanaethau yn adrodd ac mae'r cam hwn yn ennill momentwm. Hyd yma Tai: Gwasanaethau Dysgu: Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff: Rheoleiddio: Mae Diogelwch Cymunedol wedi adrodd. | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 1.5 | Mae'r Gwasanaethau yn cynnal sampl ar hap/ gweithgaredd sicrwydd i sicrhau bod gwasanaethau'n gweithredu polisïau ac arferion diogelu yn gyson:-<br><br>Meysydd a awgrymir:-<br><br>Hyfforddiant Gofyn a Gweithredu Asesiadau Risg – Gweithlu diogel | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol | 31 Hydref 2023 | Ar hyn o bryd yn ystyried pa faes i ganolbwyntio arno y tro hwn. | |
| **2** | **Cyfathrebu ac Ymwybyddiaeth**<br>**Gweithlu sydd â'r gallu i gyflawni eu dyletswyddau diogelu'n effeithiol – drwy ymwybyddiaeth a hyfforddiant diogelu ar lefel sy'n gymesur â'u rolau a'u cyfrifoldebau** | | | | |
| | **Tasg Allweddol** | **Pwy** | **Erbyn pryd** | **Cynnydd** | |
| 2.1 | Sicrhau bod yr holl staff yn derbyn y Polisi Diogelu Corfforaethol diwygiedig | Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth | 31 Hydref 2023 | | **95% @ Hydref 2023 +** |
| 2.2 | Sicrhau bod yr holl staff yn cwblhau Ymwybyddiaeth Sylfaenol – Caethwasiaeth Fodern | Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth | 31 Hydref 2023 | | **75% @ Hydref 2023 +** |
| 2.3 | Sicrhau bod yr holl staff yn cwblhau | Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid | 31 Hydref 2023 | | **75% @** |

Tudalen 35

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Ymwybyddiaeth Sylfaenol – Atal | Gwasanaeth | | | **Hydref 2023 +** |
| 2.4 | Cydlynu rhaglen gweithgareddau ar gyfer Wythnos Genedlaethol Diogelu. | Grŵp Diogelu Corfforaethol - gwybodaeth i ddilyn pan gaiff ei chadarnhau | 31 Hydref 2023 | Rhaglen yn ei lle/yn cael ei chydlynu | |
| 2.6 | Adolygu'r wybodaeth gyhoeddus ar Ddiogelu ar wefan yr Awdurdod Lleol | Grŵp Tasg | 30 Medi 2023 | | |
| 2.7 | Cwblhau'r broses o adolygu a gweithredu | Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth | 31 Hydref 2023 | Disgwyl i'r Fframwaith Hyfforddiant Diogelu Corfforaethol gael ei gyhoeddi cyn i ni gwblhau ein fframwaith. | |
| | **Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol a VAWDASV** | | | | |
| 2.8 | Bod uwch arweinwyr yr Awdurdod Lleol – Aelodau ac Uwch Swyddogion – yn cwblhau Lefel 6 y Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol Holi a Gweithredu – drwy gyfres o glipiau fideo. | Uwch Dîm Arweinyddiaeth Penaethiaid Gwasanaeth Aelodau | 30 Hydref 2023 | 1 wedi'i gwblhau – e-bost i'w anfon at eraill i'w gwblhau cyn diwedd Hydref 2023 | |
| 2.9 | Sicrhau bod yr holl staff yn cwblhau'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol Lefel 1 VAWDASV drwy Eddysgu neu'r llyfrynnau – gan gynnwys y staff hynny sy'n newydd i'r awdurdod | Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth | 31 Hydref 2023 | 77% - | |
| 2.10 | Cyflwyno Lefel 2 Holi a Gweithredu<br>▪ Bydd yn rhaid i wasanaethau enwi'r rhai sydd mewn sefyllfa i ofyn a gweithredu<br>▪ Sefydlu cynllun ar gyfer cyflwyno Lefel 2 ar draws gwasanaethau mewn grwpiau blaenoriaeth i gyfrannu at gynllun | Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth gyda chefnogaeth Uned Datblygu'r Gweithlu | 31 Hydref 2023 | Grŵp 2 yn cael ei gyflwyno | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | rhanbarthol | | | | |
| **3** | **Gweithlu Diogel**<br>**Amcan 3 - Gweithlu wedi'i recriwtio a'i reoli i gydymffurfio'n llawn â gofynion statudol a Pholisi Recriwtio a Dewis, Polisi DBS a Pholisi Recriwtio Mwy Diogel Cyngor Sir Ynys Môn** | | | | |
| | **Tasg Allweddol** | **Pwy** | **Erbyn pryd** | **Cynnydd** | |
| 3.1 | Rhaid i Benaethiaid Gwasanaeth sicrhau trefniadau cadarn er mwyn<br>- Cynnal cofnod canolog swyddi y mae gwiriad DBS yn ofynnol ar eu cyfer: yn cynnwys gwiriad a rheolaeth ddigonol i fod yn symbylydd pe na chydymffurfir. | Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth | 31 Hydref 2023 | Nid yw cynrychiolwyr gwasanaeth ar y Bwrdd Gweithredol wedi adrodd am unrhyw bryderon ynghylch gweithredu'r cam hwn o fewn eu gwasanaeth – yn parhau | |

Tudalen 38

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | - Cael a gwirio geirdaon mewn perthynas â swyddi gweithgarwch a reoleiddir<br>- Cofrestru am hyfforddiant diogelu<br>- P'run a yw asesiadau risg ffurfiol wedi'u cwblhau a bod mesurau yn eu lle cyn i weithiwr ddechrau gweithio mewn amgylchiadau eithriadol lle nad oes datgeliad DBS wrth law<br>- P'run a yw mesurau ac asesiadau risg ffurfiol yn eu lle os oes amheuaeth ynghylch pryderon diogelu neu y gwyddys am y pryderon hyn o ran gweithwyr sydd eisoes yno | | | | |
| 3.2 | Cefnogaeth i staff sy'n gweithio ym maes diogelu plant ac oedolion yn dilyn digwyddiad difrifol.<br>Mapio trefniadau perthnasol ym mhob gwasanaeth yn erbyn gofynion y canllawiau, a nodi unrhyw gamau gweithredu sy'n ofynnol. | Bwrdd Cyflawni Diogelu Corfforaethol i sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen | 31 Hydref 2023 | | |
| | **Cefnogaeth ac ymyriadau effeithiol**<br>**Amcan 4 Prosesau, Gweithdrefnau a Systemau Perthnasol ar waith sy'n adlewyrchu deddfwriaeth gyfredol, canllawiau a disgwyliadau statudol ac arfer gorau a dderbynnir, fel bod swyddogion yn glir beth sy'n rhaid neu y gellir ei wneud mewn amgylchiadau penodol a diffinio terfynau disgresiwn proffesiynol.** | | | | |
| | **Tasg Allweddol** | **Pwy** | **Erbyn pryd** | **Cynnydd** | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 4.1 | Cynnal gwybodaeth broffesiynol<br>- Atgoffa Ymarferwyr - adnoddau ar gael ar wefan BDPGC<br>- Dylai staff gofrestru ar gyfer y cylchlythyr wythnosol gan BDGC | Bwrdd Cyflawni Diogelu Corfforaethol i atgoffa eu gwasanaethau o'r angen i gydymffurfio | 31 Medi 2022 | Anfonwyd Neges Dolen yn ystor yr wythnos yn dechrau 13 10 22<br>Gofynnir i BDGC mewn wythnos neu ddwy a yw nifer y rhai sydd wedi cofrestru o CSYM wedi cynyddu. | |
| | - Ap Diogelu Cymru wedi'i lawrlwytho ar gyfrifiaduron personol/gliniaduron<br>*Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol (MAPF) Wrecsam* | | | Gofyn i aelodau gweithredol o'r bwrdd hyrwyddo o fewn eu gwasanaeth | |
| 4.2 | Codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Protocol Amlasiantaeth - Gweithio gyda Theuluoedd sy'n Dangos Cydymffurfiaeth Gudd - BDPGC<br>**Yn Ystod Wythnos Ddiogelu**<br>*MAPF Wrecsam* | Bwrdd Cyflawni Diogelu Corfforaethol<br>**Plant a Theuluoedd Gwasanaeth: Gwasanaethau Oedolion :Gwasanaethau Tai: Y Gwasanaeth Dysgu** | 31 Hydref 2022 | Cynigir y sesiwn gan BDGC yn ystod yr wythnos ddiogelu | |
| 4.3 | Codi ymwybyddiaeth o bolisi Diogelu Plant Anabl BDPGC<br><br>**Yn ystod Wythnos Diogelu**<br><br>*MAPF Wrecsam* | Bwrdd Cyflawni Diogelu Corfforaethol | 31 Hydref 2022 | Ddim yn rhan o gynnig BDGC ar gyfer eleni - bydd angen ystyried digwyddiad codi ymwybyddiaeth yn lleol. | |
| 4.4 | Celcio<br>Hyrwyddo ymwybyddiaeth o brotocol celcio BDPGC.<br>**Yn ystod Wythnos Diogelu**<br><br>*MAPF Wrecsam* | Bwrdd Cyflawni Diogelu Corfforaethol | 31 Rhagfyr 2022 | Cwblhawyd sesiwn gyda Michael Preston Shoot - sy'n awdurdod yn y maes hwn – | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 4.5 | Codi ymwybyddiaeth o Brotocol Amlasiantaeth Gogledd Cymru gan Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru: Cefnogi Plant, Cefnogi Rhieni gyda phroblemau iechyd meddwl difrifol a/neu sy'n camddefnyddio sylweddau. **Yn ystod Wythnos Diogelu**<br><br>*MAPF Wrecsam* | Bwrdd Cyflawni Diogelu Corfforaethol | 31 Rhagfyr 2022 | Staff wedi'u cyfeirio at gynnig BDGC ar gyfer yr wythnos ddiogelu. Mae'r sesiynau'n llawn – cwblhawyd | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| **4.6** | **Gwasanaeth Dysgu**<br>Protocol ar gyfer rheoli cynlluniau presenoldeb a'r broses drosglwyddo i sicrhau bod cyfrifoldeb a threfn ddi-dor wrth bontio rhwng yr ysgol a'r gwasanaeth Lles Addysg<br><br>Protocol ar gyfer cofnodi absenoldebau<br><br>Dylai'r gwasanaeth Lles Addysg fonitro plant sy'n absennol o'r ysgol a'r rhai sydd wedi'u cofnodi'n bresennol ond gyda gweithgaredd addysgol cymeradwy<br><br>Dylid goruchwylio tiwtoriaid yn y cartref a dylent fynychu hyfforddiant diogelu<br><br>*MAPF Wrecsam* | Cyfarwyddwr Addysg | 31 Hydref 2023 | Mae gan bob dalgylch Swyddog Lles Addysg penodedig sy'n cefnogi ysgolion i nodi a chefnogi disgyblion gyda phroblemau presenoldeb. Mae trefn gadarn o weithio mewn partneriaeth ac yn unol â pholisi presenoldeb a adolygir o leiaf bob dwy flynedd<br><br>Mae'r protocol absenoldeb cofnodi wedi'i gynnwys yn y polisi presenoldeb<br><br>Mae gan Diwtoriaid yn y Cartref fynediad at hyfforddiant diogelu yn unol â staff cynhwysiant eraill | |

Tudalen 40

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 4.7 | Codi ymwybyddiaeth drwy hyfforddiant ar y llwybrau cyfeirio a chanllawiau arfer da i godi ymwybyddiaeth ynghylch caethwasiaeth fodern a'r ddyletswydd i gyfeirio drwy’r Dull Cyfeirio Cenedlaethol (NRM) pan fo pryder ynghylch masnachu pobl at ddibenion cam-fanteisio. | Swyddog Gwella Arfer Gwasanaethau Cymdeithasol | 31 Hydref 2023 | Cytunwyd ar y llwybr rhanbarthol ym mis Tachwedd 2022 a darparwyd hyfforddiant | |
| 4.8 | Amgen adolygu’r Polisi Atal Corfforaethol | Bwrdd Cyflawni Diogelu Corfforaethol i sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen | Chwefror 2024 | | |
| 4.9 | Canllawiau Arfer Da ar gyfer y Gwasanaethau Cyhoeddus anarbenigol yng Nghymru ar weithio gydag oedolion sy'n cyflawni troseddau yn erbyn menywod a chyflawnwyr trais domestig a thrais rhywiol. – Bydd pob Gwasanaeth yn ystyried rhwymedigaethau'r Canllawiau iddyn nhw. Er bod rhai materion yn benodol i rai gwasanaethau, mae eraill yn berthnasol i'r sefydliad cyfan - Materion Iechyd a Diogelwch; Materion Polisi Cam-drin Domestig y Gweithlu; Hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth. | Bwrdd Cyflawni Diogelu Corfforaethol | 31 Rhagfyr 2023 | | |

**Partneriaid, gwirfoddolwyr a gwasanaethau a gomisiynwyd**
**Amcan 5 Sicrhau arferion diogel a moesegol wrth gaffael a rheoli contractau mewn gwasanaethau a gomisiynir fel bod gofynion diogelu yn cael eu bodloni.**

| | Tasg Allweddol | Pwy | Erbyn pryd | Cynnydd | |
|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 5.1 | Llunio datganiad ysgrifenedig blynyddol i sicrhau nad yw caethwasiaeth a masnachu pobl yn digwydd yn y sefydliad a'r gadwyn gyflenwi | Dirprwy Brif Weithredwr | 30 Medi 2023 | | |
| 5.2 | Darparu hyfforddiant ar y Cod Ymarfer i swyddogion perthnasol i wella eu gwybodaeth a'u hymarfer o ran sicrhau nad ydym yn cyflogi, nac yn defnyddio contractwyr nad ydynt yn gweithredu'n gyfreithlon | Bwrdd Cyflawni Diogelu Corfforaethol | 31 Rhagfyr 2023 | Hyfforddiant yn cael ei drefnu.<br>Efallai na fydd y cam gweithredu hwn yn cael ei gyflawni ond mae'r garreg filltir yn y golofn flaenorol. Mae'r risg yn isel. Anelu at gyflawni yn Ch3 a Ch4 | |
| 5.3 | Ar ôl mabwysiadu'r Safonau Diogelu ar gyfer Caffael a Rheoli Contractau, rhaid i'r holl Wasanaethau roi rhaglen ar waith ar gyfer adolygu contractau presennol er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni'r safonau / gofynion a nodwyd, gan gynnwys sut maent yn bwriadu monitro bod y darparwyr yn cydymffurfio â'r gofynion | Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth | 31 Rhagfyr 2023 | Mae cynrychiolwyr gwasanaeth ar y Bwrdd Gweithredol wedi trafod yr her yn y cam gweithredu hwn gan fod y trefniadau rheoli contractau a'r adnoddau ym mhob maes gwasanaeth yn amrywio. | |

**CYD-DESTUN**

| | |
|---|---|
| Dyletswydd Atal (Prevent) | Dyletswyddau cyfreithiol o dan **Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015**. Ein nod yw: -<br>▪ Atal pobl rhag cael eu denu gan derfysgaeth, wrth gyflawni ein gwahanol swyddogaethau.<br>▪ Nodi a chefnogi pobl fregus fel rhan o'n cyfrifoldebau diogelu ehangach.<br>▪ Sefydlu polisïau a gweithdrefnau priodol.<br>▪ Sicrhau bod staff yn wybodus am yr hyn y mae angen iddynt ei wneud os byddant yn dod ar draws neu'n dod yn ymwybodol o bobl sy'n cael eu tynnu i mewn neu'n cynllunio gweithred derfysgol.<br>▪ Cynnal cofnodion llawn a phriodol o gamau a gymerir a fydd yn gwrthsefyll y broses graffu.<br><br>Mae gan Fwrdd Herio (Contest) Gogledd Cymru Gynllun Gweithredu Rhanbarthol: ac mae'r camau sydd yn y cynllun hwn yn cynorthwyo'r Awdurdod Lleoli i gyflawni gofynion perthnasol y Cynllun Rhanbarthol.<br><br>Mae'r Prif Weithredwr Cynorthwyol yn derbyn ac yn adolygu Proffil Lleol Gwrthderfysgaeth a bydd yn rhoi gwybod i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth am unrhyw risg newydd/gynyddol o radicaleiddio neu eithafiaeth er mwyn gallu diweddaru'r gofrestr risg gorfforaethol |
| Caethwasiaeth Fodern | Dyletswyddau cyfreithiol o dan **Ddeddf Caethwasiaeth Fodern** 2015. Ein nod yw: -<br><br>▪ Cyhoeddi Datganiad Blynyddol, nad yw caethwasiaeth a masnachu pobl yn digwydd yn y sefydliad nac yn ein cadwyn gyflenwi.<br>▪ Penodi Pencampwr Atal Caethwasiaeth a Chyflogaeth Foesegol.<br>▪ Nodi a chefnogi pobl fregus fel rhan o'n cyfrifoldebau diogelu ehangach.<br>▪ Hysbysu'r Swyddfa Gartref ynghylch Dioddefwyr Posibl Caethwasiaeth Fodern.<br>▪ Cyfeirio dioddefwyr posibl fel ymatebwr cyntaf i awdurdod cymwys, (Uned Caethwasiaeth Fodern Masnachu Pobl – MSHTU), drwy'r Dull Cyfeirio Cenedlaethol (NRM).<br>▪ Cyfeirio unrhyw blant sydd o bosibl yn destun masnachu plant i'r Eiriolwyr Annibynnol ar Fasnachu Plant (ICTAs).<br>▪ Sefydlu polisïau a gweithdrefnau.<br>▪ Sicrhau bod staff yn gwybod beth y mae angen iddynt ei wneud os byddant yn dod ar draws neu'n dod yn ymwybodol o bobl sy'n cael eu tynnu i mewn neu'n cynllunio gweithred derfysgol.<br>▪ Cynnal cofnodion llawn a phriodol o gamau a gymerir a fydd yn gwrthsefyll y broses graffu.<br><br>Wrth gyflawni'r dyletswyddau hyn, byddwn hefyd yn ystyried y cysylltiadau â'r rhaglen Llinellau Sirol (gangiau cyffuriau cyfundrefnol), sy'n galw am gydweithio i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â gweithgarwch Llinellau Sirol, fel Masnachu Pobl, cam-fanteisio'n rhywiol ar blant, troseddu, troseddu treisgar, troseddau cyffuriau, troseddau ariannol, cam-fanteisio ar oedolion bregus. Wrth i'r rhaglen hon ddatblygu, gellir cynnwys dyletswyddau ychwanegol at y safonau/gweithgareddau diogelu hyn. |

| | |
|---|---|
| | Mae gan Fwrdd Herio (Contest) a Bregusrwydd Gogledd Cymru Gynllun Gweithredu Rhanbarthol: ac mae'r camau sydd yn y cynllun hwn yn cynorthwyo'r Awdurdod Lleoli i gyflawni gofynion perthnasol y Cynllun Rhanbarthol.<br><br>Y Dirprwy Brif Weithredwr yw'r Pencampwr Atal Caethwasiaeth a Chyflogaeth Foesegol.. |

| | |
|---|---|
| Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSE) | Ein nod yw: -<br><br>▪ Amddiffyn plant ac oedolion yn ein hardal a allai fod mewn risg neu sy'n cael eu cam-drin, eu hesgeuluso a mathau eraill o niwed ac;<br>▪ Atal plant ac oedolion yn ein hardal rhag bod mewn risg o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso a mathau eraill o niwed.<br>▪ Sicrhau bod arfer diogelu, cynllunio strategol a chomisiynu gwasanaethau ar draws yr holl asiantaethau partner yn gwella'n barhaus ac yn hybu canlyniadau da i blant ac oedolion a allai fod mewn risg yn yr ardal leol.<br>▪ Amddiffyn plant a phobl ifanc yn gadarn trwy ddull aml-asiantaeth gyda phartneriaid a chymunedau.<br><br>Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn adlewyrchu gofynion Strategaeth CSE Gogledd Cymru. Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi ymrwymo i chwarae rhan lawn yng Ngrŵp Gweithredol CSE Gogledd Cymru, a chefnogi gweithgorau rhanbarthol a chenedlaethol i raeadru a datblygu modelau arfer gorau o safbwynt mynd i'r afael â Cham-fanteisio'n Rhywiol ar Blant.<br><br>Wrth gyflawni'r dyletswyddau hyn, byddwn hefyd yn ystyried y cysylltiadau â'r rhaglen Llinellau Sirol (gangiau cyffuriau cyfundrefnol), sy'n galw am gydweithio i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â gweithgaredd Llinellau Sirol, fel Masnachu Pobl, cam-fanteisio'n rhywiol ar blant, troseddu, troseddu treisgar, troseddau cyffuriau, troseddau ariannol, cam-fanteisio ar oedolion bregus. Wrth i'r rhaglen hon ddatblygu, gellir cynnwys dyletswyddau ychwanegol at y safonau/gweithgareddau diogelu hyn. |
| Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol | Dyletswyddau Cyfreithiol - **Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015**<br><br>▪ Gofyn a Gweithredu - Prosiect cenedlaethol wedi'i dargedu ar draws Awdurdodau Cyhoeddus yng Nghymru ar gyfer trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Dyletswydd sefydliadol i annog gweithwyr proffesiynol perthnasol i "Ofyn" i ddioddefwyr posibl mewn amgylchiadau penodol (ymholi wedi'i dargedu) a "Gweithredu" er mwyn sicrhau bod niwed o ganlyniad i drais a cham-drin yn cael ei leihau<br>▪ Darparu Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Merched, Cam-drin domestig a Thrais Rhywiol<br>▪ Mae'n cynnwys cyfathrebu, hyfforddi, datblygu polisi, rhannu gwybodaeth, llwybrau cyfeirio at wasanaethau arbenigol, casglu ac adolygu data<br><br>Y Bwrdd Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Gogledd Cymru yw'r bwrdd partneriaeth rhanbarthol: gan ddarparu dull partneriaeth i atal niwed difrifol a achosir gan drais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Ngogledd Cymru. Maent yn arwain ac yn cefnogi'r broses o weithredu'r ddeddf: gan ddatblygu, cymeradwyo a monitro'r strategaeth ranbarthol; gan sicrhau bod materion yn cael sylw strategol ac effeithiol yng Ngogledd Cymru.<br><br>Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn adlewyrchu'r blaenoriaethau strategol rhanbarthol o ran ymwybyddiaeth a darparu'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol.<br><br>Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol yw'r Swyddog Arweiniol ar gyfer Gofyn a Gweithredu a ??????????? - Pencampwr Gofyn a Gweithredu |

| | |
|---|---|

**Cyfrifoldeb pawb**

Yn eu Cynlluniau Darparu Gwasanaeth, bydd Penaethiaid Gwasanaeth yn cynnwys targedau Diogelu ar gyfer y flwyddyn ac yn adrodd am gynnydd o fewn adolygiadau perfformiad corfforaethol.

**Cyfathrebu o fewn y Sefydliad**

Rhaid i'r cynrychiolwyr yn y Byrddau Rhanbarthol amrywiol y cyfeirir atynt uchod ac eraill sicrhau eu bod yn rhoi gwybod i'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol (strategol) am brif faterion a drafodwyd ar sail ranbarthol: sydd angen ymateb lleol ar sail gorfforaethol. Dylai'r prif swyddogion, ar gais cadeirydd y Bwrdd Diogelu Corfforaethol (strategol), baratoi diweddariadau ynghylch y ddarpariaeth, prif faterion risg i blant ac oedolion mewn risg, yn cynnwys coladu a monitro nifer, natur a chanlyniadau atgyfeiriadau.

Bydd y Prif Weithredwr Cynorthwyol a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn sicrhau bod Aelodau'r Cyngor ac uwch swyddogion arweiniol, aelodau eraill yr Uwch Dîm Arweiniol a Phenaethiaid yn cael eu briffio'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran diogelu.

Pan fo angen darperir gwybodaeth/bwletinau/erthyglau diogelu angenrheidiol ar gyfer staff mewn deunydd cyfathrebu perthnasol i staff mewnol. Cyfrifoldeb y Bwrdd Diogelu Corfforaethol (Gweithredol) fydd hyn.



**Hyfforddiant**

Rhaid i bob Pennaeth Gwasanaeth sicrhau bod pob aelod o staff yn mynychu hyfforddiant Diogelu Sylfaenol, Cyffredinol neu Arbenigol ar lefel sy'n berthnasol i'w rôl. Mae gofynion hyfforddi penodol eraill wedi'u cynnwys yn y cynllun gweithredu hwn. Bydd gan rai gwasanaethau anghenion hyfforddi penodol i'w rolau. Ni adlewyrchir hyn yn y cynllun hwn – gan fod y ffocws ar hyn o bryd ar godi ymwybyddiaeth gorfforaethol: a chydymffurfio o safbwynt dysgu/hyfforddiant mandadol drwy'r sefydliad.

Wythnos Genedlaethol Diogelu
13 - 17 Tachwedd 2023
Rhaglen ddigwyddiadau

| Dyddiad | Amser | Teitl | Trosolwg | Llwyfan | Archebu trwy: |
|---|---|---|---|---|---|
| 13.11.2023 | 10:00 tan 11:30 | Caethwasiaeth Fodern o fewn Cartrefi Gofal<br>**Hwylusydd**: Alys Jones | Safbwynt a gwersi awdurdod lleol yn dilyn ymchwiliad i gaethwasiaeth fodern mewn cartrefi gofal yng Nghonwy.<br><br>Mae'r sesiwn wedi ei hanelu at bartneriaid gofal cymdeithasol a statudol, a chartrefi gofal a darparwyr gofal cartref. | **Ar-lein** | Regionalsafeguarding@denbighshire.gov.uk |
| 13.11.2023 | 10:00 tan 11:00 | Lansiad Rhithwir Fframwaith Hyfforddiant<br>**Hwylusydd**: Gofal Cymdeithasol Cymru | Lansiad Rhithwir Fframwaith Hyfforddiant, Dysgu a Datblygu y Safonau Diogelu Cenedlaethol | **Ar-Lein** | Eventbrite |
| 13.11.2023 | 11:00 tan 12:30 | CSA - Rheoli Risg a Thrawma ar ôl troseddu rhywiol ar-lein<br>**Hwylusydd**: Natasha Sabine - Canolfan CSA | Mae cannoedd o deuluoedd yn darganfod fod rhiant neu ofalwr wedi edrych ar ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol bob mis. Gall yr effaith ar blant a theuluoedd fod yn drychinebus, ond gall gweithwyr proffesiynol wneud gwahaniaeth.<br><br>Bydd y sesiwn hon yn amlygu'r dystiolaeth ymchwil ar y math hwn o droseddu a rhoi cyngor ymarferol i weithwyr proffesiynol ar sut i ddiogelu a chefnogi teuluoedd ar adeg o drallod emosiynol mawr. | **Ar-lein** | Regionalsafeguarding@denbighshire.gov.uk |
| 13.11.2023 | 13:30 tan 15:00 | Deall camdriniaeth ar sail anrhydedd<br>**Hwylusydd:** (Stori Cymru) | Sesiwn i helpu deall camdriniaeth ar sail anrhydedd (cyfeirir ato hefyd fel arferion niweidiol) er mwyn cydnabod ac ymateb i'r teulu cyfan.<br><br>Nod y cwrs yw cynyddu hyder unigolion er mwyn adnabod ac ymateb i ddatgeliadau neu sefyllfaoedd o amheuon o gamdriniaeth ar sail anrhydedd. | **Ar-lein** | Regionalsafeguarding@denbighshire.gov.uk |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 14.11.2023 | 09:00 tan 10:15 | Sesiwn Ymwybyddiaeth Llinellau Sirol, wedi'i gynnal gan y Ditectif Arolygydd Adam Norton (Canolfan Genedlaethol Cydlynu Llinellau Sirol/ Uned Troseddau Cyfundrefnol Rhanbarthol y Gogledd Orllewin) | Trosolwg byr o fodel cyflenwi cyffuriau Llinellau Sirol, gan gynnwys crynodeb o'r darlun lleol, enghreifftiau a ddangosyddion nodweddiadol o gamfanteisio, a chyfeiriad at adnoddau sydd ar gael i weithwyr proffesiynol. | **Ar-lein** | Regionalsafeguarding@denbighshire.gov.uk |
| 14.11.2023 | 09:30 tan 11:30 | Ymddygiad Rhywiol Niweidiol - Canolfan o ragoriaeth ar gam-drin plant yn rhywiol **Hwylusydd:** Lorraine Myles | Bydd y sesiwn hon yn amlygu rhywfaint o'r gwaith a wneir ac adnoddau newydd a gyhoeddwyd gan y ganolfan ragoriaeth ar ymddygiad rhywiol niweidiol. | **Ar-lein** | |
| 14.11.2023 | 13:00 | Gwella prosesau diogelu brathiadau cŵn mewn plant a phobl ifanc **Hwylusydd:** Marie Wright BIPBC | Codi ymwybyddiaeth o:<br>• asesiad risg newydd ar draws BIPBC<br>• gostwng amrywiaeth mewn ymarfer ar draws safleoedd<br>• gwella gweithio mewn partneriaeth ar draws iechyd, gofal cymdeithasol a'r heddlu<br>• rhannu arferion da<br>• gwella ansawdd gofal<br><br>Cynhelir y digwyddiad hwn ar 14/11 yn y prynhawn a bydd ar agor i iechyd, yr heddlu a gofal cymdeithasol. | **Ar-lein** | Regionalsafeguarding@denbighshire.gov.uk |
| 14.11.2023 | 13:30 tan 15:00 | Atal Hunanladdiad SP-OT - Tiwtorial Trosolwg **Hwylusydd:** Atal Hunanladdiad ymysg Pobl Ifanc PAPYRUS | Atal Hunanladdiad SP-OT - Tiwtorial Trosolwg. Yr hyn mae PAWB angen gwybod.<br><br>Yr amcanion allweddol yw deall cyffredinolrwydd ac effaith hunanladdiad. Archwilio'r iaith, a'r heriau, wrth siarad yn agored am hunanladdiad. Adnabod yr 'arwyddion' a all ddynodi bod rhywun yn cael meddyliau o hunanladdiad. | **Ar-lein** | Regionalsafeguarding@denbighshire.gov.uk |
| | | | | | |
| 15.11.2023 | 09:30 tan | Cynllunio Diogelwch Addysg Cam-drin Plant yn Rhywiol | Bydd y sesiwn hwn yn amlygu rhywfaint o'r gwaith a wneir a'r adnoddau newydd y mae'r Ganolfan Arbenigedd wedi'u cyhoeddi er | **Ar-lein** | Regionalsafeguarding@denbighshire.gov.uk |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 11:30 | | mwyn helpu darparwyr addysg i adnabod pryderon ac ymateb iddynt. | | |
| 15.11.2023 | 10:00 tan 11:30 | Adnabod Camdriniaeth Pobl Hŷn<br>**Hwylusydd:** Stori Cymru | Bydd y sesiwn yn codi ymwybyddiaeth o ddynameg camdriniaeth. Dynameg teulu ac effeithiau camdriniaeth, sut all oedran effeithio ar y profiad o gamdriniaeth.<br><br>Y mathau cyffredin o gamdriniaeth ar gyfer pobl hŷn e.e. ariannol ac economaidd, ymddygiad rheolaethol a gorfodol a rhwystrau tuag at gymorth. | **Ar-lein** | Regionalsafeguarding@denbighshire.gov.uk |
| 15.11.2023 | 11:30 tan 12:00 | Tlodi, Costau Byw a Diogelu<br>**Hwylusydd:** Louise Hughes / Heather Ferguson (Age Cymru) | Mae'r argyfwng costau byw yn cael effaith ar bawb, ond mae hefyd yn effeithio'n 'ddwys' ar bobl sy'n defnyddio gwasanaethau plant ac oedolion, gan arwain at nifer o broblemau gan gynnwys tlodi, salwch meddwl a gwrthdaro domestig. | **Ar-lein** | Regionalsafeguarding@denbighshire.gov.uk |
| 15.11.2023 | 14:30 tan 16:00 | Galluedd Anwadal yng Nghyd-destun Deddf Galluedd Meddyliol 2005<br>**Hwylusydd:** Dr Laura Pritchard-Jones | Bydd y sesiwn hon yn ystyried y fframwaith cyfreithiol mewn sefyllfaoedd lle ymddengys bod gallu meddyliol unigolyn i wneud penderfyniadau'n amrywio. Gall amrywiadau o'r fath ddigwydd dros gyfnod byr o amser ac fe allant fod yn fyrhoedlog, neu fe allant ddigwydd dros gyfnod hirach, ac mae nifer o'r sefyllfaoedd hyn yn peri niwed sylweddol i - a phryderon diogelu posibl am - yr unigolyn y credir bod eu gallu'n amrywio.<br><br>Gan ddechrau gydag astudiaethau achos, bydd y sesiwn hon yn cynnwys ystyriaeth o'r ffyrdd gwahanol y mae gallu meddyliol unigolyn yn gallu amrywio, yn ogystal â nodi arferion cyfreithlon ac ystyriol o ran moeseg mewn sefyllfaoedd o'r fath gan ddefnyddio'r fframwaith cyfreithiol perthnasol, ei ganllawiau statudol, a'r gyfraith achosion cysylltiedig gan y Llys Gwarchod. | **Canolfan Fusnes Conwy** | Regionalsafeguarding@denbighshire.gov.uk |
| 15.11.2023 | 15:00 tan 16:00 | Arwyddion a Dangosyddion CSA<br>**Hwylusydd:** Nici Evans | Nid yw'r rhan fwyaf o blant sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol yn dweud wrth unrhyw un amdano ar y pryd; yn hytrach, efallai y byddant yn dangos arwyddion emosiynol, ymddygiad a chorfforol o'u camdriniaeth. | **Ar-lein** | Regionalsafeguarding@denbighshire.gov.uk |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Bydd y sesiwn hon yn amlygu rhywfaint o'r gwaith a wneir ac adnoddau newydd a gyhoeddwyd gan y ganolfan ragoriaeth ar gam-drin plant yn rhywiol. | | |
| | | | | | |
| 16.11.2023 | 09:30 tan 12:00 | Hyfforddiant Amrywiaeth Ddiwylliannol ac Arferion Niweidiol **Hwylusydd:** BASWSO | Bydd y sesiwn yn ymdrin â'r canlynol: Diwylliant, Amrywiaeth, Cydraddoldeb, beth i'w wneud a beth i'w osgoi wrth weithio gyda chymunedau BME ac arferion niweidiol. | **Ar-lein** | Regionalsafeguarding@denbighshire.gov.uk |
| 16.11.2023 | 13:30 tan 15:00 | Atal Hunanladdiad SP-OT - Tiwtorial Trosolwg **Hwylusydd:** Atal Hunanladdiad ymysg Pobl Ifanc PAPYRUS | Atal Hunanladdiad SP-OT - Tiwtorial Trosolwg. Yr hyn mae PAWB angen gwybod.<br><br>Yr amcanion allweddol yw deall cyffredinolrwydd ac effaith hunanladdiad. Archwilio'r iaith, a'r heriau, wrth siarad yn agored am hunanladdiad. Adnabod yr 'arwyddion' a all ddynodi bod rhywun yn cael meddyliau o hunanladdiad. | **Ar-lein** | Regionalsafeguarding@denbighshire.gov.uk |
| | | | | | |
| 17.11.2023 | 09:30 tan 11:30 | Ymgysylltu â Thadau yn yr Arena Ddiogelu - gan gynnwys adolygiadau ymarfer plant **Hwylusydd**: Paul Jones | Gweithio gyda thadau ym maes amddiffyn plant: arferion da a dysgu o adolygiadau ymarfer. Mae methu ag ymgysylltu gyda thadau a ffigurau tadol i'w weld mewn ymchwil ac adolygiadau achos ers degawdau.<br><br>Mae BPGC yn cynnal gweithdy i ymarferwyr i gael gwell dealltwriaeth am ddysgu o adolygiadau ymarfer sy'n ymwneud ag ymgysylltu â thadau. Bydd y rhai'n bresennol hefyd yn dysgu argymhellion am arferion da i'w defnyddio wrth weithio gyda thadau/ffigurau tadol. | **Ar-lein** | Regionalsafeguarding@denbighshire.gov.uk |
| 17.11.2023 | 10:00 tan 11:30 | **Hourglass** - cefnogi dioddefwyr o Gam-Drin Pobl Hŷn | Sesiwn codi ymwybyddiaeth am yr elusen a'r gwasanaeth maent yn ei gynnig, y mathau o alwadau ac achosion maent yn delio â nhw. Gan gynnwys rhai astudiaethau achos/enghreifftiau. | **Ar-lein** | Regionalsafeguarding@denbighshire.gov.uk |
| 17.11.2023 | 13:00 tan 15:00 | Chwilfrydedd Proffesiynol **Hwylusydd**: Paul Jones | Chwilfrydedd proffesiynol yw'r gallu a'r sgil i gyfathrebu er mwyn archwilio a deall beth sy'n digwydd o fewn teulu yn hytrach na thybio neu dderbyn pethau heb ymchwilio ymhellach. | **Ar-lein** | Regionalsafeguarding@denbighshire.gov.uk |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Bydd y gweithdy yn cyfeirio at ddysgu o adolygiadau ymarfer a hefyd yn mynd drwy Ganllawiau Chwilfrydedd Proffesiynol Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru. | | |

#Safeguarding Wales #DiogeluCymru

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **13.03.2024** |
| **Pwnc:** | **Cronfa Ffyniant Bro – Caergybi: Trawsnewid o safbwynt diwylliant a threftadaeth** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Rhaglen Ffyniant Bro** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Y Cynghorydd Dylan Rees** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Y Cynghorydd Llinos Medi - Deilydd Portffolio Datblygu Economaidd** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Christian Branch - Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Efan Milner**<br>**2138**<br>**efanmilner@ynysmon.llyw.cymru** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Etholedig** |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| Bod y Pwyllgor Sgriwtini yn:<br>A1 Nodi cynnydd o ran datblygu a chyflwyno'r rhaglen LUF yng Nghaergybi<br>A2 Nodi bod y Rhaglen LUF yn cael ei chyflawni'n unol â chanllawiau Llywodraeth y DU<br>A3 Cydnabod rôl y Cyngor wrth gefnogi Partneriaid Darparu'r Rhaglen<br><br>Fel y cytunwyd arno, ffocws y diweddariad hwn i'r Pwyllgor Sgriwtini fydd y prosiect LUF sy'n cael ei ddarparu gan Ganolfan Ucheldre. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Datblygwyd y Gronfa Ffyniant Bro yn erbyn cyd-destun ein blaenoriaethau corfforaethol gyda pholisïau a strategaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol allweddol eraill sy'n llywio'r Cynllun (h.y. Fframwaith Economaidd Rhanbarthol Gogledd Cymru, Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru a Phapur Gwyn Ffyniant Bro).<br><br>Strategaethau lleol:<br>• Cynllun y Cyngor 2023 -2028 (Cyngor Sir Ynys Môn, 2023)<br>• Cynllun Llesiant Ynys Môn a Gwynedd (Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn, 2018)<br>• Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Sir Ynys Môn 2020 –2024 (Cyngor Sir Ynys Môn, 2020)<br>• Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd 2011 –2026 (Cyngor Sir Ynys Môn, 2017)<br>• Cyngor Sir Ynys Môn tuag at Gynllun Sero Net 2022-2025 (Cyngor Sir Ynys Môn, 2022) |

| 3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini |
|---|
| **Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**<br><br>**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**<br><br>**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**<br><br>**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**<br><br>**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**<br><br>**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:<br>• Hirdymor<br>• Atal<br>• Integreiddio<br>• Cydweithio<br>• Cynnwys<br>**[ffocws ar lesiant]**<br><br>**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:<br>• y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010<br>• y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)<br>• y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg<br>**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]** |
| **4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol** |
| 1. Pa fuddion sydd i gyflenwyr lleol wrth wireddu Rhaglen Cronfa Ffyniant Lleol Ynys Môn?<br>2. I ba raddau y mae gallu partneriaid allweddol i gyflawni yn risg i lwyddiant y Rhaglen gyfan?<br>3. Pa drefniadau cyfathrebu sydd ar waith i hyrwyddo'r Rhaglen a sut y gellir eu cryfhau?<br>4. Mae'r adroddiad yn trafod yr amserlen heriol ynghylch cyflawni ar y prosiectau unigol. Pryd y rhagwelir y bydd modd cyflawni'r buddion?<br>5. I ba raddau mae'r gyllideb yn ddigonol i gyflawni'r Rhaglen gyfan i'r amserlen a osodwyd? |

| 5 – Cefndir / Cyd-destun |
|---|
| Cyflwyniad i'r Gronfa Ffyniant Bro (LUF)<br><br>Yr LUF yw'r brif gronfa ariannu gan Lywodraeth y DU. Pwrpas y gronfa gyfalaf yw buddsoddi mewn seilwaith economaidd-gymdeithasol, craidd sy'n gwella bywyd bob dydd ledled y DU. Mae'r gronfa £4.8 biliwn - a lansiwyd ym mis Mawrth 2021 - yn canolbwyntio ar 3 maes allweddol:<br>1. Helpu i adfywio canol trefi a'r stryd fawr,<br>2. Prosiectau trafnidiaeth lleol, ac |

3. Asedau diwylliannol a threftadaeth.

Penderfynodd y Cyngor Sir fod cais yn canolbwyntio ar 'dreftadaeth; diwylliant a threflun Caergybi yn hytrach nag anghenion adfywio ehangach yr Ynys yn debygol o fod yn fwy apelgar i Lywodraeth y DU.

Ni ellir tanbrisio maint a chymhlethdod y gwaith a wnaed i ddatblygu'r cais. Arweiniodd hyn at gydweithio sylweddol a dwys gan y Cyngor Sir gyda phartneriaid o Gaergybi ar lefel a manylder na welwyd ers tro.

Roedd datblygu'r cais hefyd yn cynnwys sicrhau rhagor o wybodaeth a chefnogaeth lefel uchel a thrylwyr i bob un o'r 5 Datganiad o Ddiddordeb (Môn CF, Cyngor Tref Caergybi, Canolfan Ucheldre, y Cyngor Sir (Treftadaeth) a'r Eglwys yng Nghymru) a chael trafodaethau manwl gyda nhw i asesu aeddfedrwydd, hyfywedd ac aliniad pob prosiect i egwyddorion a gofynion y gronfa LUF.

Ym mis Mehefin 2022, fe gafwyd penderfyniad gan y Deilydd Portffolio i gymeradwyo cais gan y Cyngor Sir i Gronfa Ffyniant Bro (LUF) Llywodraeth y DU.

Cyflwynwyd y cais "Caergybi: Trawsnewid o safbwynt diwylliant a threftadaeth" ar 6 Gorffennaf 2022.

Mae'r cais yn cynnwys pecyn o brosiectau ar gyfer Caergybi er mwyn gwella cyflogaeth; gwella'r hyn sydd gan ganol y dref i'w gynnig a gwella profiadau ymwelwyr; cynyddu nifer y bobl sy'n cerdded ac yn gwario yn y stryd fawr a darparu lleoliad modern er mwyn bodloni anghenion busnes a chynyddu mynediad i'r celfyddydau, diwylliant a hamdden.

Fel yr amlinellwyd uchod Partneriaid Cyflawni'r Rhaglen yw:
- Môn CF
- Canolfan Ucheldre
- Esgobaeth Bangor
- Cyngor Tref Caergybi
- Adfywio Treftadaeth - Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd

Daeth cadarnhad fod y cais wedi bod yn llwyddiannus ar 18 Ionawr 2023.

**1) Diweddariadau Prosiect**

Mae **Atodiad A** yn rhoi trosolwg o'r cynnydd ar Brosiectau Cyngor Tref Caergybi, Môn CF, Esgobaeth Bangor (Eglwys yng Nghymru), ac Adfywio Treftadaeth.

Mae Tîm Cyflawni LUF yn gweithio'n agos gyda phob un o'r Partneriaid Cyflawni i ddatblygu eu prosiectau ac i fonitro materion a risgiau allweddol. Cynhelir cyfarfodydd bob 4 wythnos gyda'r Partneriaid lle gellir codi'r prif bryderon.

Rydym wedi cymryd rhan yn y gwaith o werthuso'r holl dendrau a gyflwynwyd hyd yma ac wedi cynnig cyfarwyddyd ychwanegol lle bo angen. Mewn un achos bu'n rhaid ail-dendro contract er mwyn cadw at reolau caffael y Cyngor.

Mae'r Tîm Cyflawni hefyd yn cysylltu'n rheolaidd â Llywodraeth y DU i'w diweddaru ynghylch cynnydd, i dynnu sylw at feysydd sy'n peri pryder a chwblhau'r ffurflenni monitro ac adrodd chwarterol.

Trefnir cyfarfodydd Bwrdd y Rhaglen bob 6 wythnos ac maent yn gyfle i'r tîm cyflawni ddiweddaru Uwch Swyddogion, Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Seneddol. Mae'r Bwrdd yn cadw golwg ar yr holl benderfyniadau allweddol ac yn diweddaru'r Dangosfwrdd Caffael, Dangosfwrdd y Rhaglen a'r Gofrestr Risg.

Mae'r tabl isod yn rhoi diweddariad manylach ar gyfer prosiect Canolfan Ucheldre.

Canolfan Ucheldre yw prif ased celfyddydol a diwylliannol Caergybi. Ar hyn o bryd mae prinder lle/capasiti i gynnal ei raglen ddigwyddiadau helaeth sy'n amrywio o weithgareddau i blant a rhieni i berfformiadau theatr ac opera. Bydd ehangu'r ganolfan yn cynyddu'r nifer a'r math o ddigwyddiadau y gall eu cynnal.


Allbynnau y cytunwyd arnynt ar gyfer y prosiect:
a. Cynyddu nifer yr ymwelwyr.
b. Cynyddu nifer y digwyddiadau blynyddol.
c. Cynyddu cyflogaeth naill ai rhai a gyflogir yn uniongyrchol gan y ganolfan neu fel tiwtoriaid allanol.
d. Cyfleoedd gwirfoddoli ychwanegol
e. Arbedion nwy tŷ gwydr - Lleihau carbon

| **Cynnydd** | **Y camau nesaf** | **Gwerth** |
|---|---|---|
| Hysbysebwyd tendr ar gyfer prosiect Ucheldre ar GwerthwchiGymru rhwng 21 Awst a 15 Medi<br><br>Mabwysiadwyd ail Ran y broses dendro. Y rhan gyntaf yw’r gwaith atgyweirio ac adnewyddu a'r ail ran yw’r prif waith.<br><br>Roedd y ddau dendr o fewn y costau gwreiddiol y cytunwyd arnynt ar gyfer y prosiect<br><br>Enillwyd y ddwy ran gan Grosvenor Construction Ltd (Bae Cinmel).<br><br>Dechreuodd y gwaith ar y safle ym mis Tachwedd 2023. Dechreuwyd trwy drwsio’r to ac ail-bwyntio’r gwaith cerrig ar yr adeilad presennol. | Monitro costau parhaus i sicrhau bod y prosiect yn cael ei ddarparu o fewn y gyllideb.<br><br>Gwaith ar yr estyniad i ddechrau ar y safle ym mis Ebrill/Mai gan gynnwys torri trwodd i'r adeilad presennol.<br><br>Angen monitro’r amserlen gyflawni i gydnabod unrhyw oedi posibl i'r dyddiad cau. | £4,050,000.00 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mae'r ddau do gwastad wedi cael eu hail-wynebu a rhoddwyd trawstiau cynnal lle bo angen.<br><br>Bu'n rhaid ail-ddylunio’r draeniau ar ôl canfod bod dŵr budr a dŵr wyneb yn y draeniau presennol.<br><br>Cwblhawyd y sylfaen ar gyfer yr estyniad.<br><br>Sicrhawyd cyflenwyr arbenigol ar gyfer y fframiau pren a dur. | | | |
| <br> | | | |









**2) Blaenoriaethau'r Rhaglen**

Derbyniwyd ffurflenni tendro ar gyfer pum prosiect a phedwar contract dylunio. Mae'r rhan fwyaf o gostau'r ffurflenni tendro wedi bod yn uwch na'r amcangyfrifon gwreiddiol ac mae'r dyddiadau cwblhau yn hwyrach na dyddiad cau Llywodraeth y DU ym mis Mawrth 2025.

Mae tri phrosiect ar y gweill ar hyn o bryd, sef:

a. Canolfan Ucheldre
b. 9 Stryd Stanley
c. Ciosgau Traeth Newry

Mae trafodaethau ar y gweill gyda'r tendrwr a ffefrir ar gyfer HSBC ac mae'r tendr ar gyfer Canolfan yr Empire wedi gorfod cael ei ail-hysbysebu.

Mae tîm Cyflawni'r LUF yn gweithio gyda'r partneriaid Cyflawni i nodi arbedion posibl yn y ceisiadau tendro ond mewn rhai achosion efallai na fydd hyn yn bosibl. Bu'n rhaid ail-hysbysebu un tendr yn dilyn adolygiad o arbedion ac o ganlyniad mae'r amserlen ar gyfer cyflawni'r prosiect wedi'i fwrw ymlaen.

Y prif faterion i'w hystyried o ran y rhaglen yw'r cyllid a'r amserlen ar gyfer cyflawni'r prosiectau. Yn ôl y tendrau diweddar, mae'r costau'n debygol o gynyddu ar y tendrau i ddod, a rhagwelir y bydd yr amserlen yn mynd heibio'r dyddiad cau presennol ym mis Mawrth 2025.

**3) Cyfleoedd Caffael Lleol**

Mae'r holl dendrau diweddar wedi cael eu rhannu ar GwerthwchiGymru, fel sy'n ofynnol o dan reolau caffael y Cyngor, a'u hyrwyddo'n lleol. Mae'n galonogol bod tri busnes ar gyfartaledd wedi ymgeisio ar gyfer pob tendr. Mae'r partneriaid cyflawni wedi gwerthuso'r tendrau gyda swyddogion LUF y Cyngor yn bresennol.

Cafwyd ceisiadau gan fusnesau ar Ynys Môn yn ogystal â busnesau o arfordir Gogledd Cymru.

Bydd y partneriaid Cyflawni a'r tîm cyflawni LUF hefyd yn rhyddhau gwybodaeth sy'n ymwneud â chyfleoedd tendro ar sianeli Cyfryngau Cymdeithasol pan fo'n berthnasol.

Yn ddiweddar, mae contractau wedi'u dyfarnu i

a. Grosvenor
b. Adeiladwyr Môn
c. Cwmni Adeiladu OBR

**4) Ymgysylltu Lleol**

Cynhaliwyd digwyddiad cymunedol ar 17 Ionawr yng Nghanolfan Ucheldre gyda gwahoddiad agored i bawb yn y gymuned. Roedd partneriaid cyflawni yn bresennol ac yn arddangos eu cynigion ac roeddent ar gael i ateb cwestiynau. Daeth tua 60 o bobl i'r digwyddiad rhwng 15:00 a 18:00 gan gynnwys Cynghorwyr Sir a Thref. Roedd rhai camsyniadau o hyd ynghylch y cynigion. Codwyd pryderon am gau mynwentydd yr Eglwys yn ystod y datblygiad a'r cynigion ar gyfer HSBC a chyn Adeilad Gyrfa Cymru. Cafodd y rhan fwyaf o'r pryderon eu datrys yn ystod y diwrnod agored.

Bydd digwyddiadau cymunedol pellach i ysgogi diddordeb pellach yn y rhaglen a sicrhau bod preswylwyr a busnesau yn elwa yn ogystal ag ymarfer marchnata parhaus, dwys a chydlynol trwy sianeli cyfryngau cymdeithasol.

Mae Tîm Cyflawni'r LUF yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i baratoi deunydd hyrwyddo sy'n tynnu sylw at yr holl brif brosiectau LUF yng Nghaergybi. Bydd yn cynnwys un panel a fydd yn dangos lleoliadau'r holl brosiectau. Paratowyd fideo hyrwyddo o leoliadau'r prosiect cyn i'r gwaith ddechrau a bydd yn cael ei rannu gyda Phartneriaid. Mae

hysbysiadau safle hefyd yn cael eu gosod mewn lleoliadau lle mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd.

Defnyddir Facebook ac X yn rheolaidd i godi ymwybyddiaeth o'r Rhaglen LUF.

Cyn bo hir, bydd Tîm Cyflawni LUF yn gweithio gyda'r Rheolwr Adfywio i ddatblygu'r Cynllun Lleol ar gyfer Caergybi. Bydd hwn yn gyfle i nodi a chodi ymwybyddiaeth o brosiectau adfywio eraill yng Nghaergybi a nodi cyfleoedd cyllido posibl. Mae Caergybi bellach yn gymwys i wneud cais am gyllid strategol Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru, ac mae hyn yn dibynnu ar gael cynllun adfywio canol y dref.

Bydd cyfleoedd hefyd i hybu’r dysgu ar gyfer ysgolion lleol ac ymgysylltu ag ardal Caergybi ac adeiladau o bwys lleol, fel rhan o'u cwricwlwm 'cynefin'.

**5) Risgiau sy'n gysylltiedig â’r LUF**

Fel rhan o'r cais, mae'r Cyngor wedi paratoi Cofrestr Risg ar gyfer y Rhaglen sy'n cael ei monitro'n rheolaidd. Mae’r Gofrestr Risg yn cynnwys y posibilrwydd na fydd cwmpas cychwynnol rhai prosiectau yn cael ei gyflawni. Fel y nodwyd ym Mlaenoriaethau'r Rhaglen, mae ffurflenni tendro wedi tynnu sylw at y ffaith nad yw'r cyllid sydd ar gael yn ddigonol ac efallai na fydd rhai elfennau'n cael eu cyflawni. Bydd yn rhaid cyfleu'r rhain i Lywodraeth y DU.

Mae'r prif risgiau allweddol a nodwyd o ran cyflawni'r LUF ar Ynys Môn yn cynnwys:

a. Dim digon o arian o fewn y proffil ariannu i gwblhau'r holl brosiectau’n llawn.

b. Bod y rhaglen yn cael ei chyflawni o fewn yr amserlen a nodwyd gan Lywodraeth y DU

c. Angen adolygu cwmpas presennol y Rhaglen

d. Lleihau nifer y Canlyniadau a’r Allbynnau y cytunwyd arnynt y gellir eu cyflawni os nad oes digon o arian ar gael.

e. Y risg i enw da’r Cyngor fel y Corff Atebol sy'n gyfrifol am reoli'r LUF ar Ynys Môn pe na bai unrhyw un o'r prosiectau yn cael eu cyflawni. Mae diddordeb allanol yn hyn yn amlwg iawn.

f. Dibynnu ar bartneriaid cyflawni allanol nad ydynt o reidrwydd â phrofiad o gyflawni cynlluniau o'r fath a'r risg y bydd y rheini yn tangyflawni ar brosiectau a gymeradwywyd.

g. Yr angen i addasu i newidiadau mewn amgylchiadau buddiolwyr yn ystod y rhaglen.

h. Bod y Cyngor ddim yn manteisio'n llawn ar y cyfle y mae LUF yn ei gynnig.

**6) Ffynonellau Cyllido Eraill**

Er mai dim ond ar gyfer Caergybi y mae'r cyllid LUF a sicrhawyd, mae'n bwysig nodi bod ffynonellau cyllid eraill o hyd ar gyfer yr ardaloedd eraill ar Ynys Môn. Mae'r Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) wrthi'n cael ei hasesu a'i sgorio ac mae disgwyl y bydd rowndiau diweddarach. Hefyd mae gan Lywodraeth Cymru gronfeydd Canol y Dref ar gael a gallwn

| 6 – Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg] |
| --- |
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| Dim – bydd ceisiadau gan ac ar gyfer grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn cael yr un sylw a gellid targedu cyllid tuag at y grwpiau hynny |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy’n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| Cadarnhaol – mae gan yr arian hwn y potensial i gael ei dargedu tuag at y rhai sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg** |
| Cadarnhaol – drwy greu cyfleoedd cyflogaeth yn yr ardal y gobaith yw y bydd mwy o siaradwyr Cymraeg yn gallu elwa ac aros yn yr ardal. |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Niwtral - does dim goblygiadau ariannol ar y Cyngor Sir gan fod cost y goblygiadau staffio a datblygu’r cais wedi cael eu talu a bydd y gost drwy ffynonellau allanol. |

| 8 – Atodiadau |
| --- |
| **Atodiad A – Diweddariad ac Allbynnau Rhaglen LUF** |

| 9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda): |
| --- |
| https://www.ynysmon.llyw.cymru/cy/Busnes/Datblygu-economaidd/Cronfa-Ffyniant-Bro-Caergybi/Croeso.aspx |

**Atodiad A - Diweddariad ac Allbynnau Rhaglen LUF**

| Disgrifiad | Diweddariad | Canlyniadau ac Allbynnau |
|---|---|---|
| Estyniad sylweddol gan Gyngor Tref Caergybi i Ganolfan Chwarae'r Empire, prif atyniad dan do y dref, i ddarparu ar gyfer galw uwch, cynyddol ac adnewyddu Ffryntiad Traeth Newry gan wella cyfleusterau i bobl leol ac ymwelwyr fel ei gilydd. | Penodwyd OBR i ailddatblygu'r Ciosgau ar draeth Newry ac mae disgwyl i'r gwaith ddechrau ar 26 Chwefror am gyfnod o bedwar mis. Bu'n rhaid adolygu'r tendr ar gyfer y gwaith ar yr Empire a'i ail-hysbysebu gan fod y costau'n uwch na'r disgwyl yn y tendrau cyntaf. Ar ôl gwerthuso'r costau cafodd tendr newydd ei ryddhau ddiwedd mis Ionawr a'r dyddiad cau oedd 19 Chwefror. Bydd y Cyngor Tref a'r Tîm Cyflawni LUF yn adolygu unrhyw geisiadau newydd. | Creu neu wella lle cymunedol<br>Canolfan Chwarae a ffryntiad Traeth / Ciosgau ar gyfer Traeth Newry |
| Bydd Môn CF yn dechrau rhaglen adfer eiddo, gan dargedu rhai o'r eiddo gwag mwyaf ac amlycaf a chreu defnyddiau cymunedol newydd bywiog cynaliadwy, gan sicrhau bod yr adeiladau hyn yn cael eu hachub ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. | Mae'r gwaith wedi dechrau ar 9 Stryd Stanley ac mae disgwyl iddo gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Mehefin. Cafodd y tendr ar gyfer HSBC ei ryddhau ar GwerthwchiGymru am gyfnod o 6 wythnos a dim ond 1 cais a dderbyniwyd. Mae Môn CF yn adolygu'r tendr gyda'u Penseiri i adolygu'r costau a gyflwynwyd gan eu bod yn uwch na'r disgwyl. Mae'r tendr ar gyfer yr Adeilad Canolog yn cau ar 27 Chwefror a bydd yn cael ei adolygu unwaith y bydd wedi'i gwblhau. Ar hyn o bryd mae contractwyr dylunio yn adolygu 14 Stryd Stanley i weld pa waith sydd ei angen | Darparu lle hamdden (Stiwdio Ddawns)<br><br>Creu neu wella arwynebedd llawr yng nghanol y dref<br><br>Unedau preswyl newydd a gwell<br><br>Llety gwyliau newydd<br><br>Gwella adeiladau adfeiliedig<br><br>Unedau masnachol ychwanegol gyda mynediad band eang o leiaf 30Mbps<br><br>Adnewyddu/adfer adeiladau treftadaeth |
| Mae Esgobaeth Bangor yn adnewyddu Eglwys Sant Cybi, adeilad rhestredig Gradd 1 sy'n ased treftadaeth pwysig yng Nghaergybi. Ailddatblygu | Cymeradwywyd Caniatâd Heneb Gofrestredig ar gyfer y ddwy elfen yn dilyn gwaith cloddio archeolegol helaeth. | Creu neu wella lle diwylliannol<br><br>Adnewyddu/adfer adeiladau treftadaeth |

| | | |
|---|---|---|
| Eglwys Y Bedd, a fydd yn ehangu i fod yn ganolfan gymunedol, gan helpu pobl leol a denu mwy o weithgarwch i galon y dref. | Bydd cais cynllunio ar gyfer y gwaith diwygiedig ar Eglwys y Bedd yn cael ei gyflwyno ym mis Mawrth 2024. | |
| Mae'r Cyngor wedi ehangu'r rhaglen Trawsnewid Treflun yng Nghaergybi i gynnwys adnewyddu eiddo treftadaeth adfeiliedig yng nghanol y dref a gwelliannau i flaen siopau ar Stryd Stanley.<br><br>Bydd hyn yn helpu i wyrdroi'r dirywiad yng nghanol y dref a darparu eiddo preswyl newydd yng nghanol y dref. Bydd hefyd yn trawsnewid y mannau cyhoeddus o amgylch Cybi Sant trwy wella mynediad a fydd yn denu pobl i ganol y dref. | Mae timau dylunio bellach wedi'u penodi ar gyfer yr holl brosiectau a'r gobaith yw y bydd tendrau ar gyfer y gwaith yn eu lle erbyn mis Ebrill.<br><br>Mae cytundebau perchennog wedi cael eu cwblhau a byddant yn cael eu cyhoeddi yn fuan.<br><br>Mae rhan gyntaf y gwaith o atgyweirio rheiliau haearn ar y gweill ar ôl cael gwared â'r bwa.<br><br>Angen ymchwiliadau pellach ar gyfer gwelliannau i flaen siopau i'r eiddo o dan y Clwb Ceidwadwyr | Creu neu wella arwynebedd llawr canol y dref<br><br>Gwella adeiladau adfeiliedig<br><br>Creu neu wella mannau cyhoeddus<br><br>Creu, gwella neu adleoli amwynderau/cyfleusterau cyhoeddus<br><br>Unedau masnachol ychwanegol gyda mynediad band eang o leiaf 30Mbps<br>Unedau preswyl ychwanegol gyda mynediad band eang o leiaf 30Mbps<br><br>Adnewyddu/adfer adeiladau treftadaeth |

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 13 Mawrth 2024 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2022-23 |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Cyflwyno'r adroddiad ar gyfer sylwadau cyn iddo gael ei gyflwyno ar gyfer cymeradwyaeth ddirprwyedig i'w gyhoeddi. |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cynghorydd Dylan Rees |
| **Deilydd (ion) Portffolio:** | Cynghorydd Llinos Medi |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Ffôn:**<br>**E-bost:** | Ffreuer Owen, Rheolwr Polisi a'r Gymraeg<br>01248 752520<br>FfreuerOwen@ynysmon.llyw.cymru |
| **Aelodau Lleol:** | Amherthnasol |

| **1 - Argymhelliad/ion** |
|---|
| Gwahoddir y Pwyllgor i roi sylwadau ar yr Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2022-23, cyn iddo gael ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan y Deilydd Portffolio i'w gyhoeddi. |

| **2 – Cyswllt â Chynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Bu I’r Cyngor llawn gymeradwyo ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 ar 10 Mawrth 2020. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cynnwys cysylltiadau â Chynllun y Cyngor. |

| **3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer sgriwtini** |
|---|
| **Er mwyn cynorthwyo aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**<br><br>**3.1** Yr effaith y mae’r eitem yn ei chaelar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/dinesydd]**<br><br>**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**<br><br>**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**<br><br>**3.4** Sgriwtini’n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]** |

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cyfranogiad

**[ffocws ar lesiant]**

| **4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol** |
|---|
| 1 - I ba raddau y cyflawnodd y Cyngor ei amcanion a'i flaenoriaethau cydraddoldeb yn llawn ar gyfer 2020-2024?<br><br>2 – Faint o risg i'r Cyngor yw bod bylchau data yn parhau yn y wybodaeth cydraddoldeb sydd gennym am ein staff?<br><br>3 - Mae'r adroddiad blynyddol yn nodi y bydd trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd cadarn yn cael eu sefydlu ar gyfer 2024-2028. Sut fydd y trefniadau hyn yn effeithio ar adroddiadau blynyddol y Cyngor ar gydraddoldeb yn y dyfodol? |

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

O dan Reoliadau Dyletswyddau Statudol (Cymru) 2011 Deddf Cydraddoldeb 2010, rhaid i'r Cyngor gyhoeddi adroddiad blynyddol ar gydraddoldeb. Prif bwrpas yr adroddiad yw dangos sut mae'r Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau cydraddoldeb. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad erbyn 31 Mawrth yn y flwyddyn yn dilyn y cyfnod adrodd.

Mae gofynion penodol o ran yr hyn y mae'n rhaid ei adrodd yn flynyddol. Yn unol ag un o'r gofynion hyn, mae'r wybodaeth am gyflogaeth yn adroddiad eleni yn seiliedig ar y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023. Mae gweddill yr adroddiad yn rhoi darlun mwy diweddar.

Fe ddywedom yn adroddiad y llynedd mai ein prif flaenoriaeth yn ystod 2023 fyddai datblygu cynllun cydraddoldeb strategol ac amcanion cydraddoldeb newydd ar gyfer y pedair blynedd nesaf. Mae hyn bellach wedi'i wneud a disgwylir y bydd ein cynllun a'n hamcanion cydraddoldeb newydd ar gyfer 2024-2028 yn cael eu cyhoeddi erbyn diwedd mis Mawrth 2024 (yn amodol ar gymeradwyaeth gan ein Cyngor llawn yn ei gyfarfod nesaf). Eleni, felly, fydd y tro olaf i ni adrodd ar weithgareddau sy'n ymwneud â'n hamcanion ar gyfer 2020-2024.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu:

- y camau rydym wedi'u cymryd i nodi a chasglu gwybodaeth berthnasol a sut rydym wedi defnyddio'r wybodaeth hon i gyflawni tri nod y ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol, sef:

- dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon
- Hyrwyddo cyfle cyfartal
- Meithrin perthynas dda rhwng gwahanol grwpiau

- gwybodaeth am gyflogaeth am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023, gan gynnwys ein hadroddiad bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar gyfer 2023

- cynnydd tuag at gyflawni pob un o'n hamcanion cydraddoldeb ar gyfer 2020-2024 a sut y gwnaethom ddatblygu ein hamcanion cydraddoldeb ar gyfer 2024-2028.

Gellir dod o hyd i wybodaeth fanylach am y canlynol yn ein dogfennau cysylltiedig:

- Y sail gyfreithiol ar gyfer paratoi'r adroddiad blynyddol hwn (Atodiad 1)
- Ein data cyflogaeth, hyfforddiant a recriwtio (Atodiad 2)
- Ein hadroddiad bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar gyfer 2023 (Atodiad 3)
- Cynnydd tuag at gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb ar gyfer 2020-2024 (Atodiad 4)

Mae CCS 2020-2024 yn cynnwys 20 o ddangosyddion o'r hyn y dylem ddisgwyl ei weld pan fydd y camau hyn wedi'u cwblhau. Rydym wedi defnyddio'r wybodaeth yn Atodiad 4 i asesu ein cynnydd hyd yma yn erbyn y dangosyddion hyn a thybir ein bod ar y trywydd iawn yn gyffredinol:

| | |
|---|---|
| 1 | Cwblhawyd. |
| 18 | Proses barhaus ac/neu ar y trywydd iawn. |
| 1* | Rhai problemau / risgiau a nodwyd. |
| 0 | Problemau / Risgiau sylweddol a nodwyd. |
| 20 | Cyfanswm y dangosyddion |

## Yr hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud nesaf

*Gwelwyd rhai materion sydd angen sylw mewn perthynas â'r dangosydd canlynol (o dan amcan 2: Gwaith):

Mae'r Cyngor fel mater o drefn yn casglu ac yn defnyddio data monitro gweithwyr o ran yr holl grwpiau gwarchodedig er mwyn nodi a lleihau bylchau rhwng cyflogau ac unrhyw anghydraddoldebau eraill.

Er mwyn gallu adnabod a mynd i'r afael ag unrhyw anghydraddoldebau, mae angen gwybodaeth gywir arnom am ein staff. Fodd bynnag, mae casglu digon o ddata yn parhau i fod yn anodd, gan ein bod yn dibynnu ar gydweithwyr i ddarparu'r wybodaeth hon yn wirfoddol. Os ydym am gael gwell dealltwriaeth o'n gweithlu, bydd angen i ni gynyddu ein hymdrechion i annog mwy o staff i ddarparu gwybodaeth bersonol. Felly, mae'r mater hwn wedi'i flaenoriaethu yn ein CCS ar gyfer 2024-2028.

| |
|---|
| Fel rhan o ddatblygu ein CCS newydd, manteisiwyd ar y cyfle i ailystyried a chryfhau ein trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd. Ein bwriad yw sicrhau bod cydraddoldeb yn rhan annatod o'n gwaith ar draws y sefydliad ac nad yw'n eistedd ar wahân fel prosiect ar wahân.<br><br>Bydd trefniadau cadarn yn cael eu sefydlu ar gyfer 2024-2028, gan ganolbwyntio ar gynlluniau gweithredu blynyddol. Bydd grŵp cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant newydd hefyd yn cael ei sefydlu. Nod y grŵp fydd darparu cyfeiriad strategol ac arweinyddiaeth i gynnal ein dyletswydd cydraddoldeb sector cyhoeddus a chyflawni ein hamcanion cydraddoldeb.<br><br>Byddwn yn adrodd i'n Tîm Rheoli Corfforaethol ac i'r Pwyllgor hwn.<br><br>Bydd ein trefniadau yn sicrhau eglurder, atebolrwydd, cydgysylltiad a'r strwythur i fonitro cynnydd yn effeithiol.<br><br>Byddwn yn adrodd ar gynnydd mewn adroddiadau cydraddoldeb blynyddol yn y dyfodol. |

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** **[gan gynnwys effeithiau ar y Gymraeg]** |
|---|
| **6.1 Effeithiau posibl ar grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| Diben yr adroddiad blynyddol hwn yw edrych yn ôl ar sut mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cydraddoldeb. Mae hyn yn cynnwys amlinelliad o'r cynnydd yn erbyn gwaith sy'n gysylltiedig â'n blaenoriaeth i sefydlu proses gorfforaethol effeithiol i sicrhau asesiad parhaus o effaith ar draws gwasanaethau. |
| **6.2 Effeithiau posibl ar y rhai sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| Gweler uchod. |
| **6.3 Effeithiau posibl ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| Gweler uchod. |

| **7 – Goblygiadau ariannol** |
|---|
| Ddim yn berthnasol. |

| **8 – Atodiadau:** |
|---|
| Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb drafft 2022-23 |

| **9 - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| |

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2022-23

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am gyflogaeth am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023

Mae gweddill yr adroddiad yn rhoi darlun mwy diweddar o gynnydd wrth gyflawni ein hamcanion 2020-2024 a datblygu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd ar gyfer 2024-2028

Mae'r cyhoeddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg
This publication is also available in English

**Dyddiad cyhoeddi:** Mawrth 2024

Dyma Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer 2022-23. Mae ar gael ar ein gwefan:

www.ynysmon.llyw.cymru

Os oes angen y cyhoeddiad hwn arnoch mewn fformat a/neu iaith arall, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am ei gynnwys, cysylltwch â ni.

Tîm Polisi a'r Iaith Gymraeg
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
LL77 7TW

Ffôn: 01248 75 25 20
E-bost: cydraddoldeb@ynysmon.llyw.cymru

Rydym yn croesawu galwadau a gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd defnyddio'r Gymraeg yn arwain at oedi wrth ymateb.

Dogfennau cysylltiedig (hefyd ar gael ar ein gwefan

Cynllun Cydraddoldeb Strategol (SEP) 2020 - 2024
Cynllun Cydraddoldeb Strategol (SEP) 2024 - 2028

# Cyflwyniad: Trosolwg o'n hadroddiad blynyddol ar gydraddoldeb

Dyma adroddiad blynyddol ar gydraddoldeb Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer 2022-23. Yn yr adroddiad hwn, rydym yn amlinellu:

- y camau rydym wedi'u cymryd i nodi a chasglu gwybodaeth berthnasol a sut rydym wedi defnyddio'r wybodaeth hon i gyflawni tri nod y ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol, sef:

  - dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon
  - hyrwyddo cyfle cyfartal
  - meithrin perthynas dda rhwng gwahanol grwpiau

- gwybodaeth am gyflogaeth am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023, gan gynnwys ein hadroddiad bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar gyfer 2023

- cynnydd tuag at gyflawni pob un o'n hamcanion cydraddoldeb ar gyfer 2020-2024 a sut y gwnaethom ddewis ein hamcanion newydd ar gyfer 2024-2028

Fe ddywedom yn adroddiad y llynedd mai ein prif flaenoriaeth yn ystod 2023 fyddai datblygu cynllun cydraddoldeb strategol ac amcanion cydraddoldeb newydd ar gyfer y pedair blynedd nesaf. Mae hyn bellach wedi'i wneud a disgwylir y bydd ein cynllun a'n hamcanion cydraddoldeb newydd ar gyfer 2024-2028 yn cael eu cyhoeddi erbyn diwedd mis Mawrth 2024 (yn amodol ar gymeradwyaeth gan ein Cyngor llawn yn ei gyfarfod nesaf). Eleni, felly, fydd y tro olaf i ni adrodd ar weithgareddau sy'n ymwneud â'n hamcanion ar gyfer 2020-2024.

Gellir dod o hyd i wybodaeth fanylach hefyd am y canlynol yn ein dogfennau cysylltiedig:

- Y sail gyfreithiol ar gyfer paratoi'r adroddiad blynyddol hwn (Atodiad 1)

- Ein data cyflogaeth, hyfforddiant a recriwtio (Atodiad 2)

- Ein hadroddiad bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar gyfer 2023 (Atodiad 3)

- Cynnydd tuag at gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb ar gyfer 2020-2024 (Atodiad 4)

# Adnabod, casglu a defnyddio gwybodaeth berthnasol

## Ein cymunedau

Rydym yn parhau i gymryd camau cadarnhaol i nodi a chasglu gwybodaeth cydraddoldeb berthnasol. Mae'n helpu i lywio ein penderfyniadau ac yn sail i'n strategaethau a'n cynlluniau corfforaethol a gwasanaeth. Rydym yn crynhoi isod y ffynonellau gwybodaeth penodol a ystyriwyd gennym wrth ddatblygu ein cynllun cydraddoldeb strategol (CCS) newydd ar gyfer 2024-2028:

- Canfyddiadau proses ymgysylltu ac ymgynghori gynhwysfawr a gynhaliwyd yn 2022 i ddatblygu blaenoriaethau strategol ar gyfer ein Cynllun Cyngor 2023-2028

- Cydraddoldeb yng Ngogledd Cymru: Adroddiad data a thystiolaeth (Ebrill 2023) a gomisiynwyd gan Rwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru (NWPSEN)

- Adborth o'r ymgynghoriad ar ein hamcanion rhanbarthol yng Ngogledd Cymru a gynhaliwyd gan NWPSEN (Medi 2023)

- Monitor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: A yw Cymru'n Decach? (Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol - Tachwedd 2023)

Rydym yn cydnabod bod bylchau data yn parhau a bod angen rhagor o waith i nodi ac ymgysylltu'n ystyrlon â llawer o'n grwpiau gwarchodedig. Mae angen i ni wneud mwy gyda'r rhai sy'n rhannu'r nodweddion gwarchodedig ailbennu rhywedd, hil, crefydd a chred a chyfeiriadedd rhywiol yn benodol. Rydym yn esbonio ein bwriadau yn fanylach yn ein CCS newydd o dan amcan cydraddoldeb 6: Cymryd rhan.

## Ein staff

Rydym bob amser yn ymdrechu i gryfhau amrywiaeth ein gweithlu ac yn cynnig diwylliant cynhwysol sy'n gwerthfawrogi gwahaniaeth, lle mae pob aelod o staff yn cael cyfle i lwyddo. O ganlyniad, rydym wedi ymrwymo i gasglu gwybodaeth gywir sy'n ymwneud â nodweddion gwarchodedig gwahanol.

Yn yr adroddiad hwn, rhoddwyd ystyriaeth i nodweddion gwarchodedig rhyw, oedran, ethnigrwydd, cyfeiriadedd rhywiol ac anabledd staff presennol, lle mae'r wybodaeth honno'n hysbys ac wedi'i rhannu â ni. Mae dadansoddiad hefyd o'r rhai sydd wedi gwneud cais am swyddi gwag o fewn y Cyngor.

Gellir dod o hyd i'r wybodaeth am gyflogaeth sydd ar gael i ni am y sefyllfa ar 31 Mawrth 2023 yn ein dogfennau cysylltiedig (Atodiad 2).

Rhoddir isod ddadansoddiad o'r data hwn:

## Recriwtio a chadw

Mae gwaith cadarnhaol wedi'i wneud gyda sefydliadau lleol fel Cymunedau'n Gyntaf Môn, yr Adran Gwaith a Phensiynau, Coleg Llandrillo Menai ac ysgolion i ddarparu cyngor a chyfleoedd recriwtio a gyrfaoedd i annog a chefnogi unigolion i'r gweithlu. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio ar y cyd â Gofalwn Cymru a'u gwaith ymgysylltu yn y sector gofal.

Rydym yn casglu data cydraddoldeb fel rhan safonol o'r broses recriwtio. Er mwyn annog ymgeiswyr i rannu gwybodaeth, mae yna opsiwn hefyd i ddewis 'mae'n well gen i beidio â dweud'. Mae hyn yn ein galluogi i fonitro a dadansoddi tueddiadau recriwtio a gweithredu ar ganfyddiadau'r data hwn.

Gall gweithwyr presennol gynnwys neu ddiweddaru eu gwybodaeth cydraddoldeb drwy system hunanwasanaeth y Cyngor, Amdanaf i. Mae gwaith yn parhau i ddiweddaru'r data ac i rannu â'r gweithwyr y rhesymeg ynghylch casglu'r data yma. Mae ymrwymiad i barhau i sicrhau bod y wybodaeth a gedwir mor gyfredol â phosibl.

## Monitro Cydraddoldeb

Mae'r proffil rhywedd eto yn cadarnhau ein bod yn cyflogi llawer mwy o fenywod na dynion, sy'n gyson â'r duedd ar draws llawer o awdurdodau lleol. O'i gymharu â'r llynedd, mae'n ymddangos bod cynnydd yn nifer y gweithwyr gwrywaidd a benywaidd ac ar draws pob ystod oedran. Mae'r data'n ymddangos yn weddol gyson ar draws y nodweddion cydraddoldeb sy'n weddill.

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i ni gyhoeddi adroddiad yn flynyddol ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Ein bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau ar 31 Mawrth 2023 oedd 10.8%, sy'n is na chyfartaledd y DU. Gellir dod o hyd i ragor o fanylion yn ein dogfennau cysylltiedig (Atodiad 3).

Rydym yn darparu system i unigolion ddatgan unrhyw wybodaeth am gydraddoldeb y maent am ei darparu, ond mae bwlch yn y data yn parhau ar gyfer staff presennol. Cydnabyddir bod angen darlun llawnach i'n helpu i nodi unrhyw anghydraddoldebau rhwng pobl â nodweddion gwahanol. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni hefyd dderbyn hawliau unigolion i beidio â datgelu gwybodaeth bersonol.

Atgoffir rheolwyr yn rheolaidd am y dyletswyddau cydraddoldeb trwy amrywiol ddulliau cyfathrebu a gofynnir iddynt sicrhau bod staff yn ymwybodol o ble y gallant ychwanegu neu ddiwygio eu gwybodaeth cydraddoldeb. Ar gyfer 2024-2028 ein nod yw mynd i'r afael â hyn trwy'r camau gweithredu yr ydym wedi'u nodi yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd, o dan amcan cydraddoldeb 2: y gweithle.

### Hyfforddiant

Yn unol â'n Strategaeth Pobl, rydym wedi ymrwymo i ddatblygu gweithwyr ac aelodau etholedig, gan sicrhau mynediad teg at gyfleoedd dysgu, hyfforddiant a datblygu. Gwneir hyn trwy amrywiaeth o ddulliau gan gynnwys cymwysterau, cyrsiau byr yn yr ystafell ddosbarth ac ar-lein, e-ddysgu, dysgu cyfunol, dysgu hunangyfeiriedig, cysgodi a dysgu yn y gwaith.

Mae hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth yn parhau i fod yn elfen annatod o'r rhaglen hyfforddi a datblygu. Er mwyn darparu gwasanaethau'n effeithiol, mae angen i'r holl staff ac aelodau etholedig fod yn ymwybodol o'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol a phenodol i sicrhau ei fod yn cael sylw dyledus yn y gwaith y maent yn ei wneud. Mae hyfforddiant a arweinir gan diwtoriaid ac e-ddysgu ar gael i weithwyr, rheolwyr ac aelodau etholedig. Mae cydraddoldeb hefyd yn bwnc allweddol yn y sesiynau anwytho corfforaethol ar gyfer gweithwyr newydd. Mae'r sesiynau hyfforddi a gyflwynwyd eleni wedi cynnwys:

Hyfforddiant arlein:

- Asesiadau effaith ar gydraddoldeb
- Rhagfarn anymwybodol
- Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Modiwlau e-ddysgu:

- Cydraddoldeb ac amrywiaeth i aelodau etholedig
- Cydraddoldeb yn y gweithle
- Cydraddoldeb ac amrywiaeth - gofal cymdeithasol

Anwytho corfforaethol i weithwyr newydd:

- Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Yn gyffredinol, credwn ein bod yn parhau i gymryd camau cadarnhaol tuag at hyrwyddo a datblygu cydraddoldeb ac amrywiaeth o fewn y sefydliad, a byddwn yn parhau i ddatblygu ac esblygu dulliau cyfredol i sicrhau bod cynnydd yn parhau.

## Ein hamcanion cydraddoldeb ar gyfer 2020-2024

Mae ein CCS ar gyfer 2020-2024 yn nodi ein hamcanion cydraddoldeb cyfredol a sut y gwnaethom eu dewis. Mae hefyd yn nodi rhai camau i'n helpu i'w cyflawni. Mae Atodiad 3 yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed gyda'r camau hyn hyd at fis Rhagfyr 2023.

Mae CCS 2020-2024 hefyd yn cynnwys 20 o ddangosyddion o'r hyn y dylem ddisgwyl ei weld pan fydd y camau yma wedi'u cwblhau. Rydym wedi defnyddio'r wybodaeth yn Atodiad 4 i asesu ein cynnydd hyd yma yn erbyn y dangosyddion hyn ac wedi dod i'r casgliad ein bod ar y trywydd cywir yn gyffredinol:

| | |
|---|---|
| 1 | Cwblhawyd. |
| 18 | Proses barhaus ac/neu ar y trywydd iawn. |
| 1 | Rhai problemau / risgiau a nodwyd. |
| 0 | Problemau / Risgiau sylweddol a nodwyd. |
| 20 | Cyfanswm y dangosyddion |

Fodd bynnag, gwelwyd rhai materion sydd angen sylw mewn perthynas ag un dangosydd yn benodol:

| 2: Byddwn yn cymryd camau i sicrhau ein bod yn gyflogwr teg ac yn lleihau bylchau cyflog | |
|---|---|
| Mae'r Cyngor fel mater o drefn yn casglu ac yn defnyddio data monitro gweithwyr o ran yr holl grwpiau gwarchodedig i nodi a lleihau bylchau rhwng cyflogau ac unrhyw anghydraddoldebau eraill. | |

Er mwyn gallu adnabod a mynd i'r afael ag unrhyw anghydraddoldebau, mae angen gwybodaeth gywir arnom am ein staff.  Fodd bynnag, mae casglu digon o ddata yn parhau i fod yn anodd, gan ein bod yn dibynnu ar gydweithwyr i ddarparu'r wybodaeth hon yn wirfoddol.  Os ydym am gael gwell dealltwriaeth o'n gweithlu, bydd angen i ni gynyddu ein hymdrechion i annog mwy o staff i ddarparu gwybodaeth bersonol. Felly, mae'r mater hwn wedi'i flaenoriaethu yn ein CCS ar gyfer 2024-2028.

# Yr hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud nesaf

O ddiwedd mis Mawrth 2024, bydd y CCS 2020-2024 yn cael ei ddisodli gan CCS ac amcanion newydd ar gyfer 2024-2028.

Ers dros ddegawd, mae NWPSEN, Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru (sy'n cynnwys holl awdurdodau lleol Gogledd Cymru a sefydliadau sector cyhoeddus eraill) wedi cydweithio i ddatblygu a chytuno cyfres o amcanion a rennir ar gyfer y rhanbarth.  Mae'r amcanion hyn yn seiliedig ar y 'parthau' a ddefnyddir gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i fonitro cynnydd mewn cydraddoldeb yn y DU.  Daeth yr adolygiad diweddaraf a gynhaliwyd gan NWPSEN yn haf 2023 â ni i'r casgliad bod yr amcanion lefel uchaf gwreiddiol yn parhau'n berthnasol.  Felly, mae amcanion rhanbarthol 2024-2028 yn ymdrin â'r un themâu â'r rhai a ddewiswyd ar gyfer 2020-2024.  Mae rhagor o wybodaeth am ein hymgynghoriad rhanbarthol diweddaraf ar gael yn y dogfennau sy'n cyd-fynd â'n CCS newydd ar gyfer 2024-2028.

Rydym wedi dewis unwaith eto i fabwysiadu'r amcanion a rennir ar gyfer 2024-2028. Mae hyn oherwydd bod gweithio tuag at amcanion a rennir gyda'n partneriaid yn ein galluogi i wneud defnydd effeithiol o adnoddau ac arbenigedd. Hefyd, po fwyaf y partneriaid sy'n gweithio gyda'i gilydd tuag at yr un canlyniad, y mwyaf yw'r effaith y byddwn yn ei chael.

Rydym hefyd wedi cadw ein hamcan lleol – arferion gwaith – i'n helpu i sicrhau bod gan ein cydweithwyr, waeth beth fo'u rolau, well dealltwriaeth o'u cyfrifoldebau cydraddoldeb.

Mae ein CCS newydd yn gyhoeddiad allweddol sy'n cyd-fynd â Chynllun y Cyngor 2023 i 2028 a gymeradwywyd gan ein Cyngor llawn ar 9 Mawrth 2023. Mae ein hamcanion cydraddoldeb drafft 1, 3 a 4 yn arbennig o berthnasol gan eu bod yn cyd-fynd â thri amcan strategol Cynllun y Cyngor:

- Addysg: Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol
- Gofal Cymdeithasol a Lles: Rhoi''r cymorth cywir ar yr adeg cywir
- Tai: Sicrhau fod gan bawb yr hawl i alw yn rhywle yn gartref

Ein hamcanion cydraddoldeb ar gyfer 2024-2028 yw:

**1: Addysg:** Cymryd camau i fynd i'r afael â bylchau mewn cyrhaeddiad addysgol a chefnogi lles disgyblion ysgol

**2: Y gweithle:** Cymryd camau i sicrhau ein bod yn gyflogwr cyfle cyfartal a lleihau bylchau cyflog

**3: Safonau byw:** Cymryd camau i wella safonau byw grwpiau gwarchodedig

**4: Iechyd, lles a gofal cymdeithasol:** Cymryd camau i wella iechyd, lles a gofal cymdeithasol

**5: Diogelwch personol:** Cymryd camau i ddiogelu grwpiau gwarchodedig

**6: Cymryd rhan:** Cynyddu cyfleoedd ac annog amrywiaeth wrth wneud penderfyniadau

**7: Anfantais economaidd-gymdeithasol:** Cymryd camau i fynd i'r afael ag anfantais

8: **Arferion gwaith**: Gwella ein harferion mewnol i sicrhau tegwch i bawb

Fel rhan o ddatblygu ein CCS, manteisiwyd ar y cyfle i ailystyried a chryfhau ein trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd.  Ein bwriad yw sicrhau bod cydraddoldeb yn rhan annatod o'n gwaith ar draws y sefydliad ac nad yw'n eistedd ar wahân fel prosiect ar wahân.

Bydd trefniadau cadarn yn cael eu sefydlu ar gyfer 2024-2028, gan ganolbwyntio ar gynlluniau gweithredu blynyddol. Bydd grŵp cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant newydd hefyd yn cael ei sefydlu. Nod y grŵp fydd darparu cyfeiriad strategol ac arweinyddiaeth i gynnal ein dyletswydd cydraddoldeb yn y sector cyhoeddus a chyflawni ein hamcanion cydraddoldeb.

Byddwn yn adrodd i'n Tîm Rheoli Corfforaethol a'n Pwyllgor Craffu Partneriaeth ac Adfywio.

Bydd ein trefniadau yn sicrhau eglurder, atebolrwydd, cydgysylltiad a'r strwythur i fonitro cynnydd yn effeithiol. Byddwn yn rhoi gwybod i chi am gynnydd yn ein hadroddiadau cydraddoldeb blynyddol yn y dyfodol.

Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, nad yw ein hymrwymiad i gydraddoldeb wedi'i gyfyngu i'r blaenoriaethau sydd wedi'u cynnwys yn ein CCS.  Bydd llawer o’r camau gweithredu a nodir o dan ein hamcanion cydraddoldeb ar gyfer 2020-2024 yn parhau I gael sylw a byddwn yn achub ar bob cyfle i ddatblygu cydraddoldeb drwy ein gwaith ar bob lefel o fewn y Cyngor.  Bydd hyn yn ein helpu i adeiladu cymdeithas decach i'n holl ddinasyddion. Rydym wedi ymrwymo, o fewn ein galluoedd a'n dylanwad, i:

- ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall sy'n cael ei wahardd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt

- feithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt

Mawrth 2024

Mae'r dogfennau hyn hefyd ar gael yn Saesneg /
These documents are also available in English.

# Atodiad 1: Sail gyfreithiol

## Pam mae angen adroddiad blynyddol ar gydraddoldeb?

Mae'r sail statudol ar gyfer datblygu'r adroddiad hwn wedi'i chynnwys yn Neddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Mae Deddf 2010 yn gosod dyletswydd gyffredinol ar gyrff cyhoeddus i roi sylw dyledus i'r canlynol ym mhob agwedd o'u gwaith:

- Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon
- Hyrwyddo cyfle cyfartal
- Meithrin perthynas dda rhwng gwahanol grwpiau

Mae Rheoliadau 2011 yn cynnwys dyletswyddau penodol i helpu cyrff cyhoeddus yng Nghymru i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol. Mae'r dyletswyddau penodol hyn yn cynnwys gofyniad i gyhoeddi adroddiadau cydraddoldeb blynyddol erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn. Prif bwrpas adroddiadau cydraddoldeb blynyddol yw dangos sut rydym wedi cyflawni ein dyletswyddau cyffredinol a phenodol.

## Pwy sy'n cael eu diogelu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010?

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ymwneud â sicrhau tegwch i bawb. Mae'n diogelu'r nodweddion canlynol, a elwir hefyd yn 'grwpiau gwarchodedig':

- Oed
- Anabledd
- Rhyw
- Ailbennu rhywedd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred, gan gynnwys diffyg cred
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Priodas a phartneriaeth sifil

Nod y Ddeddf hefyd yw lleihau anghydraddoldebau canlyniad sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.

# Atodiad 2:
# Data cyflogaeth, hyfforddiant a recriwtio

Mae'r data cyflogaeth sydd gennym ar hyn o bryd yn ymwneud â 3,203 o weithwyr y Cyngor (gan gynnwys staff dysgu).

Sylwer: Nid yw'n orfodol i weithwyr neu ymgeiswyr ddarparu data ynghylch anabledd, hil, crefydd neu gred, neu gyfeiriadedd rhywiol. Mae'r categori 'anhysbys' yn y graffiau canlynol yn dangos nifer yr unigolion sydd wedi dewis peidio â darparu unrhyw ddata ynghylch y nodweddion gwarchodedig penodol hynny.

## Pobl a gyflogir gan y Cyngor ar 31 Mawrth 2023


Gwrywaidd: 951 Benywaidd: 2630 Cyfanswm: 3581


Oed:

O dan 25 : 370
26 i 34 : 599
35 i 44 : 762
45 i 54 : 805
55 i 64 : 715
65 a throsodd : 330


Nid yw’n orfodol i weithwyr nag ymgeiswyr ddarparu’r data canlynol. O’r rhai sydd wedi datgan, dyma’r niferoedd:


Anabl : 68
Du a lleiafrifoedd ethnig: 13
Lesbiaidd, hoyw, deurywiol: 29


Proffil oedran y staff a gyflogwyd ar 31 Mawrth
800
700
600
500
400
300
200
100
0
277
329
554
564
683
717
719
755
625
639
180
199
Oed <25
Oed 26-34
Oed 35-44
Oed 45-54
Oed 55-64
Oed 65+
2022
2023



Rhyw y staff a gyflogwyd ar 31 Mawrth
3000
2500
2000
1500
1000
500
0
31/03/2022
31/03/2023
B
G


3.


Crefydd y staff a gyflogwyd ar 31 Mawrth
2000
1800
1600
1400
1200
1000
800
600
400
200
0
2 2
759
798
1 1
3 2
454
522
2124
8384
1715
1769
0 1
BWDHYDD
CRISTION
HINDW
IDDEW
DIM CREFYDD NA CHRED
ARALL
GWELL GENNYF BEIDIO A DWEUD
ANHYSBYS
MWSLIMAIDD
31/03/2022
31/03/2023


Staff â baner anabledd ar 31 Mawrth
68
72
2022
2023

4.


Tarddiad ethnig staff a gyflogwyd ar 31 Mawrth
2000
1800
1600
1400
1200
1000
800
600
400
200
0
1687 1742
2 2
6 7
2 3
1331 1439
1 0
9 9
0 1
ANHYSBYS
TSIEINIAIDD
CYMYSG
ARALL
GWYN
DU
GWELL GENNYF BEIDIO...
ASIAIDD
31/03/2022
31/03/2023


Cyfeiriadedd rhywiol staff a gyflogwyd ar 31 Mawrth
2000
1800
1600
1400
1200
1000
800
600
400
200
0
17 16
3 5
1165 1271
7 6
105 106
1741 1795
0 1
0 2
0 1
DEURYWIOL
HOYW
HETERORYWIOL
LESBIAD
GWELL GENNYF BEIDIO A DWEUD
ANHYSBYS
ARYWIOL
HOYW NEU LESBIAD
GWELL GENNYF HUNAN-DDISGRIFIO
31/03/2022
31/03/2023

5.

## Pobl sydd wedi llwyddo i newid eu rolau yn 2022-23

Mae'r ffigurau yn y tabl canlynol yn cynnwys y rhai sydd wedi cael eu dyrchafu, wedi newid rolau ar yr un lefel neu wedi ymgymryd ag ail swyddi gyda'r Cyngor:

Gwrywaidd: 241 Benywaidd: 631 Cyfanswm: 872

Oed:

O dan 25 : 223
26 i 34 : 202
35 i 44 : 185
45 i 54 : 145
55 i 64 : 96
65 a throsodd : 21

Nid yw’n orfodol i weithwyr nag ymgeiswyr ddarparu’r data canlynol. O’r rhai sydd wedi datgan, dyma’r niferoedd:

Anabl : 11
Du a lleiafrifoedd ethnig: 5
Lesbiaidd, hoyw, deurywiol: 13

## Hyfforddiant

Nifer sydd wedi cwblhau hyfforddiant cwrs byr yn 2022-23:

Gwrywaidd: 424 (27%) Benywaidd: 1161 (73%) Cyfanswm: 1585

## Cwynion

Mae hon yn weithdrefn ffurfiol ar gyfer codi materion sy'n peri pryder na ellir eu datrys yn anffurfiol. Mae'r tabl isod yn cynnwys gwybodaeth mewn perthynas â gweithwyr a gododd gwynion ffurfiol rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023 ac fe'i cyflwynir ar gyfer pob un o'r nodweddion gwarchodedig. Gan fod un yn gŵyn ar y cyd, nid yw'r data ynghylch yr achos penodol hwnnw wedi'i gynnwys isod:

Nifer yr achosion o gwynion ffurfiol: 6

| Oed | Anabledd | Ailbennu rhywedd | Beichiogrwydd a mamolaeth |
|---|---|---|---|
| 16-24: 0<br>25-34: 2<br>35-44: 0<br>45-54: 1<br>55-64: 1<br>65+: 1 | Dim un wedi'i recordio | Dim un wedi'i recordio | Dim un wedi'i recordio |
| **Hil** | **Crefydd neu gred** | **Rhyw** | **Cyfeiriadedd rhywiol** |
| Gwybodaeth a gofnodwyd ar gyfer 1 allan o 5:<br><br>Gwyn: 1 | Gwybodaeth a gofnodwyd ar gyfer 1 allan o 5:<br><br>Cristion: 1 | Gwrywaidd: 1<br>Benywaidd: 4 | Gwybodaeth a gofnodwyd ar gyfer 1 allan o 5:<br><br>Heterorywiol: 1 |

## Disgyblu

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwybodaeth mewn perthynas â gweithwyr sy'n destun gweithdrefnau disgyblu rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023 ac fe'i cyflwynir ar gyfer pob un o'r nodweddion gwarchodedig:

Nifer y gweithwyr sy'n destun gweithdrefnau disgyblu: 11

| Oed | Anabledd | Ailbennu rhywedd | Beichiogrwydd a mamolaeth |
|---|---|---|---|
| 16-24: 0<br>25-34: 2<br>35-44: 1<br>45-54: 2<br>55-64: 5<br>65+: 1 | Dim un wedi'i recordio | Dim un wedi'i recordio | Dim un wedi'i recordio |
| **Hil** | **Crefydd neu gred** | **Rhyw** | **Cyfeiriadedd rhywiol** |
| Gwybodaeth a gofnodwyd ar gyfer 2 allan o 11:<br><br>Gwyn: 2 | Gwybodaeth a gofnodwyd ar gyfer 2 allan o 11:<br><br>Dim crefydd neu gred: 2 | Gwrywaidd: 4<br>Benywaidd: 7 | Gwybodaeth a gofnodwyd ar gyfer 2 allan o 11:<br><br>Heterorywiol: 2 |

# Pobl sydd wedi gwneud cais am swyddi yn 2022-23


Gwrywaidd: 537 Benywaidd: 780 Cyfanswm: 1338


Oed:


O dan 25 : 183
26 i 34 : 140
35 i 44 : 156
45 i 54 : 94
55 i 64 : 59
65 a throsodd : 2

Nid yw'n orfodol i weithwyr nag ymgeiswyr ddarparu'r data canlynol. O'r rhai sydd wedi datgan, dyma'r niferoedd:

Anabl : 21
Du a lleiafrifoedd ethnig: 50
Lesbiaidd, hoyw, deurywiol: 33




Rhyw ymgeiswyr
1000
900
800
700
600
500
400
300
200
100
0
923
656
780
537
2021/22
2022/23
B
G


Baner anabledd - ymgeiswyr
21
38
2021/22
2022/23

# Atodiad 3: Adroddiad bwlch cyflog rhwng y rhywiau 2023

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r Cyngor gyhoeddi adroddiad yn flynyddol ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Dyma ein hadroddiad ar gyfer y dyddiad ciplun dyddiedig 31 Mawrth 2023. Mae'n cynnwys ystadegau ar gyfer ein holl weithwyr ar wahân i'r rhai a gyflogir mewn ysgolion. Mae'r canlyniadau fel a ganlyn:

- Y bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn yw 10.8%.
- Y bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn yw 13.6%.

Gan nad ydym yn talu unrhyw fonysau i'n gweithwyr, nid yw unrhyw ddangosyddion bwlch bonws rhywedd yn berthnasol.

## Beth yw prif achos bwlch cyflog y Cyngor ar sail rhywedd?

Rydym yn cefnogi'r egwyddor o gyflog cyfartal am waith cyfartal o werth cyfartal ac yn cydnabod y dylid cael strwythur cyflog a graddio sy'n rhydd o ragfarn ac yn seiliedig ar feini prawf gwrthrychol. Mae gennym bolisi clir o dalu gweithwyr yn gyfartal am yr un gwaith neu waith cyfatebol, waeth beth fo'u rhyw. Mae pob swydd yn cael ei werthuso yn ôl yr angen i sicrhau strwythur teg. Rydym yn hyderus nad yw ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn deillio o dalu dynion a merched yn wahanol am yr un gwaith neu waith cyfatebol ac rydym yn falch o adrodd bod ein bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau, sef 10.8% yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 13.2% (ONS ASHE Ffigurau Dros Dro 2023).

Mae ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn ganlyniad i'r rolau y mae dynion a merched yn gweithio yn y sefydliad a'r cyflogau y mae'r rolau hyn yn eu denu. Ar draws economi'r DU, mae dynion yn fwy tebygol na merched o fod mewn rolau uwch, tra bod merched yn fwy tebygol na dynion o fod mewn rolau rheng flaen ym mhen isaf y sefydliad. Nid yw'r rolau hyn yn sgorio'n uchel o fewn cynlluniau gwerthuso swyddi felly maent yn cael graddau cyflog is. Mae canran uwch o weithwyr rhan-amser yn ferched ac mae merched yn parhau i fod yn fwy tebygol o fod â chyfrifoldebau gofalu di-dâl na dynion. Adlewyrchir patrwm economi'r DU yng nghyfansoddiad ein gweithlu, lle mae'r rhan fwyaf o'n gweithwyr yn ferched ac mae cyfran fawr o'r rhain yn gweithio'n rhan amser.

## Sut mae bwlch cyflog rhwng y rhywiau y Cyngor hwn yn cymharu â bwlch cyflog sefydliadau eraill?

Mae gan lawer o sefydliadau ac awdurdodau lleol fwlch cyflog rhwng y rhywiau. Y bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau ar gyfer yr economi gyfan (ffigurau dros dro

2023 ONS) oedd 13.2%.  Ar 10.8%, mae ein bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau yn is na ffigwr cyfartalog y DU.

Y bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau ar gyfer yr economi gyfan (ffigurau dros dro 2023 ONS) oedd 14.3%.  Ar 13.6%, mae ein bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau yn is na'r cyfartaledd hwn.  Dim ond newid ymylol sydd wedi bod yn ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae'r tabl isod yn dangos y data ar gyfer y cyfnod 2019 – 2023:

| Blwyddyn | Bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau | Bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau |
|---|---|---|
| Mawrth 2023 | 10.82% | 13.63% |
| Mawrth 2022 | 11.66% | 14.65% |
| Mawrth 2021 | 11.24% | 14.65% |
| Mawrth 2020 | 11.33% | 14.65% |
| Mawrth 2019 | 11.40% | 14.24% |

## Beth ydyn ni'n ei wneud i fynd i'r afael â'n bwlch cyflog rhwng y rhywiau?

Er bod ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn parhau i fod yn is na chyfartaledd y DU, rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i barhau i leihau ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau lle gallwn.  Rydym yn cydnabod bod ein cwmpas i weithredu yn gyfyngedig, gan fod graddfeydd cyflog yn cael eu cytuno yn genedlaethol ac felly nid oes gennym reolaeth uniongyrchol dros gyflogau.  Nid ydym yn gweithredu unrhyw gynlluniau talu neu wobrau sy'n gysylltiedig â pherfformiad.  Rydym yn cydnabod bod yn rhaid i gyflog a graddio pob swydd fod yn deg, yn dryloyw ac yn anwahaniaethol.  Rydym yn gweithredu cynllun gwerthuso swyddi, gan gadw at egwyddorion cydraddoldeb a chynnal uniondeb a thegwch ein strwythur cyflog a graddio yn barhaus.

Rydym yn darparu ystod eang o gyfleoedd gweithio hyblyg i gefnogi, datblygu a chadw gweithwyr yn y gwaith.  Rydym wedi bod yn gweithio i ddarparu cyfleoedd i bobl ifanc, drwy sefydlu swyddi dan hyfforddiant, gan sicrhau bod pobl ifanc yn datblygu sgiliau mewn meysydd twf a galw, sy'n gwella cyflogadwyedd. Rydym wedi sicrhau marchnata ehangach o'r swyddi dan hyfforddiant hyn a'n holl swyddi gwag, gan wella ac ehangu ein presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae gennym nifer o gynlluniau ar y gweill mewn ymgais i geisio denu mwy o bobl, yn enwedig merched, i swyddi uwch gan gynnwys rhaglenni Arweinyddion Môn, Academi Môn a Twf a Datblygu . Fel rhan o'r rhaglenni hyn, y gobaith yw annog mwy o bobl, yn enwedig merched i wneud cais am rolau arwain a'u cyflawni.

Rydym wedi ymrwymo i gydbwysedd bywyd gwaith ac yn darparu ystod eang o gyfleoedd gwaith hyblyg i gefnogi, datblygu a chadw gweithwyr yn y gwaith.  Mae'r polisi gweithio hybrid, a gyflwynwyd yn ystod pandemig Covid-19, bellach wedi'i fabwysiadu'n

ffurfiol. Y gobaith yw y bydd hyn yn cynyddu hyblygrwydd ac yn dileu'r rhwystrau i gynnydd i ferched a'r gweithlu cyfan.

Rydym wedi cymryd camau i hyrwyddo amrywiaeth rhywedd ym mhob maes o'n gweithlu ac yn parhau â'n monitro rhywedd i ddeall:

- nifer yr ymgeiswyr gwrywaidd a benywaidd ar gyfer rolau penodol.
- nifer y dynion a'r merched ym mhob rôl a band cyflog.
- manteisio ar drefniadau gweithio hyblyg yn ôl rhyw a lefel o fewn y sefydliad.
- y cyfrannau o ddynion a merched sy'n gadael y sefydliad a'u rhesymau dros adael.

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i:

- adolygu ein polisïau gweithio hyblyg a pholisïau eraill sy'n gyfeillgar i deuluoedd.
- adolygu ein strategaethau recriwtio a chadw a sefydlu dulliau gwahanol i ddenu talent. Bydd y system recriwtio newydd - sydd ar hyn o bryd yn y cam datblygu ac sydd i fod i gael ei gweithredu yn ystod gwanwyn 2024 - yn galluogi i ni gael gwybodaeth o ansawdd gwell o ran recriwtio
- monitro gwybodaeth am gyflogau cyfartal a chynnal archwiliadau cyflog cyfartal.
- monitro cydymffurfiaeth â phrosesau gwerthuso swyddi.
- adolygu telerau ac amodau'n rheolaidd gyda'r undebau llafur cydnabyddedig.
- adolygu ein gwybodaeth am gyfweliadau ymadael er mwyn deall yn well y rhesymau dros adael ac os yw un rhyw yn gadael am resymau penodol o'i gymharu â'r llall.

Mae'r polisi gweithio hybrid wedi bod yn llwyddiannus wrth gefnogi cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith i staff, tra'n parhau i ddarparu'r un safon o wasanaeth i gleientiaid a chwsmeriaid.

Ni fydd yr un o'r mentrau hyn, ar wahân, yn dileu'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau a gall fod sawl blwyddyn cyn i ni weld effaith sylweddol. Rydym yn ymroddedig i:

- fod yn gyflogwr teg a chyfiawn
- fod yn gyflogwr sy'n sicrhau nad yw ei weithwyr yn destun gwahaniaethu annheg.
- barhau i adrodd yn flynyddol ar yr hyn yr ydym yn ei wneud i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ac unrhyw gynnydd pellach yr ydym yn ei wneud.

Rydym wedi ymrwymo i egwyddorion cydraddoldeb, amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant. Rydym yn parhau i gymryd rhan mewn trafodaethau ac opsiynau ymchwil a allai gefnogi ein hymgyrch i wella'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Byddwn yn parhau i annog mwy o staff i gwblhau'r holiadur data cydraddoldeb dewisol drwy'r porth hunanwasanaeth, er mwyn cynyddu'r data sydd gennym. Bydd hyn yn helpu i nodi unrhyw fylchau yn y gweithlu.

# Atodiad 4: Amcanion cydraddoldeb 2020-2024 – cynnydd hyd at fis Rhagfyr 2023

## Amcan 1: Addysg

Mae'r cytundeb o ran peidio cyhoeddi data perfformiad cyrhaeddiad ers 2020 yn parhau. Mae ysgolion yn parhau i fonitro data yn fewnol ac yn defnyddio'r data yma i adrodd ar gynnydd disgyblion yn ystod y flwyddyn. Mae'r data yn cael ei ddefnyddio i gynllunio ymyrraeth benodol ar gyfer lleihau unrhyw fwlch mewn cyrhaeddiad, ac mae rôl allweddol y Llywodraethwyr yn parhau i fod yn bwysig o ran herio hyn. Mae ymweliadau a chyfarfodydd gydag ymgynghorwyr cefnogi gwelliant ysgolion wedi parhau, gan gefnogi ysgolion i graffu ar y data a chefnogi unrhyw weithredu pellach.

### Cynnal perfformiad disgyblion sydd â gofynion dysgu ychwanegol ar lefel TGAU fel nad oes unrhyw fwlch sylweddol mewn cyrhaeddiad addysgol:

Mae'r gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a Chynhwysiad yn parhau i hybu cynhwysiad a chydraddoleb llawn ar gyfer dysgwyr bregus. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant penodol a chydweithio ar ddefnydd grant cyfalaf ADY er mwyn hybu amgylchedd ddysgu cynhwysol. Mae gwefan pwrpasol gan Môn a Gwynedd, sydd ar gael i ysgolion, disgyblion a'u rhieni i'w cefnogi - rydym yn parhau i uwchlwytho adnoddau newydd ar y wefan yn rheolaidd.

Ers 2021 mae grant hwb wedi cael ei ddefnyddio i ariannu 4,800 o Chromebooks a 400 o sgriniau ddigidol ar draws ysgolion yr ynys. O Fedi 2023 hyd at Rhagfyr 2023 mae'r ddwy ysgol Uwchradd a gafodd ei heffeithio gyda RAAC wedi derbyn 60 o Chromebooks ychwanegol a trwyddedau ychwanegol Google er mwyn recordio sesiynau ar gyfer plant sydd wedi gorfod dysgu o adref.

Yn ogystal, cafodd grantiau eraill eu dyrannu er mwyn ceisio sicrhau bod ysgolion yn gallu lleihau bylchau dysgu ac addysgu, gan gynnwys Grant Cerdd Cenedlaethol. Eleni mae 93K o'r grant wedi ei ddefnyddio i ddatblygu profiadau cerdd ar draws pob dalgylch i sicrhau fod pob plentyn cynradd yn derbyn profiadau cyntaf ar amrywiaeth o offerynau a gwersi torfol ar amrywiaeth o offerynnau. Golygir hyn fod pob plentyn yn cael yr un profiadau ledled yr ynys.

Yn yr uwchradd, mae Llwybrau Cerddoriaeth yn yr un modd yn darparu profiadau i pob plentyn dros y cyfnod 2022-2025, gyda 20K wedi dyrannu i gynlluniau ysgolion Uwchradd. Rydym hefyd yn talu am wersi Cerddoriaeth unrhyw ddisgybl sydd yn dilyn cyrsiau TGAU a Level A Cerdd ym Mon.

## Lleihau'r bwlch cyrhaeddiad addysgol rhwng bechgyn a merched sy'n cyflawni Sgôr 9 wedi'i gapio ar adeg gadael ysgol, lle mae'n fwy na 10% a pharhau i fynd i'r afael â'r mater hwn ar draws pob ysgol:

Ni allwn ddarparu gwerthusiad llawn o ddeilliannau addysgol disgyblion. Yn unol â datganiad y Gweinidog Addysg ar yr 21ain o Fehefin 2021, nid yw'r Awdurdod yn defnyddio data dyfarniadau cymwysterau i adrodd ar ddeilliannau cyrhaeddiad ar lefel ysgol, awdurdod na chonsortiwm rhanbarthol. Mae hyn yn ganlyniad i effaith pandemig Covid-19, a achosodd atal arolygiadau o ysgolion a'r rhan fwyaf o ddarparwyr addysg eraill ers mis Mawrth 2020.

## Gweithredu cynlluniau i leihau'r gwahaniaeth ym mherfformiad disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim (PID) a'r rhai nad ydynt, trwy ddefnyddio cyllid Grant Datblygu Disgyblion yn effeithiol ar lefel ysgol unigol:

Mae ysgolion yn cynllunio'n ofalus i ddefnyddio'r grant datblygu disgyblion i sicrhau nad yw disgyblion sydd gyda'r hawl i ginio am ddim yn cael eu heffeithio'n andwyol oherwydd tlodi. Mae pob ysgol yn gweithredu cynllun gwariant sy'n dangos y gynhaliaeth ychwanegol rhoddir i'r cohort yma o ddisgyblion i leihau effaith tlodi ar gyflawniad.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud penderfyniad i gynnig cinio am ddim i holl blant cynradd ac mae hyn bellach wedi cael ei weithredu yn llawn. Mae'r cynllun yma wedi ei wneud yn anoddach i adnabod y plant sydd yn gymwys am ginio am ddim o dan yr hen drefn. Mae ysgolion yn cael eu hannog i barhau i rannu'r ffurflen cinio am ddim gyda rhieni gan annog rhieni i'w llenwi, ac rydym yn cynnal trafodaethau gyda adrannau budd-daliadau a cyllid, er mwyn trafod gwella prosesau sydd yn adnabod yr plant sydd yn gymwys am ginio am ddim o dan yr hen drefn.

Yn unol a Canllawiau gwella ysgolion: fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd gan Llywodraeth Cymru (2022) mae'n rhaid i ysgolion ystyried y 'blaenoriaethau cenedlaethol' a nodir yn y rheoliadau cynllunio datblygu ysgolion wrth osod blaenoriaethau gwella eu hunain.  Un ohonynt yw i leihau effaith tlodi ar gynnydd a chyrhaeddiad dysgwyr.

## Cynorthwyo ysgolion i weithredu argymhellion canllawiau Llywodraeth Cymru, *Hawliau, Parch, Cydraddoldeb:*

Yn ystod 2023 mae'r gwasanaeth Dysgu wedi parhau i fod yn weithredol iawn yn hyrwyddo gweithdai i gefnogi maes dysgu cydberthynas a rhywioldeb. Mae gweithdrefnau fel hyn yn datblygu gwytnwch ysgolion i fynd i'r afael â heriau atal bwlio yn seiliedig ar hunaniaeth mewn addysg.

Mae gan y Cyngor brosesau cadarn i gefnogi ysgolion i ddarparu ymyraethau amrywiol i atal achosion o fwlio yn yr ysgol. Hefyd, mae'r prosesau'n sicrhau bod hawliau plant a phrosesau sy'n rhoi sylw ar gydraddoldeb yn cael lle amlwg mewn cynlluniau gweithredu.

Drwy gydweithio gydag Ysgolion Iach mae'r gwasanaeth Dysgu yn rhannu adnoddau cyfoes yn gyson drwy gylchlythyron ac, o ganlyniad, mae ysgolion yn hyderus iawn yn eu gweithdrefnau i atal bwlio yn seiliedig ar hunaniaeth.

Mae defnydd o'r system 'My Concern' gan yr ysgolion yn ffordd dda o dracio unrhyw bryderon sydd yn codi o fewn yr ysgolion a mae modd trosglwyddo y data o'r cynradd i'r uwchradd pan mae plentyn yn symyd. Mae adroddiadau diogelu blynyddol yn cael eu monitro yn flynyddol ac mae achosion o fwlio sydd yn cael eu cofnodi yn parhau yn gyson isel.

## Cylchredeg gwybodaeth i ysgolion yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb Cymru Gyfan a gynhelir yn flynyddol (Hydref):

Yn 2022 cyflwynwyd maes llafur cytunedig Ynys Môn newydd i ysgolion sy'n cyd-fynd gyda gofynion Cwricwlwm i Gymru. Mae'r maes llafur yn cynnig arweiniad cadarn i ysgolion ar themâu o fewn y dyniaethau ac o fewn y maes iechyd a lles sy'n codi ymwybyddiaeth o droseddau casineb.

Mae cylchredeg gwybodaeth i ysgolion yn ystod wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb Cymru gyfan yn parhau yn gyfle gwych i ddod â'r testun pwysig hyn i sylw ysgolion. Mae rhannu adnoddau fel Dangos Cerdyn Coch i Hiliaeth, Schoolbeat.cymru ac adnoddau gan NSPCC yn galluogi ysgolion i roi sylw blaenllaw i'r maes. Rydym hefyd yn cynnwys unrhyw ddiweddariadau addas o fewn bwletinau wythnosol sydd yn mynd i'r ysgolion.

Rydym yn parhau i annog ysgolion i sicrhau bod y themâu pwysig yma yn derbyn ystyriaeth barhaus o fewn ein hysgolion. Fe hysbysir ac annogir ysgolion i ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau perthnasol ar HWB.

# Amcan 2: Gwaith

## Ymdrechu'n barhaus i ddatblygu strategaethau pellach i gynorthwyo staff i weithio'n hyblyg a pholisïau eraill sy'n gyfeillgar i deuluoedd:

Mae gennym nifer o bolisïau sy'n hwyluso gweithio hyblyg ac yn cefnogi gweithwyr. Mae'r rhain yn cynnwys gweithio hybrid, gweithio hyblyg, seibiant gyrfa, absenoldeb anabledd, absenoldeb gofalwr ac arbennig ac ymddeoliad hyblyg. Mae'r polisïau a'r canllawiau yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd i sicrhau arfer gorau. Mae'r polisi gweithio hybrid bellach wedi ymwreiddio ac mae'n caniatáu hyblygrwydd i staff weithio gartref neu o'r swyddfa, yn unol ag anghenion busnes. Mae cwmpas y polisi absenoldeb gofalwyr hefyd wedi'i ymestyn i gynnwys anghenion gofalu wedi'u cynllunio a heb eu rhagweld. Ceir hefyd enghreifftiau niferus o gytundebau ymddeoliad hyblyg sydd wedi llwyddo i fodloni anghenion yr unigolyn ac ar yr un pryd wedi galluogi'r gwasanaeth i gadw sgiliau a phrofiad y gweithiwr.

Rydym hefyd wedi cryfhau gwaith partneriaeth gyda Chymunedau'n Gyntaf Môn ac wedi cynnal diwrnodau recriwtio i rannu gwybodaeth am swyddi gwag a darparu cefnogaeth i gwblhau ceisiadau. Mae'r prosiect Camau i Ofal gyda Choleg Llandrillo-Menai hefyd wedi bod yn llwyddiannus wrth ddarparu lleoliadau gwaith i fyfyrwyr ac yn darparu cyflenwad talent ar gyfer y dyfodol.

## Parhau i annog mwy o staff i ddarparu gwybodaeth bersonol fel y gall yr Awdurdod gael darlun mwy cyflawn o'r nifer o weithwyr y Cyngor fesul nodwedd a ddiogelir:

Rydym yn parhau i annog staff i ddarparu gwybodaeth bersonol ac wedi creu sawl sianel i gefnogi staff i rannu'r wybodaeth hon. Ceir rhagor o fanylion yn ein hadroddiad blynyddol ar gydraddoldeb ar gyfer 2022-23, yn ogystal â'n CCS newydd ar gyfer 2024-2028.

## Dadansoddi'r data gweithlu blwyddyn ar ôl blwyddyn a darparu adroddiadau blynyddol yn cynnwys y wybodaeth a ddadansoddwyd:

Mae'r data gweithlu blynyddol wedi'i goladu a'i ddadansoddi, gan adrodd ar ddata ar 31 Mawrth, 2023 – gweler ein dogfennau atodol (Atodiad 2).

# Amcan 3: Safonau byw

## Parhau, lle mae hynny'n bosibl, i wella arosfannau bysus ar yr ynys i'w gwneud yn hygyrch:

Mae'r Rhaglen Gwybodaeth Amser Real i ddarparu gwybodaeth electronig ar lwybrau strategol 4 a 62 wedi'i chwblhau, yn ogystal â gwelliannau i safleoedd cyfnewidfeydd bysiau Amlwch, Caergybi, Llangefni a Phorthaethwy. Roedd hyn yn cynnwys cyfuniad o foderneiddio arosfannau (neu arosfannau newydd), gwelliannau fel dodrefn stryd newydd (meinciau / planwyr) a gwybodaeth electronig.

## Parhau i ddarparu cyrbinau isel a chyfleusterau croesi cyffyrddol addas fel rhan o gynlluniau gwella troedfyrdd:

Mae hon yn rhaglen barhaus a, thrwy'r Gronfa Teithio Llesol, mae rhaglen o fân waith mewn lle i oresgyn methiant critigol y llwybrau a'r ardaloedd teithio llesol dynodedig. Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi darparu nifer o fannau croesi cyrbau isel eraill ar draws yr ynys mewn ymateb i bryder lleol.

## Ymateb fel y bo'n briodol i gwynion a dderbynnir gan aelodau o'r cyhoedd trwy ddefnyddio ein pwerau o dan ddeddfwriaeth rheoli traffig i gadw palmentydd a chroesfannau yn glir rhag rhwystrau a achosir gan geir wedi'u parcio:

Cynhaliwyd patrolau a chymerwyd camau gorfodi parcio mewn ymateb i alwadau a dderbyniwyd gan y cyhoedd ynghylch cerbydau sy'n rhwystro mannau croesi i gerddwyr. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i geisiadau a dderbyniwyd am linellau melyn dwbl mewn ardaloedd lle mae parcio yn achosi problem. Gwaith parhaus i baratoi ar gyfer cyflwyno gwaharddiad cenedlaethol ar barcio ar balmentydd i'w gyflwyno gan Lywodraeth Cymru. Hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru ar y parthau traffig 20mya mewn ardaloedd adeiledig.

## Parhau i asesu eiddo presennol y Cyngor ac eiddo landlordiaid cymdeithasol cofrestredig er mwyn sicrhau eu bod yn hygyrch i bobl anabl / Parhau i fuddsoddi mewn mân waith addasu a gwaith addasu mawr ar gyfer eiddo cyngor – tai cymdeithasol – trwy'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT) yn unol â Chynllun Busnes y CRT a chyllideb flynyddol y CRT:


Mae swyddogion tai yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaethau Plant ac Oedolion i flaengynllunio angen posibl, gan gynnwys y galw am addasiadau, gan sicrhau ein bod yn ymyrryd cyn gynted â phosibl er budd a lles ein preswylwyr ag anghenion iechyd a lles.

## Parhau i fonitro lefelau perfformiad chwarterol o ran y nifer o ddiwrnodau a gymerir i gwblhau Ceisiadau Grant Cyfleusterau i'r Anabl ar gyfer gwelliant parhaus:

Mae'r dangosydd perfformiad uchod wedi'i gynnwys yn ein hadroddiadau monitro perfformiad corfforaethol. Mae'r adroddiadau chwarterol hyn yn cael eu hystyried gan ein Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'n Pwyllgor Gwaith. Mae'r sefyllfa ar ddiwedd Ch2, 2023-24, fel yr adroddwyd ym mis Tachwedd 2023, wedi'i nodi isod:

Nid yw'r perfformiad cystal â'r 160 diwrnod a gofnodwyd yn Ch1 na'r 173 diwrnod a gofnodwyd ar gyfer Ch2 2022-23. Mae'r rhesymau dros y dirywiad ym mherfformiad y dangosydd hwn yn cynnwys:

- anhawster i gael mynediad i eiddo oherwydd y pryderon sydd gan gleientiaid yn dilyn y pandemig coronafeirws
- anawsterau wrth ddod o hyd i gontractwyr i gyflawni'r gwaith. Ar hyn o bryd dim ond 6 contractwr ar yr Ynys sy'n gosod yr addasiadau
- addasiadau sy'n cymryd mwy o amser i'w cwblhau
- newidiadau yn y meini prawf cymhwyster sydd wedi arwain at fwy o alw am grant cyfleusterau i'r anabl.


28) Nifer y dyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl
149
165
169
179
177
188
172
171
173
182
193
160
193
Ch/Q2 2020-21
Ch/Q3 2020-21
Ch/Q4 2020-21
Ch/Q1 2021-22
Ch/Q2 2021-22
Ch/Q3 2021-22
Ch/Q4 2021-22
Ch/Q1 2022-23
Ch/Q2 2022-23
Ch/Q3 2022-23
Ch/Q4 2022-23
Ch/Q1 2023-24
Ch/Q2 2023-24
Nifer o Ddyddiau
Targed

# Amcan 4: Iechyd, llesiant a gofal cymdeithasol

## Symud ymlaen i sicrhau Dyfarniad Aur Insport erbyn Ebrill 2021:

Nod rhaglen Insport, a arweinir gan Chwaraeon Anabledd Cymru, yw sicrhau newid diwylliannol mewn agweddau a darparu gweithgaredd corfforol yn ogystal â chyfleoedd ehangach i bobl anabl.

Mae materion yn ymwneud â chapasiti a llwyth gwaith wedi parhau i fod yn rhwystr wrth fwrw ymlaen â'r gwaith hwn yn 2023. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rhoddwyd blaenoriaeth i gynnal agweddau allweddol prosiectau cynhwysol presennol ar Ynys Môn, yn ogystal ag anrhydeddu canlyniadau allweddol Gwobr Arian Insport. Bu rhai llwyddiannau sylweddol o ran datblygu clybiau a phobl, creu cyfleoedd cynhwysol, sefydlu perthnasoedd newydd a dod â phobl ynghyd. Fodd bynnag, mae llawer mwy i'w wneud o hyd.

Mae llwyddiannau allweddol yn cynnwys gweithgareddau Nofio Insport, gyda 152 awr yn cael eu cynnig ar draws tair canolfan, gyda chyfanswm o 1511 yn mynychu. Cynigiwyd sesiynau pêl-droed wythnosol Insport hefyd, gyda 734 yn mynychu Canolfan Hamdden Plas Arthur.

## Parhau i gynnig Cynllun Cyfeirio Ynys Môn (NERS), gan weithio tuag at y targedau NERS cenedlaethol isod:

- Canran y cleientiaid NERS sy'n cwblhau'r rhaglen ymarfer corff (50% ac uwch)

Mae'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff (NERS) yn targedu cleientiaid 16 oed a hŷn sydd â, neu sydd mewn perygl o ddatblygu, clefyd cronig.

Rhwng Ionawr a Rhagfyr 2023, cawsom 1128 o atgyfeiriadau gan amrywiol weithwyr iechyd proffesiynol. Aeth 720 o'r rhain ymlaen i fynychu eu sesiynau cyntaf, gyda 74% yn cwblhau 16 wythnos ar y cynllun ymarfer corff.

- Canran y cleientiaid NERS yr oedd eu hiechyd wedi gwella ar ôl cwblhau'r rhglen ymarfer corff (80% ac uwch)

O'r bobl a gwblhaodd y cynllun, nododd 86% welliant mewn iechyd, gyda 12% yn aros yr un fath.

Rydym hefyd wedi datblygu ein cynllun Dementia Actif, gyda 6 dosbarth yr wythnos bellach yn cael eu cynnal ar draws yr ynys a sesiynau nofio Dementia wythnosol yn cael eu hysbysebu. Cynhaliwyd diwrnodau agored wedi'u hanelu at bobl dros 50 oed ym mhob un o'r pedair canolfan hamdden Môn Actif, yn ogystal â Chanolfan Biwmares.

## Gweithio mewn partneriaeth gyda darparwyr iechyd sylfaenol yn Ynys Môn fel rhan o gynllun peilot i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth gwiriad iechyd blynyddol ar gyfer pobl a chanddynt namau dysgu:

Hyrwyddwyr gwiriad iechyd: Mae'r hyrwyddwyr (a gefnogir gan Gyswllt Conwy), sy'n bobl ag anableddau dysgu, yn parhau i gyflwyno sesiynau ymwybyddiaeth o bwysigrwydd mynychu gwiriad iechyd i'w cyfoedion ar draws Gogledd Cymru. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, maent wedi llwyddo i gyrraedd cynulleidfa o 12,768 o bobl. Dangosodd adborth gan fynychwyr o'r gweithdai fod 96% wedi dysgu rhywbeth newydd am wiriadau iechyd a dywedodd 100% y byddent 'nawr yn archebu eu gwiriad iechyd cyn gynted â phosibl'.

Hyfforddiant meddygon teulu: 2023 oedd y flwyddyn lawn gyntaf i hyfforddiant Gwelliant Cymru 'Darparu gofal iechyd i bobl ag anabledd dysgu' gael ei ddarparu. Y nod yw, gyda mwy o wybodaeth a dealltwriaeth, y bydd y meddygfeydd teulu yn gallu darparu profiad mwy croesawgar. Bydd hyn yn helpu i annog mwy o bobl ag anableddau dysgu i fynychu eu gwiriad iechyd blynyddol. Cyfanswm y mynychwyr ar gyfer 2023 oedd 585 ar draws Gogledd Cymru.

Cyfanswm yr archwiliadau iechyd a gwblhawyd ar gyfer Gogledd Cymru ar gyfer diwedd blwyddyn 2022-23 oedd 1460, sef cynnydd o 8.1% ar y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn 48.7% o'r boblogaeth anabledd dysgu sy'n hysbys ar gyfer yr un ardal. Bellach mae gan y tîm cyswllt sylfaenol gyflenwad llawn o staff ac mae cysylltiadau rhwng y tîm cyswllt sylfaenol a gwasanaethau partneriaeth a rennir yn cael eu cryfhau ar hyn o bryd o ran gwella ansawdd y gwiriadau iechyd.

## Parhau i hyrwyddo'r cynnig rhagweithiol o wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg:

Gwelsom dystiolaeth gyson a chalonogol bod pobl yn cael cynnig rhagweithiol i siarad Cymraeg a bod dymuniadau pobl yn cael eu hystyried o ran dewis iaith.  Cefnogir staff i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg trwy amrywiaeth o opsiynau, o gyrsiau i sesiynau sgwrsio amser cinio. Yn ystod 2023, derbyniodd 195 aelod o staff ar draws ein Gwasanaethau Oedolion a Gwasanaethau Plant a Theuluoedd hyfforddiant mewn perthynas â Mwy na Geiriau.

Canran staff y Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n siarad Cymraeg ar lefelau 3 i 5 (a ddiffinnir fel canolradd i hyfedr):

Staff Gwasanaethau Oedolion – 80 %
Staff Gwasanaethau Plant a Theuluoedd – 88

# Amcan 5: Diogelwch personol

## Parhau i weithio â phartneriaid ledled Gogledd Cymru er mwyn dwyn sylw at y broblem o droseddau casineb ac annog pobl i hysbysu Heddlu Gogledd Cymru neu Cymorth i Ddefnyddwyr yn ystod yr Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb Cymru gyfan (WYTC):

Mae gwaith partneriaeth yn parhau, yn ystod yr WYTC blynyddol a thrwy gydol y flwyddyn, i godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo adrodd i Heddlu Gogledd Cymru neu Gymorth i Ddioddefwyr. O dan Amcan 1, ceir hefyd amlinelliad o'r hyn sy'n digwydd yn ysgolion yr ynys i godi ymwybyddiaeth a mynd i'r afael â throseddau casineb.

## Y gweithgor troseddau casineb aml-asiantaeth i ddatblygu a gweithredu cynllun gweithredu troseddau casineb er mwyn gwella dulliau riportio a chefnogi unigolion sy'n ddioddefwyr troseddau casineb (yn unol â'r amserlen a nodir yn y cynllun gweitredu ar gyfer atal troseddau casineb):

Mae mynd i'r afael â throseddau casineb wedi'i brif ffrydio i'n gweithrediadau arferol o ddydd i ddydd. Trwy hyfforddiant a datblygiad, mae ein swyddogion Tai yn gwbl gyfarwydd â throseddau casineb ac yn gallu adnabod yr arwyddion a'r symptomau. Mae ein gwasanaeth Tai yn gweithio'n agos gyda Heddlu Gogledd Cymru a Chymorth i Ddioddefwyr er mwyn cefnogi dioddefwyr troseddau casineb a dod â chyflawnwyr i gyfrif am eu trosedd.

Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda lleoliadau addysg er mwyn codi ymwybyddiaeth o ymddygiad gwrthgymdeithasol, sy'n cynnwys troseddau casineb.

## Defnyddio'r Porth Polisi[1] er mwyn sicrhau bod yr holl staff presennol a staff newydd (y mae ganddynt gyfrifon e-bost) wedi darllen, deall a derbyn y Polisi Diogelu Corfforaethol:

Ym mis Hydref 2023, roedd 95% o'r rhai yr oedd disgwyl iddynt dderbyn y polisi diogelu corfforaethol wedi gwneud hynny. Mae diogelu hefyd wedi'i gynnwys fel rhan o'n proses sefydlu gorfforaethol.
Mae gofynion derbyn polisiau wedi'u hatal dros dro tra bod y Porth Polisi yn cael ei uwchraddio i fersiwn mwy diweddar.

---

[1] Pwrpas y Porth Polisi (system rheoli polisïau electronig) yw sicrhau bod ein staff yn deall ac yn cael eu hatgoffa am rai gofynion y gosodwyd arnynt.

## Sicrhau bod staff ac aelodau yn derbyn gwybodaeth a hyfforddiant am agweddau perthnasol o'r Polisi Diogelu Corfforaethol, yn unol â chyfarwyddyd y Bwrdd Diogelu Corfforaethol:

Mae hyn wedi'i gynnwys fel pwnc o fewn y drefn anwytho corfforaethol newydd, sy'n orfodol i bob cyflogai newydd. Mae'n ofynnol i bob gweithiwr gwblhau modiwl e-ddysgu diogelu gorfodol ac, yn dibynnu ar eu rôl, ymgymerir â hyfforddiant diogelu pellach sy'n cwmpasu plant ac oedolion. Mae hyn yn unol â'n polisi hyfforddiant diogelu corfforaethol. Darperir hyfforddiant arbenigol hefyd yn unol ag anghenion y gweithlu a nodwyd.

At ei gilydd, mae lefelau cydymffurfio da â hyfforddiant diogelu e-ddysgu gorfodol.

## Parhau i weithio â phartneriaid er mwyn codi ymwybyddiaeth a darparu addysg i gymunedau lleol ar sut i ddelio â galwyr digroeso, troseddau stepen drws, twyll wyneb yn wyneb ac anhydfodau cyffredinol cwsmeriaid:

Rhwng 1 Ebrill a 31 Rhagfyr 2023:

- Derbyniwyd 38 cwyn / ymholiad yn ymwneud yn benodol â sgamiau.
- Anfonwyd 4 llythyr a phecyn gwybodaeth at ddefnyddwyr a gydnabyddir fel "dioddefwyr" trwy'r Hyb Sgamiau Cenedlaethol
- Rhoddwyd 34 o sticeri 'Dim Galw Heb Wahoddiad' i unigolion agored i niwed sy'n byw naill ai y tu mewn neu'r tu allan i Barth Dim Galw Heb Wahoddiad
- Rhoddwyd 1 rhybudd sgam ar gyfryngau cymdeithasol
- Gwnaethpwyd 1 atgyfeiriad diogelu i'r Gwasanaethau Cymdeithasol
- 396 o gwynion, ymholiadau a cheisiadau am gyngor gan ein partneriaid yng Ngwasanaeth Defnyddwyr Cyngor ar Bopeth ac yn uniongyrchol i'r gwasanaeth - arweiniodd 59 o'r rhain at ymchwiliadau ac ymyriadau pellach i ddefnyddwyr mewn anghydfodau.
- Cyflwynwyd 5 sgwrs addysgol yn y gymuned i grwpiau bregus
- Gosodwyd 5 rhwystrwr galwadau

# Amcan 6: Cyfranogiad

## Cymryd yr holl gamau angenrheidiol yn lleol er mwyn cefnogi'r ymgyrch genedlaethol i ehangu cyfranogiad yn etholiadau lleol 2022:

Wedi'i gwblhau – darparwyd amlinelliad o'r gwaith a wnaed i gefnogi ein hymrwymiad i fod yn Gyngor amrywiol yn adroddiad cydraddoldeb blynyddol y llynedd.

## Gwneud defnydd o weithredu cadarnhaol fel rhan o'r broses o recriwtio aelodau cyfetholedig:

Mae aelodau cyfetholedig yn cael eu recriwtio am dymor penodol i gynrychioli maes diddordeb penodol neu fater i'w ystyried. Mae pedwar o'n pwyllgorau yn cynnwys aelodau cyfetholedig, gyda chyfanswm o 15 sedd. Ym mis Rhagfyr 2023, roedd dwy sedd wag. O'r 13 aelod cyfetholedig mewn swydd, roedd 5 (38%) o seddi gan ferched.

## Gweithio mewn partneriaeth â'r trydydd sector er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd ymgysylltu ac ymgynghori perthnasol ymysg cynrychiolwyr o'r holl nodweddion gwarchodedig / Y bwrdd ymgysylltu ac ymgynghori ar y cyd i fabwysiadu rhestr wirio ymgysylltu ac ymgynghori a sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n effeithiol gan wasanaethau:

Ailsefydlwyd y bwrdd ymgysylltu ac ymgynghori ar y cyd o dan gyfarwyddyd ac arweiniad y Dirprwy Brif Weithredwr ym mis Rhagfyr 2021. Ers hynny mae'r Bwrdd wedi diwygio ei gylch gorchwyl ac wedi parhau i roi arweiniad a chyfeiriad i wasanaethau yn y modd a'r modd y cynhelir ymgynghoriadau . Mae'r rhestr wirio yn parhau i gael ei defnyddio a'i dosbarthu ymhlith gwasanaethau'r Cyngor, er mwyn cael sicrwydd bod ymgynghoriadau'n cael eu cynnal mewn modd cyson, yn ddibynnol ar y pwnc.

Ym mis Hydref 2023, fe wnaethom barhau i gryfhau ein trefniadau ymgynghori ac ymgysylltu â chynrychiolwyr yr holl nodweddion gwarchodedig, drwy fabwysiadu ein strategaeth cyfranogiad cyhoeddus newydd.

## Parhau i weithio ar ymgysylltu gyda'n partneriaid rhanbarthol (fel aelodau o NWPSEN[2]) drwy wneud y mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael i ni

Ers dros ddegawd, mae NWPSEN (sy'n cynnwys holl awdurdodau lleol Gogledd Cymru a sefydliadau sector cyhoeddus eraill) wedi bod yn cydweithio i rannu arfer da a gwneud y defnydd gorau o adnoddau. Yn ystod y cyfnod hwn, rydym hefyd wedi cydweithio i ddatblygu amcanion a rennir ar gyfer ein rhanbarth ac mae nifer o weithgareddau ymgysylltu ac ymgynghori rhanbarthol wedi'u cynnal i lywio'r gwaith hwn. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhanbarthol diweddaraf yn ystod haf 2023 fel rhan o'n hadolygiad o amcanion cydraddoldeb a rennir NWPSEN, i baratoi ar gyfer ein CCSau newydd. Ymdrinnir â hyn yn fanylach yn y dogfennau sy'n cyd-fynd â'n cynllun cydraddoldeb strategol newydd ar gyfer 2024-2028.

[2] Rhwydwaith o swyddogion cydraddoldeb sector gyhoeddus gogledd Cymru

# Amcan 7: Y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol

## Datblygu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a sicrhau bod y ddyletswydd yn dod yn rhan annatod o'n busnes o ddydd i ddydd:

Ers 2021, rydym wedi bod yn defnyddio ein Porth Polisi i sicrhau bod rheolwyr a staff perthnasol yn ymwybodol o ofynion y ddyletswydd. Mae canllawiau hefyd ar gael ar ein safle mewnrwyd (MonITor) ac mae cymorth ar gael gan ein Tîm Polisi a'r Gymraeg.

Mae gofynion derbyn polisiau wedi'u hatal dros dro tra bod y Porth Polisi yn cael ei uwchraddio i fersiwn mwy diweddar.

## Adolygu canllawiau a thempledi corfforaethol er mwyn sicrhau bod ystyriaeth ddigonol yn cael ei rhoi i'r angen i leihau anfanteision economaidd-gymdeithasol:

Cwblhawyd. Adolygwyd ein templedi ar gyfer adroddiadau pwyllgor ac asesiadau effaith yn ôl ym mis Ebrill 2021 i gynnwys adrannau penodol i gofnodi unrhyw oblygiadau sy'n ymwneud â'r ddyletswydd.

## Defnyddio ein hadroddiadau blynyddol ar gydraddoldeb er mwyn adrodd ar ddatblygiadau a dangos sut yr ydym yn cydymffurfio â'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol:

Gweler uchod.

# Amcan 8: Ein prosesau mewnol

## Parhau i godi ymwybyddiaeth am gydraddoldeb ac amrywiaeth ymysg staff y Cyngor yn ystod sesiynau anwytho corfforaethol a drwy hysbysu staff sydd â chyfrifon e-bost bod angen iddynt ddarllen, deall a derbyn y Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Ym mis Hydref 2023, roedd 95% o'r rhai yr oedd disgwyl iddynt dderbyn y polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth wedi gwneud hynny. Mae ymwybyddiaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth hefyd wedi'i chynnwys fel rhan o'n proses sefydlu gorfforaethol.

Mae gofynion derbyn polisiau wedi'u hatal dros dro tra bod y Porth Polisi yn cael ei uwchraddio i fersiwn mwy diweddar.

## Parhau i hyrwyddo hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer yr holl staff ac ymateb yn y modd priodol lle mae anghenion penodol wedi'u hadnabod:

Mae hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth yn parhau i fod yn bwnc allweddol o fewn y rhaglen hyfforddi gorfforaethol ar gyfer staff, rheolwyr ac aelodau etholedig. Rydym yn parhau i adolygu a gwerthuso'r rhaglen hyfforddi flynyddol i sicrhau ei bod yn bodloni anghenion y busnes yn ogystal â chynnal safonau a gwerthoedd yr Awdurdod.

## Parhau i ddarparu cyfleoedd o ran cefnogi a datblygu aelodau a swyddogion er mwyn sicrhau bod ganddynt wybodaeth ddigonol am eu dyletswyddau tuag at bobl â nodweddion gwarchodedig:

Yn ogystal â'r sesiynau hyfforddi cydraddoldeb ac amrywiaeth cyffredinol, mae cyfle i staff perthnasol fynychu hyfforddiant asesu effaith cydraddoldeb. Mae'r sesiwn yn rhoi rhagor o wybodaeth am ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus a sut mae'n berthnasol i'r angen i asesu effaith ar gydraddoldeb.

Mae ein strategaeth datblygu aelodau yn nodi y byddwn yn darparu hyfforddiant a datblygiad hyblyg ac ymatebol i aelodau etholedig sy'n seiliedig ar anghenion unigol a sefydliadol. Mae cydraddoldeb ac amrywiaeth ac asesu effaith ar gydraddoldeb yn parhau i fod yn rhan allweddol o'r hyfforddiant a ddarperir i'n cynghorwyr.

Mae templedi a chanllawiau ar gyfer cynnal asesiadau effaith cydraddoldeb ar gael ar ein mewnrwyd ac mae'r Tîm Polisi a'r Gymraeg hefyd wrth law i gynnig cyngor.

Rydym yn bwriadu adolygu a gwella cynnwys ein tudalennau mewnrwyd cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae hyn er mwyn sicrhau bod adnoddau ar gael yn hawdd mewn un lle i gefnogi swyddogion sy'n cynnal asesiadau effaith cydraddoldeb. Rydym wedi cynnwys y cam hwn yn ein CCS o dan amcan cydraddoldeb 8: Arferion gwaith mewnol.

## Adolygu’r templedi canlynol er mwyn cryfhau’r cyswllt â’r Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau’r Dyfodol a’r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol:

- Templedi adroddiadau sgriwtini
- Templed ac arweiniad AEC corfforaethol.

Adolygwyd ein templedi ar gyfer adroddiadau pwyllgor ac asesiadau effaith yn ôl ym mis Ebrill 2021 i gynnwys adrannau penodol i gofnodi unrhyw oblygiadau sy’n ymwneud â’r ddyletswydd.

## Er mwyn cefnogi penderfyniadau a wneir yng nghyd-destun Deddf Llesiant a Chenedlaethau’r Dyfodol:

- Adolygu’r strategaeth gwestiynau ar gyfer aelodau sgriwtini
- Datblygu cyfres o gwestiynau ar gyfer aelodau sgriwtini, yn seiliedig ar Fframwaith Cenedlaethau’r Dyfodol ar gyfer Sgriwtini a gynhyrchwyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru

Adolygwyd y strategaeth holi ar gyfer aelodau craffu yn ystod 2020 fel rhan o adolygiad o’n rhaglen datblygu craffu lleol.

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>__Templed Adroddiad Sgriwtini__ | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **13 Mawrth, 2024** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Cynorthwyo'r Pwyllgor Sgriwtini i ystyried, cytuno ar ac adolygu ei flaen raglen ar gyfer 2023/24** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Dylan Rees** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Amherthnasol** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini**<br>**07971167198**<br>**AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Sgriwtini** |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor:<br>**A1** gytuno'r fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2023/24<br>**A2** nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen sgriwtini effeithiol mewn llywodraeth leol. Mae ein blaen raglenni gwaith treigl ar gyfer Sgriwtini wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor a'r rhaglenni trawsnewid corfforaethol – ac yn sicrhau bod rôl sgriwtini Aelodau yn gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwella'r Cyngor. |

| **3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini** |
|---|
| **Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**<br><br>**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**<br><br>**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**<br><br>**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**<br><br>**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**<br><br>**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:<br>• Hirdymor<br>• Atal<br>• Integreiddio<br>• Cydweithio<br>• Cynnwys<br>**[ffocws ar lesiant]**<br><br>**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar: |

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

**1. Cefndir**

1.1 Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen swyddogaeth sgriwtini effeithiol llywodraeth leol[1]. O'i wneud yn dda, gall rhaglennu gwaith fod o gymorth i osod y sylfeini ar gyfer gwaith amserol sydd wedi ei dargedu ar faterion o bwysigrwydd lleol sy'n dangos ble gall sgriwtini Aelodau ychwanegu gwerth. Mae arfer dda'n hyrwyddo dau fater allweddol a ddylai fod wrth galon y flaen raglen waith sgriwtini:

i. Her mewn perthynas â blaenoriaethu ffrydiau gwaith
ii. Yr angen am ymagwedd a arweinir gan aelodau a rhyngwyneb gyda swyddogion.

**1.2 Egwyddorion sylfaenol rhaglennu gwaith yn dda[2]**

- Ni ddylai rhaglennu gwaith fod yn broses "cychwyn-stopio"
- Rhaglenni gwaith sy'n cyd-fynd â'i gilydd ar gyfer pwyllgorau sgriwtini gwahanol
- Cydbwysedd rhwng gwahanol ddulliau o weithio
- Proses effeithiol ar gyfer rhoi gwybod am / uwch gyfeirio materion i'r Pwyllgor Gwaith
- Mewnbwn a sylwadau cydranddeiliaid mewnol
- Gweithio'n agos â'r Pwyllgor Gwaith
- Cysylltiadau gyda'r Adroddiad Sgriwtini Blynyddol (teclyn ar gyfer gwerthuso a gwella)

**2. Cyd-destun Lleol**

2.1 Mae'r arfer o raglennu gwaith ymlaen llaw wedi cael ei hen sefydlu ac mae'r rhaglenni gwaith yn raglenni treigl sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gwaith craffu ac sydd â llai o eitemau er mwyn ychwanegu gwerth. Maent yn declyn pwysig i gynorthwyo Aelodau i flaenoriaethu eu gwaith ac fe'u trafodir gyda'r Tîm Arwain a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Bydd y ddau bwyllgor yn adolygu cynnwys eu rhaglenni gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau lleol ar gyfer cynllunio ymlaen bellach yn rhoi mwy o ffocws ar:

- Agweddau strategol
- Ymgynghori gyda dinasyddion / cydranddeiliaid eraill a chanlyniad hynny

[1] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)
[2] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)

- Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor a phrosiectau trawsnewid
- Risgiau a gwaith arolygu a rheoleiddio
- Materion ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.

**Canlyniad**: rhaglenni gwaith treigl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini sydd wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol.

2.2 Cadeiryddion pwyllgor sy'n arwain ar ddatblygu blaen raglenni gwaith a'r rhaglenni hynny'n cael eu cyflwyno i'r Fforwm Cadeirydd ac Is-gadeiryddion Sgriwtini yn fisol ac ar gyfer eu cymeradwyo ym mhob cyfarfod arferol o'r pwyllgorau sgriwtini. Ystyrir y Fforwm fel cyfrwng pwysig ar gyfer goruchwylio'r rhaglenni hynny a thrafod blaenoriaethau ar y cyd.

2.3 **Ymagwedd "Cyngor cyfan" tuag at Sgriwtini**: mae ein rhaglenni gwaith yn darparu sylfaen gref ar gyfer ein rhaglenni gwella gan sicrhau bod y rôl y mae Sgriwtini yn ei chwarae yn nhrefniadau llywodraethiant yr Awdurdod yn:

i. Cefnogi proses gwneud penderfyniadau sy'n gadarn ac yn effeithiol
ii. Gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwelliant y Cyngor
iii. Parhau i esblygu.

**3. Materion ar gyfer eu hystyried**

3.1 Mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar weithrediad ei flaen raglen waith. Mae copi o'r rhaglen waith gyfredol ar gyfer 2023/24 ynghlwm fel **ATODIAD 1** i'r adroddiad hwn fel y gellir cyfeirio ati ac mae'n cynnwys newidiadau a wnaed i'r rhaglen waith ers i'r Pwyllgor ystyried y ddogfen ddiwethaf[3]

3.2 Lle mae hynny'n briodol, gellir ychwanegu eitemau at flaen raglen waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddinesig. Gellir cyflwyno ceisiadau am i eitemau ychwanegol gael eu cynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer eu ystyried drwy lenwi Ffurflen Gais Aelodau yn gofyn am i eitem gael ei hystyried ar gyfer Sgriwtini. Yn y lle cyntaf, caiff y ceisiadau eu hystyried gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, gan ddefnyddio'r meini prawf isod:

- Amcanion strategol a blaenoriaethau'r Cyngor (fel y cânt eu hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor)
- Gallu'r Pwyllgor i ddylanwadu ar ac/neu i ychwanegu gwerth ynghylch pwnc penodol (bydd angen cwblhau Ffurflen Prawf Arwyddocâd Sgriwtini).

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| |

[3] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar 6 Chwefror, 2024

| |
|---|
| Dim yn berthnasol yn achos y mater trosfwaol hwn ond bydd yn cael ei ystyried fel rhan hanfodol yn ystod y broses o baratoi ar gyfer cynigion penodol a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu hystyried. |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Amherthnasol |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 2023/24 |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |

**RHAGLENNU EITEMAU AR GYFER SGRIWTINI MAI, 2023→ Ebrill, 2024**
**[Fersiwn dyddiedig 04/03/24]**

## Nodyn i Randdeiliaid a'r Cyhoedd

Mae yna **Brotocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgor Sgriwtini** wedi'i gyhoeddi gan y Cyngor.
Os ydych yn dymuno siarad ar unrhyw eitem benodol mewn Pwyllgor Sgriwtini yna dylech gofrestru eich diddordeb drwy gyflwyno cais ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael cyn gynted â phosibl ac o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn cyfarfod y Pwyllgor penodol. Cewch wybodaeth am y cyfarfod, a pha eitemau fydd yn cael eu trafod wrth ddarllen y Blaen Raglen Waith yma. Cysylltwch â'r Rheolwr Sgriwtini os oes gennych unrhyw ymholiadau [Anwen Davies: AnwenDavies@ynysmon.gov.uk ]

Tudalen 109

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | |
| **Mai, 2023 (23/05/23)** | **Mai, 2023 (23/05/23)** |
| Ethol Cadeirydd: 2023/24 | Ethol Cadeirydd: 2023/24 |
| Ethol Is-gadeirydd: 2023/24 | Ethol Is-gadeirydd: 2023/24 |
| | |
| **Mehefin, 2023 (20/06/23) – Ch4** | **Mehefin, 2023 (21/06/23)** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch4: 2022/23 | Y Gymraeg<br>• Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg: 2022/23<br>• Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg: 2022/23 → Mesur Cynnydd<br>• Adroddiad Cynnydd y Panel Sgriwtini Addysg |
| Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn: 2022/23 |
| Cynllun Rheoli'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol | Cynllun Strategol Rheolaeth Cyrchfan |
| Dogfen Gyflawni Flynyddol: 2023/24 | Adroddiad Cynnydd Ch 4 2022/23 Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |
| **Medi, 2023 (19/09/23) – Ch1** | **Medi, 2023 (19/09/23) - Addysg** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch1: 2023/24 | Ymgynghoriad ar Ddyfodol Gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru – sylwadau Cyngor Sir Ynys Môn |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Adroddiad Blynyddol Ynys Môn gan GwE: 2022/23 |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| Adroddiad Perfformiad Blynyddol: 2022/23 | Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Addysg |
| Enwebu Aelod o’r Pwyllgor Sgriwtini ar y Panel Sgriwtini Cyllid | Siarter Craffu Addysg |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |
| **Hydref, 2023 (18/10/23) – cyfarfod wedi’i ddiddymu** | **Hydref, 2023 (17/10/23)** |
| | Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Rhanbarthol Cynllunio at Argyfwng: 2022/23 |
| | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru (Rhan 9): 2022/23 |
| | Cynllun Strategol Cyfranogiad Cyhoeddus: 2023-2028 |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |
| | **Tachwedd, 2023 (13/11/2023) – cyfarfod ychwanegol** |
| | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| | |
| | |
| **Tachwedd, 2023 (21/11/23) - Ch2** | **Tachwedd, 2023 (22/11/23) – Trosedd ac Anhrefn** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch2: 2023/24 | Cynllun Strategol Gwastraff ac Ail-gylchu: 2023/2028 |
| Cynllun Strategol Tai Gwag: 2023/28 | Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn: 2022/23 |
| Adroddiad Cynnydd Siwrnai Gwasanaethau Cymdeithasol | Rhaglen Ffyniant Bro Ynys Môn – Mesur Cynnydd |
| Enwebu Aelod o’r Pwyllgor Sgriwtini ar y Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |
| **Ionawr, 2024 (16/01/24) – Cyllideb 2024/25 (bore)** | **Ionawr, 2024 (18/01/24)** |
| Sefydlu Cyllideb 2024/25 (cyllideb refeniw) - cynigion drafft cychwynnol | Moderneiddio Cyfleon Dydd: Anableddau Dysgu (ardal Caergybi) |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Adroddiad Cynnydd Ch2: 2023/24 Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |
| | |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |
| **Ionawr, 2024 (16/01/24) (prynhawn)** | |
| Cynllun Strategol Cyfranogiad Tenantiaid | |
| Cynllun Strategol Rheoli Asedau (Tai) | |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| Dangosyddion Perfformiad Lleol: Gwasanaethau Tai – Adroddiad Cynnydd | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 | |
| | |
| **Chwefror, 2024 (13/02/24) – cyfarfod ychwanegol** | |
| Papur Cynnig: Trosglwyddo Disgyblion Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell a Chau Ysgol Carreglefn | |
| | |
| | |
| **Chwefror, 2024 (27/02/24) – Cyllideb 2024/25** | **Chwefror, 2024 (06/02/24) - Addysg** |
| Cynigion Drafft Terfynol Cyllideb 2024/25 – refeniw a chyfalaf | Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Addysg |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Cynllun Strategol Cydraddoldeb: 2024/2028 |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |
| **Mawrth, 2024 (12/03/24) - Ch3** | **Mawrth, 2024 (13/03/24)** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch3: 2023/24 | Cynllun Strategol Taclo Tlodi: 2024-2029 |
| Casgliadau Adolygiad Perfformiad – Grantiau Cyfleusterau Anabledd | Rhaglen Cronfa Ffyniant Bro Ynys Môn – Mesur Cynnydd |
| Cynllun Strategol Rheoli Asedau:2024-2029 | Diogelu Corfforaethol |
| Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai: 2024/2054 | Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb: 2022/23 |
| | **Eitem er gwybodaeth -** Adroddiad Cynnydd Ch3:2023/24 Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |
| **Ebrill, 2024 (16/04/24)** | **Ebrill, 2024 (17/04/24)** |
| Asesiad y Farchnad Dai Leol | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – trefniadau llywodraethiant / craffu cynnydd ar wireddu’r Cynllun Llesiant |
| Adroddiad y Grŵp Tasg a Gorffen Sgriwtini - Gosod Tai’r Cyngor (DP29) | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |

**Eitemau i’w rhaglennu**

| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Cynllun Rheoli Asedau Gwasanaeth 2021/31 – Ystad Mân-ddaliadau (Mehefin, 2024) | Moderneiddio Cyfleon Dydd: Anableddau Dysgu (Mehefin, 2024) |
| Cyfrifiad 2021 | Rhaglen Ffyniant Bro Ynys Môn – Mesur Cynnydd (Tachwedd, 2024 ac Ionawr, 2025) |
| Trawsnewid a Moderneiddio Gwasanaethau Oedolion | Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| Rhaglen Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Chryfhau'r Gymraeg | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| | Medrwn Môn |
| | Craffu ar Bartneriaethau |
| | Cynllun Gweithredu Llety Sipsiwn a Theithwyr |
| | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn – Adroddiad Blynyddol 2023/24 (Mehefin, 2024) |
| | Rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy: Adroddiad Blynyddol 2023/24 (Mehefin, 2024) |
| | Gwella Dibynadwyedd a Gwytnwch ar draws y Fenai |
| | Porthladd Rhydd Ynys Môn |
| | Cynllun Datblygu Lleol Ynys Môn |
| | Effaith Twristiaeth ar Gymunedau Lleol Ynys Môn (penderfyniad gan y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, 21/06/2023) |
| | |